# Cynnwys


Rhaglen 2
Cofnodion y cyfarfod diwethaf 7
5 - Adroddiad Blynyddol AGGCC 2013-14 15
Atodiad 1 16
Atodiad 2 32
6 - Adroddiad Arbedion 39
Atodiad A1 - Arbediad Cytundebau Darparwyr 40
Atodiad B1 Arbediad P6 Cymorth I Ferched De Gwynedd 44
Atodiad B2 - Rheolydd Gorwel 46
Atodiad C1 Arbediad P7 Cymorth I Ferched Bangor 47
7 - Adroddiad Cynnydd Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Addysg Ysgolion Uwchradd 49
Atodiad 1 - Cynllun Gweithredu 56
8 - Adroddiad ar weithredu y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] gydag ysgolion Gwynedd 76

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 11 RHAGFYR 2014**

**10.00 a.m. THURSDAY, 11 DECEMBER 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 03.12.14

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
## SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

**AELODAETH / MEMBERSHIP (18)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Chris Hughes
Elin Walker Jones
Liz Saville Roberts
Alan Jones Evans
Selwyn Griffiths
W. Tudor Owen
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd
Peter Read
(Sedd Wag)

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelod Unigol / Individual Member (1)

Y Cynghorydd / Councillor Linda Ann Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Dewi Owen a / and Dilwyn Morgan

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /**
**With a vote on education matters only**

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
/ Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
/ Representative for Dwyfor Parent Governors

***Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir ar y rhaglen***

**R H A G L E N**

1. **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2014.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

5. **ADRODDIAD BLYNYDDOL (AGGCC)**
***Aelod Cabinet – Y Cyng. R H Wyn Williams*** 10.05 am – 11.05 am

I dderbyn adroddiad gan Mr Mark Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o'u hadoygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Cyngor Gwynedd 2013-14.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd**)

6. **ARBEDION**
***Y Cyng. Peter Read, Cadeirydd y Fforwm Craffu***

I dderbyn adroddiadau gan y Cynghorydd Peter Read ar yr isod:

**(a) Arbediad Addasu Cytundebau Darparwyr** 11.05 am – 11.15 a.m.

(Copi'n amgaeedig – papur **pinc)**

**(b) Arbediad Cymorth i Ferched De Gwynedd** 11.15 am – 11.25 a.m.

(Copi'n amgaeedig – papur **eog)**

**(c) Arbediad Cymorth i Ferched Bangor** 11.25 am – 11.35 a.m.

Copi'n amgaeedig – papur **llwyd)**

**7.** **ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PROSIECT HYRWYDDO ANSAWDD ADDYSG YN YR YSGOLION UWCHRADD ERS MEHEFIN 2014** 11.35 am – 12.05 p.m.
***Aelod Cabinet – Y Cyng. Gareth Thomas***

(a) I dderbyn diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Adran Addysg yn dilyn argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg i'r Aelod Cabinet.

(b) I dderbyn adborth y gwasanaeth addysg ar ganlyniadau arholiadau TGAU haf eleni.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

**8.** **ADRODDIAD AR WEITHREDU Y GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION (GwE) GYDAG YSGOLION GWYNEDD** 12.05 p.m – 12.35 p.m.
***Aelod Cabinet : Y Cyng. Gareth Thomas***

I dderbyn adroddiad ar weithrediad GwE.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

**9.** **ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD** 12.35 p.m – 12.40 p.m.
***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

(a) I adrodd, er gwybodaeth, mai ym mis Chwefror neu Fawrth y bydd y cynigion o'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ffurfiol.

(b) Ystyried cais i'r Pwyllgor hwn sefydlu Grwp Tasg penodol i graffu ar y Strategath Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y cyfnod ymgynghorol (a fydd yn ystod Ionawr 2015).

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 02.10.14

**Yn bresennol**: **Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Huw Edwards, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Elin Walker Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Dewi Owen, W. Tudor Owen, Liz Saville Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Undebau Athrawon:** David Healy

**Eraill a wahoddwyd ar Gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen:** (a) Y Cyng. Eddie Doan, Tom Ellis, Aled Evans, Jean Forsyth, Gwen Griffith, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Anne Lloyd Jones, Eric Merfyn Jones, W. Roy Owen, E. Caerwyn Roberts, Angela Ann Russell, Dyfrig L. Siencyn, Gareth Thomas, Ioan C. Thomas, Paul E. Thomas, Elfed Wyn Williams, R H Wyn Williams, Mandy Williams-Davies

(b) Y Cyng. Alun Mummery, John Griffith a Geraint Roberts (Cyngor Ynys Môn)

(c) Meinir Evans (Cynrychiolydd y Trydydd Sector)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) Eleri Llywelyn Owen (Rheolwr Prosiect Dros Dro), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Mrs Linda Byrne (Aelod o Bwyllgor Safonau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen W. Churchman, Lesley Day, Dyfed Edwards, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Linda Ann Wyn Jones, Linda Morgan, Michael Sol Owen, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

## 1. GAIR O GROESO

Estynodd y Cadeirydd groeso i'r canlynol:

(a) Yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Grace Lewis Parry, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chysylltiadau Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

(b) Aelodau'r Cyngor nad oeddynt yn aelodau o'r Pwyllgor

(c) Y Cynghorwyr Alun Mummery a John Grffith, Mr Geraint Roberts, Swyddog Craffu, Cyngor Ynys Mon

(d) Meinir Evans, Rheolwr Canolfan Lon Abaty, a oedd yn cynrychioli'r trydydd sector.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Elin Walker Jones mewn perthynas ag Eitem 5 ar y Rhaglen – Y Gwasanaeth Iechyd Lleol gan ei bod yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2014.

## 4. Y GWASANAETH IECHYD LLEOL

(a) Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ymhelaethodd ar ei weledigaeth i'r gwasanaeth iechyd, yn dilyn ei benodiad i'r swydd ers tri mis, drwy gyfeirio at y pedwar maes canlynol:

1. Fel Bwrdd Iechyd mae angen i ni newid cyfeiriad drwy ganolbwyntio ar yrru ymlaen gyda dull o gyflwyno gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol sy'n gynaliadwy
2. Ehangu i gefnogi cydweithwyr gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol
3. Bod yn fwy lleol yn y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru a chydweithwyr yn y trydydd sector.
4. Cynllun Tair Blynedd

Cafodd yr uchod ei atgyfnerthu drwy ymgynghori gyda staff am newidiadau ac egluro'r agweddau allweddol. Roedd strwythur newydd wedi ei anfon ar gyfer ymgynghori ffurfiol sy'n cydnabod yr angen am reolwyr ac arweinyddiaeth leol yn gysylltiedig â'r chwe awdurdod lleol. O safbwynt hyn, sefydlir tri Thîm Ardal i weithio gyda'r awdurdodau lleol ble bydd Cyfarwyddwr Lleol yn gyfrifol am:

- Hybu iechyd
- Atal afiechyd
- Gweithio ar faterion iechyd y cyhoedd
- Arwain y Timau Cymunedol ac Ysbytai sy'n rhan allweddol i'r Gwasanaeth Iechyd o ran gwasanaethau wedi gadael yr ysbyty

Bydd gan y Cyfarwyddwyr Ardal gyllidebau i'w cymunedau i ddatblygu'r gwasanaeth o'r gwaelod i fyny, a ble bydd nifer y boblogaeth yn pennu sut mae'r arian yn cael ei wario. Dyrennir yr arian i ble fo'r Tîm Ardal a'r cleifion a bydd yn gyrru sut bydd y Bwrdd Iechyd eisiau gweithio gydag awdurdodau lleol a chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus.
Rhagwelir y bydd y strwythur newydd yn ei le erbyn y Nadolig ac mae'r Bwrdd Iechyd yn awr yn y broses o edrych am dri chyfarwyddwr o wahanol gefndiroedd - gwasanaethau gofal sylfaenol, rhywun sy'n deall sut i reoli trosglwyddo o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, gyda chefndir awdurdod lleol/gofal cymdeithasol. Bydd y strwythur hefyd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Aciwt a Iechyd Meddwl gan wneud cyfanswm o bump fydd yn cael eu harolygu gan Brif Swyddog Gweithredol fydd yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau o ddydd i ddydd. O ran yr ymatebion ysgrifenedig a gafwyd o'r ymgynghori, nid oedd un llais oedd yn anghytuno gyda'r weledigaeth uchod.
O ran y cynllun tair blynedd, nodwyd bod pedwar maes allweddol yr hoffai'r Bwrdd Iechyd i'r awdurdodau lleol fod yn rhan ohonynt:

- Bod â strategaeth sylfaenol a chymunedol sydd angen ei mireinio yn unol â gweledigaeth y sefydliad
- Yr angen am drafodaeth gyda'r gwasanaeth cyhoeddus i gyd-leoli gwasanaethau yn y dyfodol
- Datblygu model gweithlu o ran recriwtio a hyfforddiant
- Gwasanaethau aciwt clinigol - yr angen i symud i fodel o un ysbyty dros dri safle ond sicrhau bod gwasanaethau lleol yn eu lle ble mae eu hangen i sicrhau cefnogaeth i wasanaethau cymunedol.

**(b)** Wrth ateb cwestiynau penodol a gyflwynwyd gan aelodau unigol, dywedodd yr Athro Purt fel a ganlyn:

1. Ynglŷn ag aros am dair awr i gael gwasanaeth 'triage' roedd hi'n anodd ateb hyn oherwydd ni ddylai mwyafrif helaeth y cleifion fod yn mynd i'r Adran Ddamweiniau a Brys ond i'w fferyllfeydd, meddygfeydd Meddygon Teulu neu i un o'r myrdd o wasanaethau eraill. Y targed i amser aros yn yr Adran Ddamweiniau a Brys yw 4 awr, ac yn ei farn ef roedd gormod o bobl yn mynd i'r Adrannau hyn ble rhoddwyd y flaenoriaeth i drin pobl oedd angen triniaeth frys yn gyntaf. Os oes angen i unigolion aros am dair awr yna nid oedd yna lawer roedd y system bresennol yn gallu ei wneud i newid hyn. Er hynny, dylid pwysleisio mai nid gwasanaeth iechyd da oedd yr Adran Ddamweiniau a Brys.

   O ran y rhestrau aros, gweithredir dwy system cadw lle yng Nghymru a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, sef y broses cadw lle rhannol i lwybrau triniaeth sydd ddim yn rhai brys gyda gwasanaeth cadw lle llawn sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gleifion gyda chanser.

2. O ran y pryderon ynglŷn â'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Ngwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cyfan sydd â'r amser ymateb gorau yng Nghymru ac ar hyn o bryd roedd yn 63% oedd yn agos i'r targed o wyth munud. Er hynny, nid oedd y targed wyth munud yn gwahaniaethu pan roedd parafeddyg yn cyrraedd ac os oedd yn argyfwng go iawn – caiff yr alwad ei chofnodi gan y Ganolfan Alwadau. Felly, roedd cwestiwn os oedd y nifer iawn o gleifion yn cael eu gweld fel achosion brys ar y targed 8 munud. Roedd hyn yn fater i'w drafod yn y dyfodol gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans mewn ffordd ychydig yn fwy synhwyrol – nid dim ond y targed sy'n methu. Erbyn hyn roedd cyswllt uniongyrchol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans fel ei bod hi'n glir ynglŷn â sut i symud y gwasanaeth yn ei flaen. Nodwyd ymhellach fod y gwasanaeth ei hun angen ei foderneiddio ac roedd nifer o bobl yn ei ystyried fel gwasanaeth cludiant. Rhagwelir gyda'r gwaith sydd ar y gweill, y bydd y gwasanaeth yn fwy canolog yn y gwasanaethau a bydd yn gwella yn y dyfodol.

3. O ran cadw cleifion mewn gwelyau ysbyty, nododd yr Athro Purt na fyddai yn dadlau dros gadw cleifion mewn gwelyau ysbyty os nad oedd angen iddynt fod yno. Os oedd angen triniaeth barhaus yna dylai'r cleifion adael yr ysbyty a chael eu galw yn ôl. Nodwyd ymhellach fod y Bwrdd Iechyd yn un o'r rhai gorau yng Nghymru gyda cyrraedd y targedau i fynediad diagnostig cyffredinol ac o ran dilyniant, nid oedd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ddim gwahanol i fyrddau iechyd eraill. Ar hyn o bryd roedd y gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael ei ddiwygio ac roedd yn destun adolygiad a gyhoeddir yn ystod y 2/3 wythnos nesaf.

4. Ynglŷn â pholisi'r Gymraeg ag anghenion cleifion, nodwyd ei bod hi'n hollol sylfaenol fod gwasanaeth dwyieithog yn hollol hygyrch. Fe wyddom fel mae pobl yn mynd yn hŷn eu bod yn dymuno siarad yn eu mamiaith. Mae'r Bwrdd yn dymuno creu hinsawdd gyda'r staff a'r cleifion sy'n cydnabod fod gofal dwyieithog yn well gofal i gleifion. Er hynny, nid yw hi bob amser yn bosib ymateb ar unwaith i'r angen am ofal dwyieithog wrth erchwyn y gwely - ond mae'r Bwrdd wedi mynd i'r afael gyda phethau ymarferol drwy adnabod aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg a ble fo'n bosib mae'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar bob shifft. Hefyd, mae llawer o waith wedi ei wneud gyda chynllunio, recriwtio, llunio strategaeth sgiliau dwyieithog, gweithio gyda phractisiau Meddygon Teulu i sicrhau eu bod yn deall beth yw gofal gyda'r unigolyn yn ganolog.

5. O ran adfer hyder trigolion Gwynedd ac yn arbennig ardaloedd gwledig yn ne'r Sir, roedd yr Athro Purt yn rhagweld bod gweithio mewn partneriaeth go iawn gydag awdurdodau lleol a mynychu cyfarfodydd fel y cyfarfod hwn i geisio dod o hyd i atebion i broblemau cyffredin, fyddai'r man cychwyn fel bod Aelodau yn deall y cyfeiriad mae'r Bwrdd Iechyd am ei gymryd. Anogodd yr aelodau i beidio barnu'r Bwrdd Iechyd ar yr hyn a wnaeth yn y gorffennol.

6. O ran yr ysbytai cymunedol, roedd gan yr Athro Purt farn glir fod y gwelyau hyn yn ddiogel a dylid eu defnyddio ar gyfer gofal canolradd ac ail-alluogi. Roedd o'r farn na ddylai'r Bwrdd Iechyd fod yn cynnig arhosiad gofal tymor hir oherwydd yn rhy aml yn y gorffennol roedd ysbytai cymunedol wedi cael eu defnyddio yn lle gofal preswyl awdurdod lleol neu i ofal nyrsio sector preifat. Bydd rôl ysbytai cymunedol yn y dyfodol gyda chleifion allanol, rhedeg diagnosteg, canolfannau i ymgynghorwyr, cefnogi Meddygon Teulu, gofal lefel canolradd a ble y gellir symud cleifion iddynt fel eu bod yn agosach at adref.

   Wrth gydnabod yr heriau o ran toriadau ariannol ac efallai llai o gartrefi gofal i bobl, nodwyd y bydd yn rhaid cynnal trafodaethau gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o ran pecynnau gofal cartref, cytundeb staff ac ati, a sut i ddelio gyda'r boblogaeth gynyddol hŷn ac afiechydon cronig.

7. Yn codi o'r uchod, datganwyd mai'r broblem yng Ngwynedd oedd nad oedd y cartrefi gofal preswyl yn gartrefi nyrsio ac un dewis fyddai darparu nyrsys mewn cartrefi gofal.

   Yn ei ateb dywedodd yr Athro Purt bod angen trafod hyn gyda phob awdurdod drwy edrych ar y galw, sut i lunio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, annog buddsoddi ac ati.

8. O ran arwain a chydlynu'r berthynas rhwng Cynghorau, Byrddau Iechyd a'r Llywodraeth, roedd yr Athro Purt o'r farn fod rhan ganolog amlwg i'r trydydd sector mewn ystod cyfan o feysydd. Roedd angen cynnal trafodaeth ar ba ran y gall y trydydd sector ei gynnig i helpu'r strategaeth a sut i ymgysylltu gyda'r sefydliad yn ogystal â'r rhai llai.

9. O ran y sefyllfa gyda Ysbyty Blaenau Ffestiniog, roedd cyfarfod wedi ei gynnal a'r gobaith oedd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn symud ymlaen i recriwtio Meddygon Teulu. Rhoddwyd sicrwydd fod yr arian wedi ei gadw ar gyfer y ganolfan integredig ond roedd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar arian Llywodraeth Cymru ac fe all hwn newid yn y dyfodol.

10. I ateb y pwysigrwydd cynyddol oedd yn cael ei roi ar gamau atal, dywedodd yr Athro Purt y byddai mewnblannu iechyd y cyhoedd a gwybodaeth iechyd y cyhoedd a'r dynameg sy'n greiddiol i afiechyd yn y broses gynllunio ar lefel y Tîm Ardal yn fodd o

symud ymlaen.

11. O ran effaith y diffyg meddygon mewn ardaloedd gwledig, nodwyd fod nifer o Feddygon Teulu yn cyrraedd oed ymddeol ac roedd tanddatblygiad hanesyddol o iechyd sylfaenol mewn ysgolion hyfforddi. Gellid un ai anwybyddu hyn a disgwyl y bydd gofal sylfaenol yn dal i allu cyflwyno gwasanaethau neu roedd angen ail-ddylunio'r gwasanaeth fel bo gofal sylfaenol yn cael ei arwain gan Feddyg Teulu a thîm sydd ddim bob amser yn cyflwyno gofal ymarferol. Mae angen mwy o gyfleoedd i feddygon ifanc i rannu gwaith rhwng bod yn yr ysbyty ac allan o'r ysbyty. Yr allwedd yw uwch-sgilio nyrsys cymunedol i ddod yn fetronau cymunedol a rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd wahanol. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor ynglŷn â hyfforddiant lleol ac rydym yn edrych am ffurf o gysylltiad gyda Chaerdydd.

12. Roedd recriwtio nyrsys hefyd yn broblem yn arbennig o amgylch ardal Wrecsam gan fod cryn gystadleuaeth dros Glawdd Offa. Mae hon yn her i'r Bwrdd Iechyd ac roeddent yn edrych ar bob cyfle sydd ar gael.

13 Cafwyd sicrwydd y bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio bob ffordd bosib o ran rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i sicrhau grantiau priodol fydd yn atgyfnerthu'r angen i'r Bwrdd Iechyd a llywodraeth leol i gynllunio a chyflawni gyda'i gilydd. Mae'r clientau yn y gymuned angen gweld gwahaniaeth a bydd bywyd yn haws os ydym yn gweithio gyda'n gilydd.

14. I ateb cwestiwn am bractisiau preifat, esboniwyd y drefn ariannu a bod swm yr arian yn dibynnu ar restrau cleifion a'r boblogaeth.

15. I ateb pryderon am ambiwlansiau o Ynys Môn yn cael eu hanfon i Lannau Dyfrdwy a Wrecsam yn rheolaidd sydd wedyn yn achosi problemau yn yr ardal hon, dywedwyd fod y model y Gwasanaeth Parafeddygon yn Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd yn cael ei adolygu. Y protocol presennol oedd pe bai claf yn cael ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans, unwaith fo'r ambiwlans hwnnw yn rhydd byddai'n mynd i'r alwad agosaf nesaf. Roedd hyn yn achosi trafferthion os oedd problemau traws-ffiniol. Roedd hyn yn wahanol i'r gwasanaeth ymateb cyflym ac roedd trafodaeth ar hyn o bryd am y gwasanaeth ymateb sydyn gan fod yn rhaid iddo aros o fewn ei ardal. Roedd materion yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

16. Yn hanesyddol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn anfodlon i wrando ar lais y gymuned ac yn arbennig gyda chau Ysbyty Blaenau Ffestiniog a'r mater fod Ysbyty Alltwen yn cael ei thanddefnyddio. Gofynnwyd i'r Athro Purt, yn ôl ei brofiad ef os oedd hi'n amser i edrych ar y gwasanaeth eto a chael dau Fwrdd sy'n adlewyrchu anghenion y cymunedau.

I ateb, dywedodd bod angen newid tri maes i gael perthynas agosach gyda'r cymunedau. Roedd yn rhaid i gyflwyniad y gwasanaeth fod yn gost effeithiol ac ni fedrai'r Bwrdd Iechyd fforddio dyblygu gwaith gan na fyddai unrhyw gynnydd yn y refeniw. Ar gyfartaledd, roedd Byrddau Iechyd wedi gorfod gostwng eu costau gweithredu o dros 15%, oedd yn ostyngiad sylweddol na fyddai yn ymarferol gyda

sefydliadau llai. Roedd yr Athro Purt o'r farn drwy weithio yn yr un ôl-troed a'r heddlu, gwasanaeth tân ac achub gellid cynnal cydlyniant cymunedol a lleoliaeth. Roedd y buddion o'r gymuned a ddaw o sefydliad o faint Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gydag un strwythur rheoli a dyma fyddai'r ffordd orau o ymdrin gyda'r gwasanaeth yn y dyfodol.

17. Cafwyd sicrwydd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rhoi pwysau drwy'r tri Thîm Ardal newydd ar rôl iechyd y cyhoedd, addysg a mynediad i gyfleusterau hamdden mewn ymdrech i geisio brwydro yn erbyn gordewdra mewn plant.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Purt a Ms Grace Lewis Parry am ddod i'r cyfarfod, am y cyflwyniad, ac am eu parodrwydd i ateb y cwestiynau uchod. Roedd y Cadeirydd a'r aelodau yn edrych ymlaen i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd iechyd i wella darpariaeth y gwasanaeth.

**5. ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet a oedd yn ymateb i gwestiynau a godwyd ymlaen llaw gan Aelodau ynglyn â'r adolygiad uchod.

(b) Atgoffwyd yr Aelodau bod yr adolygiad yn mynd ochr yn ochr â'r datblygiadau arfaethedig i adeiladu Canolfan Hafod Lon fel canolfan ragoriaeth ym Mhenrhyndeudraeth ar gyfer plant a phobl ifanc gyda anghenion dysgu ychwanegol a'i fod wedi cymryd ychydig mwy o amser oherwydd bod angen ystyried potensial gweithdrefnau'r ddwy ysgol sef Hafod Lon a Pendalar ar gyfer y Sir gyfan. Byddai'n amserol hefyd i ystyried gwaith a rôl y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

(c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ystyriwyd y materion a ganlyn:

(i) Yr angen i fod yn glir a chadarn ynglyn ag amserlen y datblygiadau

(ii) Yr angen i ystyried y datblygiadau hyn oll yng ngyd-destun gwaith Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig y ddwy Sir a'r cyfeiriad sydd ei angen ar gyfer hynny

(iii) Pryder na fydd y drefn arfaethedig yn cydymffurfio â'r ddeddf berthnasol o'i gymharu â'r sustem sy'n gwarchod plant a phobl ifanc ar ddatganiad anghenion arbennig, ac a fyddir yn troi cefn ar weithdrefn datganiadau. Awgrymwyd bod y drefn hanesyddol lle roedd unedau anghenion dysgu ychwanegol ymhob dalgylch Ysgolion Uwchradd wedi bod yn weithdrefn lwyddiannus a oedd wedi ei dirwyn i ben rai blynyddoedd yn ôl er mwyn ymdrin â disgyblion yn y prif lif. Awgrymwyd hefyd y byddai llwyddiant unrhyw drefn yn ddibynnol ar Gyrff Llywodraethu unigol.

(iv) Sut y byddir yn datganoli cyllid i ysgolion a phryderwyd y byddai plant yn colli allan pe byddai ysgolion yn defnyddio'r arian ar gyfer anghenion eraill.

(v) Mynegwyd pryder sylweddol bod llai na 100 allan o oddeutu 3,700 o rieni wedi ymateb i'r holiadur ac o'r ymateb a dderbyniwyd roedd materion arwyddocaol wedi eu nodi gan rieni.

(vi) pryder nad oedd ysgolion wedi anfon yr holiadur ac awgrymwyd ymhellach y byddai modd cael ffurf mwy creadigol o ymgysylltu gyda rhieni.

(vii) Oherwydd pwysigrwydd y byddai'r gweithdrefn arfaethedig yn effeithio cymaint o blant a phobl ifanc, awgrymwyd y gallasai cynnal Ymchwiliad Craffu i'r mater fod wedi bod o fudd. Disgwylir ymdrech arall i sicrhau gwell ymwybyddiaeth i'r rhieni.

(ch) Mewn ymateb i'r materion uchod nododd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion perthasol:

- Mai'r tueddiad ydoedd ei fod yn cymryd amser i blentyn gael datganiad a thrwy'r drefn arfaethedig rhagwelir y bydd plant a phobl ifanc yn derbyn cefnogaeth llawer ynghynt gyda chynllun datblygu unigol ar gyfer eu hanghenion. O dan y drefn arfaethedig hefyd bydd modd i rieni fod yn rhan o'r drefn.
- O safbwynt datganoli cyllid i ysgolion, sicrhawyd y byddai monitro yn ganolog i'r drefn gyda rhwydwaith o swyddogion allweddol yn gweithio ymhob dalgylch i fonitro safon ac effaith yr ymyraethau n unol â chynllun datblygu unigol pob plentyn gydag anghenion er sicrhau eu bod yn derbyn y profiad addysgol cywir. Hyderir y byddai mwy o fuddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar gan sicrhau bod ymwelwyr iechyd yn adnabod anghenion ynghynt
- Mewn ymateb i'r awgrym i sefydlu Ymchwiliad Craffu, nodwyd bod yr amserlen yn dynn i gynnal ymchwiliad trylwyr gan bod cynigion pendant i'w cyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellir rhaglennu ymchwiliad mewn oddeutu blwyddyn i ganfod gwireddiad y gweithdrefnau. Byddai modd hefyd cyflwyno mwy o wybodaeth i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 4 Tachwedd 2014 yng nghyd-destun ymateb SNAP Cymru i'r holiadur a'r pryderon amlygwyd o'r hyn oedd o'i le gyda'r drefn presennol.
- Bod rôl y Bwrdd Iechyd yn ganolog i'r broses er mwyn sicrhau cyd-gynllunio a chyfathrebu effeithiol gydag ysgolion i ymateb i anghenion y plant

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol / Rheolwr Prosiect gyflwyno gwybodaeth pellach i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 4 Tachwedd 2014 yn amlinellu:**

- **pryderon gyda'r drefn bresennol**
- **ymateb SNAP Cymru i'r holiaduron anfonwyd i rieni**
- **pa ymdrechion a wneir i godi ymwybyddiaeth rhieni o'r newidiadau**

## 6. YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL – O'R YSBYTY I'R CARTREF (RHAN 2)

Cyflwynwyd cais i ethol Aelod arall i ymuno â'r Ymchwiliad uchod.

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Eirwyn Williams gyda Chynghorydd Selwyn Griffiths ar gael i gynorthwyo pe byddai angen.**

## 7. <u>YMDDEOLIAD</u>

Adroddodd y Cadeirydd bod Mr Rhoslyn Prys yn ymddeol o gyflogaeth y Cyngor ddiwedd y mis hwn a thalwyd teyrnged iddo am ei ymroddiad a'i gyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor hwn dros y blynyddoedd. Gofynnwyd i anfon gair iddo i gyfleu gwerthfawrogiad y Pwyllgor am ei wasanaeth ac i ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben 12.40 p.m.

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/14 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R H Wyn Williams** |

**1. Pwrpas yr Eitem**

1.1 Pwrpas yr eitem yw darparu gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor Craffu parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2013-14.

1.2 Ar gais AGGCC bydd swyddogion o'r Arolygiaeth yn cyflwyno'r adolygiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu. Cyflwynir copi o Adolygiad AGCC o berfformiad 2013-14 Gwynedd yn **Atodiad 1**.

**2. Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14**

2.1 Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

2.2 Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

**3. Ymateb Cyngor Gwynedd i gynnwys adolygiad blynyddol 2013-14**

3.1 Rydym yn croesawu'r adolygiad blynyddol gan yr Arolygiaeth. Cydnabyddir pwysigrwydd y broses flynyddol yma o ran sicrhau derbyn barn annibynnol am berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd. Yn sicr rydym yn parchu a gwerthfawrogi barn annibynnol rheoleiddwyr o fewn y maes gwaith

3.2 Yn naturiol bydd yna ofyn a disgwyliad ar y Cyngor i fod yn cymryd camau gweithredol er mwyn ymateb i'r meysydd gwella yma. I'r perwyl yma rydym eisoes wedi llunio templed camau ymateb yn 2014-15 â rhaglen waith fesul maes gwella a gyflwynir fel **Atodiad 2**.

AGGCC CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd

Hydref 2014

Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r prif feysydd lle bu cynnydd a’r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2013–14

ISBN digidol 978 1 4734 2348 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23296

# Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013 - 2014

**Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd**

**Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2013 - 14 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, a meysydd i’w gwella yn y dyfodol**

## Crynodeb

Gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013-14, gyda gwasanaethau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn y gwasanaethau i oedolion, gwelliant parhaus ym mherfformiad y gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion sylweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol erbyn 2017-18. Bydd hyn yn gofyn am newid cyflym ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig y gwasanaethau i oedolion, i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gofal a chymorth ei gomisiynu a'i ddarparu.

Mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau i'w arweinyddiaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â chanllawiau statudol ynghylch rôl ac atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o’r agenda gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan y cyngor weledigaeth i gynllunio a datblygu gwasanaethau gyda'r gymuned a phartneriaid. Mae wedi amlinellu ei gynlluniau er mwyn integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn y mae ganddynt anghenion cymhleth, gan roi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi adroddiad cynhwysfawr a manwl i'r dinasyddion ynghylch perfformiad y cyngor. Mae strwythur yr adroddiad yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn creu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy sy'n diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n cyflawni'r gwelliant angenrheidiol.

### Yr ymateb i feysydd i'w gwella y llynedd

| Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn ystod 2013 – 14 |
|---|---|
| Cynnal momentwm wrth ail-lunio gwasanaethau preswyl i bobl hŷn. | Mae'r gwasanaeth wedi datblygu fesul tipyn mewn ffordd barhaus. |
| Rhagweld y galw am gymorth | Ceir gwybodaeth gadarn sy'n rhagweld |

| | |
|---|---|
| cymunedol. | y galw am y gwasanaeth. |
| Datblygu amrediad y gwasanaethau yn y gymuned o fewn gwasanaethau oedolion a phlant. | Datblygwyd gwasanaethau newydd ym maes gwasanaethau oedolion a phlant. |
| Sicrhau bod gwasanaethau yn hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. | Ceir defnydd cynyddol o alluogi, teleofal a thaliadau uniongyrchol. |
| Sicrhau adolygiadau amserol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unol â chanllawiau statudol. | Gwelliant sylweddol yn y perfformiad, ond mae'n parhau i fod ychydig yn is na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru. |
| Gwella'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | Gwelliant sylweddol mewn perfformiad ac mae bellach yn uwch na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru. |
| Sicrhau mewnbwn iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | Ychydig welliant, ond mae'r perfformiad yn parhau i fod lawer yn is na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru. |
| Sefydlu system sicrhau ansawdd o fewn y gwasanaethau i oedolion. | Nid oes system gynhwysfawr er mwyn sicrhau ansawdd wedi cael ei datblygu eto. |
| Sicrhau trefniadau rheolaidd a chyson er mwyn goruchwylio staff. | Adolygwyd polisi a chanllawiau a gwnaethpwyd trefniadau monitro. |
| Sicrhau bod perthnasoedd priodol, protocolau a chyngor proffesiynol yn cynorthwyo'r cyfarwyddwr statudol. | Sefydlwyd strwythur newydd.  Bydd y cyngor yn gweithio ar brotocolau ac yn eu cymeradwyo. |
| Gweithredu'r polisi diogelu corfforaethol. | Sefydlwyd llywodraethu, strwythur a pholisïau diogelu corfforaethol newydd. Nid yw'r effeithiolrwydd a'r effaith wedi cael eu gwerthuso eto. |
| Codi proffil cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ymhlith aelodau. | Mae angen ei ddatblygu ymhellach. Mae'r cyngor yn cryfhau cyfrifoldebau trwy gyfrwng 'addunedau' i blant sy'n derbyn gofal. |

**Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn**

- Ymweliad Safle - Cynllun Lleoli Oedolion.
- Arolygiad cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu beryglus Ionawr i Fai 2014 ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal').

- Adolygiad blynyddol o'r defnydd o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yng Nghymru 2014.

Mae AGGCC wedi llwyddo i gynnal ei rhaglen arolygiadau wedi'u trefnu y brif ffrwd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n gweithredu yn ardal Gwynedd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol gydag uwch-swyddogion y cyngor sy'n adolygu perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol.

**Meysydd y bydd AGGCC yn ymateb iddynt flwyddyn nesaf**

- Y rhaglen newid ar gyfer y gwasanaethau i oedolion.
- Cynllunio gofal a chymorth gwaith cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Gweithrediad argymhellion yn dilyn yr adolygiad achos difrifol a'r adolygiad dynladdiadau domestig.
- Yn ogystal, bydd AGGCC yn cyfrannu at adolygiad a arweinir gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a fydd yn ystyried a yw cynghorau yn rhoi cymorth effeithiol i bobl hŷn i fyw bywydau annibynnol, gan gynnwys trwy gyfrwng gwaith cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnydd wrth weithredu proses sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

## Perfformiad

### Llunio gwasanaethau

### Oedolion

Mae gan y cyngor strategaethau comisiynu mewn grym a bydd y rhain yn cael eu diweddaru. Mae'r cyngor wedi ystyried goblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar gyfer Gwynedd, ac mae wedi rhoi hyfforddiant i'w staff ynghylch y goblygiadau. Mae'r cyfarwyddwr wedi disgrifio ei weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd i bartneriaid ac i'r gymuned, sy'n rhoi sylw i sialensiau ariannol a gofynion y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, ac sy'n cael eu cynllunio, eu datblygu a'u gwerthuso gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn dod yn hollbwysig i'r ystyriaethau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd ac mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau er mwyn cyflawni ei gofynion.

Yn unol â dull gweithredu strategol y cyngor, “Ffordd Gwynedd”, nod y cyngor yw gwella'r gwaith a wneir mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB), a'r trydydd sector. Mae'r cyngor wedi cyfrannu at yr agenda cydweithio ranbarthol ac mae'n ymgysylltu yn fwy gyda rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'r cyngor yn cydnabod y gallai'r berthynas gyda'r canolbwynt comisiynu fod yn fwy effeithiol, ac mae'r Cyfarwyddwr bellach yn gadeirydd y

bwrdd rheoli ar gyfer y Canolbwynt Comisiynu.

Mae'r cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau newydd i oedolion hŷn ac oedolion sydd ag anableddau dysgu.

- Mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn ym Mhant yr Eithin, Harlech ar saith uned i bobl sydd ag anableddau dysgu.
- Bydd uned tai gofal ychwanegol i 40 yn agor ym Mangor yn 2014-15.
- Mae'r gwaith yn symud yn ei flaen ar y datblygiad tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog.

Mae'r cyngor yn bwriadu arbed £6,206,000 yn y gwasanaethau i oedolion erbyn 2017-18, gan ostwng y gyllideb o £40,571,000 (yn ystod 2014-15) i £34,365,000. Bydd y cyngor yn cynnal adolygiad o un pen i'r llall yn y gwasanaethau i oedolion yn ystod 2014-15.

Yn dilyn yr adolygiad, disgwylir i'r cyngor gyhoeddi ei strategaeth llety ar gyfer pobl hŷn yn ystod 2014-15, gan nodi'r cynllun ar gyfer cartrefi'r cyngor a'i waith gyda darparwyr. Yn ystod 2014-15 hefyd, bydd y cyngor yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid ynghylch datblygiad y gwasanaethau preswyl a'r gwasanaethau gofal dydd ar gyfer y rhai sydd ag anableddau dysgu, a leolir yng Nghaernarfon.

Mae gan y cyngor un o'r cyfraddau isaf ar gyfer cynorthwyo pobl hŷn yn y gymuned (46.2 o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 74.5); ac un o'r cyfraddau uchaf o ran cynorthwyo pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru (25.6 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 19.8 – mae pob ffigur fesul 1000 o’r boblogaeth 65 oed neu hŷn). Mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor nag y maent mewn cynghorau eraill yng Nghymru. Nod y cyngor yw defnyddio llai o ofal preswyl cyn penderfynu ar gyfeiriad ei strategaeth pobl hŷn yn y dyfodol.

Mae'r datblygiadau ym maes gwasanaethau i oedolion yn gymhleth a disgwylir i newid arwain at arbedion ariannol sylweddol. Mae'r cyngor wedi sefydlu dull gweithredu o reoli rhaglen a bydd angen iddo gynnal trosolwg o'r sefyllfa sy'n datblygu, gan reoli'r disgwyliadau a'r risgiau cysylltiedig. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwerthuso a oes gan y cyngor ddulliau gweithredu cadarn er mwyn rheoli'r cyfyngiadau i'r gyllideb. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn rhoi sylw iddo yn ystod 2014-15.

Mae Tîm Trawsnewid Integredig sy'n cynnwys uwch-swyddogion o BCUHB, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu trefniadau gweithio integredig. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r datblygiadau:

- gwasanaeth rhyddhau gwaith cymdeithasol a'r gwasanaeth ffisiotherapydd yn gweithio ar benwythnosau, gan gynyddu'r gallu i ymateb saith diwrnod yr wythnos;
- adolygiad gan y gwasanaeth fferyllol o feddyginiaeth sy'n achosi perygl mawr yn y gymuned;
- datblygiad y fforwm sirol; a

- secondiad uwch-gyflogai o BCUHB er mwyn cynorthwyo'r gweithgarwch integreiddio a nodi rhwystrau ac ysgogiadau allweddol.

Ceir cynlluniau pellach i wella gwaith integredig trwy gydleoli staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwella'r cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Mae'r datblygiadau hyn yn bwysig er mwyn gwella effeithiolrwydd ac er mwyn casglu gwybodaeth i gyfrannu at waith cynllunio yn y dyfodol.

**Plant**

Roedd yr adolygiad o un pen i'r llall o'r gwasanaethau plant yn 2013-14 yn nodi'r angen i wella gwasanaethau ataliol ac i ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r adolygiad wedi cynnwys pennaeth y gwasanaeth y codir tâl amdano, aelodau'r tîm arwain corfforaethol a staff gwasanaethau cymdeithasol. Ni chafodd rhanddeiliaid pwysig eraill eu cynnwys yn y broses adolygu, ac roedd hwn yn gyfle a gollwyd i hyrwyddo mwy o gydweithio. Mae'r cyngor wedi datblygu cynlluniau i roi sylw i'r gwelliannau sydd eu hangen mewn gwasanaethau yn ystod 2014/15.

Nid yw systemau'r cyngor yn cipio proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd, a'u hanghenion a aseswyd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol os yw'r awdurdod yn mynd i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli a pharhad, a rhagweld yr angen am adnoddau yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth a gyflwynir i baneli amrywiol gyfrannu at broffil manwl o'r angen a welir.

Canfu arolygiad cenedlaethol AGGCC a gynhaliwyd yn ddiweddar bod y gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn rhy ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol i blant er mwyn darparu, ariannu a darparu adnoddau er mwyn asesu a bodloni anghenion therapiwtig. Mae’r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rhan o BCUHB ac nid yw’n monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod, oni bai eu bod wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y lleoliad.

**Meysydd o gynnydd**

- Datblygu gwasanaethau gyda BCUHB.
- Cynllunio gwasanaeth yn y gwasanaethau i blant.

**Meysydd i'w gwella**

- Cynllunio strategol gyda BCUHB mewn gwasanaethau i oedolion.
- Cynllunio strategol gyda BCUHB yn CAMHS.
- Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth.

**Cael help**

## Oedolion

Mae'r cyngor yn cynnal llwybrau gofal hygyrch gan dîm cyngor ac asesu sy'n gallu darparu gwybodaeth am adnoddau yn y gymuned mewn ffordd hwylus. Bellach, mae gweithiwr cymdeithasol yn gweithio yn yr ysbyty saith diwrnod yr wythnos yn trefnu gofal yn y gymuned ac yn hyrwyddo annibyniaeth i bobl sy'n cael eu rhyddhau.

Mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth sylfaenol am ei wasanaethau ar ffurf copi caled ac ar-lein. Ceir enghreifftiau o wybodaeth hygyrch ynghylch gwasanaethau megis y gwasanaeth lleoli oedolion, sy'n cynnwys DVD sy'n disgrifio persbectif y defnyddiwr.

Ym mis Rhagfyr 2013, comisiynodd y cyngor ymgynghorydd allanol i weithio gyda swyddogion y cyngor er mwyn adolygu'r arfer ym maes rheoli gofal ac asesu oedolion. Canfu'r adolygiad bod yr arfer yn ymatebol, yn gadarn a bod trothwyon yn cael eu gweithredu mewn ffordd briodol. Canfu nad yw'r defnydd o ganlyniadau a gwaith amlddisgyblaethol wedi cael ei ddatblygu ddigon ac y byddai'r asesiadau gwaith cymdeithasol yn cael budd o weld mwy o ffocws yn cael ei roi gryfderau a galluoedd y defnyddwyr, yn ogystal â'u hangen. Er nad oedd digon o sylwedd yn yr asesiadau, roedd y cynlluniau gofal yn fwy manwl, gan arwain at yr adnoddau priodol yn cael eu defnyddio er mwyn bodloni anghenion. Gwelwyd angen a nodwyd i wella darpariaeth amserol gwasanaeth offer a chynnal a chadw syml yng nghartrefi pobl.

Mae perfformiad y cyngor wrth adolygu cynlluniau gofal wedi parhau i wella dros y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn hyn, mae'n 85.3%, ac yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 81.1%. Yn ogystal, llwyddodd y cyngor i berfformio'n dda mewn perthynas â'r cyfartaledd yng Nghymru wrth osgoi oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty. Roedd nifer y gofalwyr a aseswyd ac y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer wedi codi o 167 i 234 yn 2013-14, a chanfu adolygiad o'r gwasanaethau i oedolion bod asesiadau gofalwyr priodol yn cael eu cynnal fodd bynnag.

## Plant

Mae'r dangosyddion perfformiad o fewn gwasanaethau plant yn awgrymu prosesau ac arfer gwell wrth reoli cyfeiriadau ac asesiadau. Yn ystod 2013-14, roedd y gwasanaethau plant wedi cael 180 yn llai o gyfeiriadau, a gwnaethpwyd penderfyniad ynghylch 99.3% o'r cyfeiriadau cyn pen diwrnod. O flwyddyn i flwyddyn, mae canran gynyddol o gyfeiriadau wedi cael eu neilltuo i weithiwr cymdeithasol er mwyn cynnal asesiad cychwynnol, ac mae'r cyngor yn dangos cyfartaledd sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn ogystal, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011-12 i 26.6% yn 2013-14; fodd bynnag, mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo. Cynhaliwyd llai o asesiadau craidd a llwyddwyd i gwblhau canran uwch o fewn yr amserlenni. Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013-

14, llwyddodd y cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu gyda chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru.

Canfu'r arolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ei bod yn ymddangos bod prosesau cyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hymgorffori yn dda. Mae perthnasoedd gweithredol rhwng timau ac asiantaethau partner yn cynorthwyo cyfathrebu amserol. Mae gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch nodweddion agored i niwed ac ymddygiad peryglus a welir.

Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi ar gyfer y staff, er mwyn cynorthwyo'r defnydd o'i offeryn model risg. Caiff ei ddefnyddio yn dda mewn perthynas ag achosion plant mewn angen ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae angen ei ymgorffori ymhellach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad 'o gymryd risgiau'.
O ganlyniad i ymdrech sylweddol, mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad o ran amseroldeb yr adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Adroddodd arolygiad LAC bod pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael. Canfu'r arolygiad bod ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio, a bod angen diweddaru hyn yn ystod gwaith asesu dilynol. Roedd hi'n anodd cael darlun o'r plentyn a thaith y plentyn o ddarllen y cynllun gofal. Canfu'r arolygiad bod yr adolygiadau yn canolbwyntio ormod ar ddigwyddiadau yn y presennol ac nid ar y canlyniadau ar gyfer yr hirdymor. Soniodd pobl ifanc am gryn rwystredigaeth ynghylch y diffyg eglurder o ran awdurdod dirprwyedig mewn materion megis caniatâd i fynd ar deithiau ysgol, aros dros nos ac ati. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn rhoi sylw iddo.

Nid oedd rhai o'r bobl ifanc a welwyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth ac mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth eiriolaeth yn isel, a nodwyd bod y dull gweithredu wedi'i seilio ar faterion a diffyg eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhwystrau.

Cyfeiriodd adroddiad Arolygiad LAC at rywfaint o gydweithredu corfforaethol da er mwyn gwella'r cyfleoedd i bobl ifanc sy'n derbyn gofal i fanteisio ar weithgareddau hamdden a chwaraeon.

**Meysydd o gynnydd**

- Adolygiadau yn y gwasanaethau i oedolion.
- Arfer mwy pwrpasol wrth reoli cyfeiriadau ac asesiadau yn y gwasanaethau plant.

**Meysydd i'w gwella**

- Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant.
- Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio.
- Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth.

**Y gwasanaethau a ddarparwyd**

**Oedolion**

Mae "Mwy na geiriau" yn fframwaith strategol gan Lywodraeth Cymru ynghylch defnydd o'r iaith Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Fe'i ddatblygwyd er mwyn cryfhau gwasanaethau rheng flaen. Cyfrannodd cyngor Gwynedd at grŵp gorchwyl "Mwy na geiriau" a wnaeth lunio'r fframwaith. Yn 2014, enillodd y cyngor ddwy wobr yng Nghynhadledd Geiriau ar Waith Llywodraeth Cymru. Mae'r cyngor yn cael budd o'r ffaith mai Cymraeg yw ei iaith weinyddol.

Yn ei weithrediad o'r strategaeth, mae'r cyngor wedi sefydlu tasglu trawsadrannol sy'n ymateb i ofynion y fframwaith. Comisiynodd y cyngor arolwg o'i ofynion iaith, gan ystyried y wybodaeth sydd ar gael. Yng ngoleuni'r gwaith hwn, mae'r cyngor wedi gwella ei gontract a'i drefniadau er mwyn monitro contractau. Mae'r cyngor yn bwriadu cryfhau ei allu i fodloni anghenion ieithyddol trwy weithredu ei system electronig newydd er mwyn rheoli achosion, a fydd yn cychwyn yn 2016. Mae'r cyngor yn nodi y bydd y wybodaeth a gesglir wrth weithredu'r strategaeth hon yn cyfrannu at ei brosesau cynllunio a chomisiynu ehangach.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r cam o hyrwyddo annibyniaeth i bobl. Yn ystod 2013-14, darparodd y cyngor 462 o becynnau ailalluogi. Canfu adolygiad gan y cyngor o'r gwasanaeth ailalluogi bod angen pecynnau cymorth parhaus ar lai na hanner ohonynt, ac mai dim ond chwe y cant yr oedd angen cymorth pellach arnynt cyn pen dwy flynedd. O blith y rhai a gafodd eu cynorthwyo yn uned breswyl y cyngor ar gyfer pobl sy'n gwella yn dilyn cyfnod o salwch, roedd dros dri chwarter ohonynt wedi dychwelyd gartref. Caiff annibyniaeth ei hyrwyddo trwy ddefnyddio technoleg newydd, a darparwyd tua 500 o becynnau teleofal yn ystod 2013-14. Bellach, defnyddir teleofal ar draws gwasanaethau i oedolion, gan gynnwys 35 o becynnau gofal i unigolion sydd ag anableddau dysgu.

Mae'r cyngor yn cynnal cynllun lleoli oedolion a reolir yn dda, ac sy'n gwrando ar lais y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac mae'r rhain o'r farn bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi. Rhoddwyd cydnabyddiaeth genedlaethol i'r gwasanaeth ym mis Hydref 2013, pan gafodd y rheolwr Wobr Aur Fforwm Gofal Cymru mewn Arfer Blaenllaw ym maes Rheolaeth Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, cafodd staff yn y gwasanaeth wobrau efydd ac aur yng nghategori Hyrwyddo Bywydau Bodlon.

Roedd yr arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC yn ddiweddar o wasanaeth gofal cartref y cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan a soniodd pobl a fu'n cymryd rhan yn yr arolygiad mewn ffordd gadarnhaol am yr ansawdd a'r gwasanaeth a ddarparwyd. Mae'r cyngor yn darparu cyfran sylweddol o'i ofal cartref.

**Plant**

Mae'r cyngor wedi datblygu ei wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, plant a theuluoedd.

- Mae cyngor Gwynedd yn rhedeg un o'r tair rhaglen arloesi "Pan fydda i'n Barod" ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a wnaeth gychwyn ym mis Ebrill 2013. Mae'r cynllun yn ymestyn hyd lleoliadau, gan helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi neu i gael cymwysterau.
- Mae cynllun Gyda'n Gilydd wedi datblygu er mwyn cynorthwyo dros 250 o deuluoedd cyn iddynt gyrraedd yr angen am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Bydd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn canolbwyntio ar deuluoedd lle y gwelir problemau alcohol, cyffuriau neu'r ddau ymhlith y rhieni, er mwyn diogelu'r plant y maent yn eu gofal. Datblygwyd tîm aml-asiantaeth IFSS ar y cyd ag Ynys Môn, ac roedd yn weithredol yn ystod 2014-15.

Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, dylai'r cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol. Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012-13 i 78.4% yn 2013-14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%.

Mae pobl ifanc yn teimlo'n gadarnhaol am y perthnasoedd rhyngddyn nhw a gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth dros 16 oed, ac mae hyn mewn cyferbyniad gyda'r perthnasoedd anghyson rhwng plant a'u gweithwyr cymdeithasol mewn timau eraill. Yn ogystal, amlygodd pobl ifanc yr effaith sylweddol yr oedd newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol a lleoliadau wedi eu cael ar eu gallu i ffurfio perthnasoedd o ymddiriedaeth.

Canfu arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu bod gan blant a phobl ifanc leoliadau diogel lle y bodlonir eu hanghenion. Mae gan blant lais a chyfleoedd i ddweud eu dweud, ac mae modd iddynt gael dylanwad ar y ffordd y darparir y gwasanaeth. Canfu arolygiad AGGCC o Ddrws y Nant, sef y cartref plant a gomisiynir gan y cyngor, ymdeimlad cryf iawn o ofal sy'n canolbwyntio ar y person, lle y nododd pobl ifanc bod pobl yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
Fodd bynnag, bu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal yn ystyried pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chanfu nad yw amrediad y lleoliadau sydd ar gael yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion cymhleth rhai pobl ifanc ac nad yw gweithgarwch priodol er mwyn "cyfateb" anghenion gyda sgiliau gofalwyr maeth bob amser yn digwydd. Mae'r cyngor yn gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol er mwyn bodloni'r angen hwn.

Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w broses gwyno a'r trosolwg corfforaethol o gwynion. Mae dysgu gan gwynion a'u defnyddio er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn “Ffordd Gwynedd” a materion strategol,

ac mae'r cyfarwyddwr corfforaethol bellach yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon. Ceir enghreifftiau o gwynion a oedd yn cynnwys y sawl a oedd yn cwyno yn nodi gwelliannau a datrysiadau, ond mae angen gwella cysondeb a'r broses o reoli cwynion ymhellach. Mae'r cyngor yn bwriadu gwella'r gwasanaeth, gan ymateb i ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli cwynion.

Ceir pwyslais cynyddol ar y dewis personol a'r annibyniaeth a gynigir gan daliadau uniongyrchol. Gwelwyd y nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn codi yn ystod 2013-14 wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae angen parhau'r gwelliant hwn. Dysgodd yr adran gan gwynion a wnaethpwyd am y gwasanaeth, wrth i nifer o deuluoedd adrodd am brofiadau anffafriol. Yn ogystal, canfu adroddiad archwilio mewnol nad oedd modd i'r cyngor deimlo'n hyderus ynghylch y trefniadau ar gyfer taliadau uniongyrchol. Mae cynllun corfforaethol y cyngor yn disgrifio'r angen am ymateb gwell wrth gynorthwyo taliadau uniongyrchol, a bydd y cyngor yn adolygu'r gweithdrefnau perthnasol.

**Meysydd o gynnydd**

- Mwy o amrediad o ran y gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd.

**Meysydd i'w gwella**

- Cysondeb wrth ymateb i gwynion.
- Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Yr effaith ar fywydau pobl

### Oedolion

Yn ystod 2013-14, sefydlodd cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn Fwrdd Diogelu Oedolion ar y cyd. Mae'r bwrdd wedi datblygu rhaglen waith er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o ddiogelu ac er mwyn datblygu dull gweithredu ataliol tuag at ddiogelu oedolion.

Yn ystod 2013-14, bu AGGCC yn cydweithio'n agos gydag uned gontractio y cyngor, ac roedd ganddi berthynas waith dda gyda'r uned hon. Mae'r uned yn monitro ansawdd y gwasanaeth allanol sy'n cael ei gomisiynu gan y cyngor. Mae'r uned yn cryfhau ei harfer ac mae'n bwriadu canolbwyntio yn fwy ar y canlyniadau yn ystod ei gweithgarwch o fonitro contractau, a defnyddio gwirfoddolwyr.

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd adolygiad achos difrifol ac adroddiad dynladdiadau domestig. Bu panel yr adolygiad achos difrifol a'r panel adolygu dynladdiadau difrifol yn cydweithio mewn ffordd effeithiol ar y gwaith hwn. Datblygwyd cynllun gweithredu er mwyn gwella'r gwasanaeth, a'r gwasanaethau iechyd meddwl yn arbennig, a llwyddwyd i sicrhau cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd. Bydd AGGCC yn rhoi sylw i weithrediad y cynllun gweithredu yn dilyn yr adolygiadau hyn.

Ym mis Ionawr a Chwefror 2014, wynebodd Gwynedd sialensiau gwyntoedd cryfion a llifogydd. Gwnaeth staff y cyngor ymateb i'r sefyllfa frys, gan weithio mewn ffordd ddiflino i sicrhau gofal a lloches ar gyfer pobl agored i niwed. Nododd y cyngor feysydd i'w gwella yn ystod sefyllfaoedd o argyfwng yn y dyfodol, gan gynnwys mwy o le mewn canolfannau gorffwys, cyfathrebu gwell ar gyfer cartrefi gofal a chynlluniau wrth gefn ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

**Plant**

Ym mis Mawrth, canfu arolygiad gan Estyn: "Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2013"; nad oedd dealltwriaeth eglur o rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu plant ar lefel gorfforaethol a rhwng adrannau o fewn y cyngor. Ers hynny, mae'r cyngor wedi sicrhau cynnydd wrth bennu gwell dealltwriaeth o'r materion a strwythurau diogelu corfforaethol mwy cadarn. Mae'r broses o ailstrwythuro ar lefel penaethiaid gwasanaeth a'r broses o greu swydd Pennaeth yr Adran Plant a Chynorthwyo Teuluoedd wedi cryfhau'r gweithgarwch diogelu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Yn ogystal, mae hyn wedi gwella'r gallu corfforaethol i weithredu'r trefniadau diogelu newydd.

Mae'r cyngor wedi sefydlu panel strategol o aelodau ac uwch-swyddogion er mwyn ymgorffori diogelu ar lefel gorfforaethol. Caiff y panel strategol ei gynorthwyo gan banel gweithredol, sy'n cynnwys rheolwyr o holl adrannau'r cyngor. Mae'r paneli wedi adolygu'r polisïau corfforaethol ac adrannol, maent wedi cynyddu ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant; gan sicrhau bod archwiliadau cyflogaeth yn cael eu cynnal mewn ffordd briodol. Mae'r cyngor yn datblygu trefniadau er mwyn monitro effeithiolrwydd y gwaith diogelu. Mae angen i'r trefniadau hyn werthuso sut y caiff gwybodaeth effeithiol ei throsglwyddo ar draws adrannau, ac effaith y trefniadau diogelu.

Canfu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal bod y bwrdd diogelu plant newydd gychwyn ar y broses o symud at ddull gweithredu rhanbarthol. Canfuwyd bod asiantaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol a phlant sydd ar goll, a bod gwaith cydlynydd unigolion coll Heddlu Gogledd Cymru yn cryfhau hyn.

Mae'r cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012-13 i 185 yn 2013-14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012-13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%).

Mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Ngwynedd yn parhau i fod yn gadarn yn gyson, o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cyngor yn llwyddo i sicrhau cysondeb o ran lleoliadau a chymwysterau ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal, ymhlith y cynghorau sy'n sicrhau'r perfformiad gorau yng

Nghymru.  Mae gan yr holl bobl ifanc perthnasol gynllun llwybr a chynghorydd personol.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi parhau i fod yn sefydlog, ond mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant wedi gostwng (o 86.7 i 82.8%) ar ôl perfformiad gwell y llynedd, ac mae'n faes y mae angen sicrhau gwelliant ynddo.

**Meysydd o gynnydd**

- Sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn.
- Sefydlu'r strwythurau diogelu corfforaethol.

**Meysydd i'w gwella**

- Gwerthuso effaith y strwythurau diogelu corfforaethol.
- Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant.

## Gallu

**Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae gan y cyngor weithlu sefydledig sy'n meithrin profiad ym maes gofal cymdeithasol.  Nid oes materion staffio na swyddi gwag sylweddol.

Gwnaeth y cyngor baratoi cynllun hyfforddi trylwyr ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn ystod 2013-14.  Mae'r cynllun yn deillio o werthfawrogiad o sialensiau cenedlaethol a lleol ym maes gofal cymdeithasol, ac mae'n datblygu gwybodaeth leol, gydag ymgynghori amlwg gyda rhanddeiliaid a gwerthfawrogiad o flaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014).

Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn diogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ac ysbytai, y maent yn agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol a diffyg gallu meddyliol.  Canfu arolygiad DoLS AGGCC bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r aseswyr arbenigol a oedd yn cael eu cynorthwyo gan reolwyr gwybodus a phrofiadol.  Nid yw hyfforddiant lleol a gweithgarwch i hyrwyddo DoLS y tu allan i'r cyngor wedi arwain at ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu.  Mae'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant DoLS yn adlewyrchu angen mwy cyffredinol i brif-ffrydio DoLS ar draws y cyngor, gofal cymdeithasol ac iechyd.  Nododd arolygwyr y dylai'r cyngor ystyried ei drefniadau rheoli er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau rhwng y corff goruchwylio sy'n goruchwylio proses asesu DoLS a'r awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am y gofal a ddarparir.

Mae cyfraith achosion diweddar wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer gweithrediad posibl trefniadau diogelu DoLS yn sylweddol, ac mae hyn eisoes yn cael effaith amlwg ar y galw a'r angen i'r cyngor ymateb mewn ffordd briodol.  Mae gan y cyngor 9 o aseswyr budd pennaf ac mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r cynnydd

o ran y galw.

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gwario bron i £60 miliwn y flwyddyn ar wasanaethau cymdeithasol ac mae'n bwriadu gostwng y swm hwn i £10 miliwn erbyn diwedd 2017/18, gan wneud arbedion yn y gwasanaethau i oedolion yn bennaf. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyngor wedi rheoli ei sefyllfa ariannol yn dda. Roedd y gwariant o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013-14 fel y cynlluniwyd i gryn raddau, fodd bynnag, gwelwyd gorwariant o £498,000 yn y gwasanaethau i oedolion. Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, gwelwyd straen sylweddol yn deillio o'r gwariant ar y gofal i bobl hŷn, anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.

Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15. Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol.

**Meysydd o gynnydd**

- Rheoli risg.

**Meysydd i'w gwella**

- Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion DoLS a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau.
- Sicrhau ansawdd

**Darparu cyfeiriad**

Mae'n amlwg bod y cyngor yn cydnabod cyd-destun pwysau ariannol estynedig, newidiadau demograffig, disgwyliadau uwch a goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Ceir dealltwriaeth eglur bod angen i wasanaethau cymdeithasol gael eu darparu mewn ffordd wahanol. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r cam o gael meddwl agored ynghylch y cam o greu gwasanaethau ar y cyd gyda dinasyddion Gwynedd. Mae wedi nodi blaenoriaethau eglur ac mae wedi ymrwymo i'r cam o sicrhau'r gofal cywir yn y lleoliad cywir am y gost gywir.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng nghynllun strategol y cyngor. Gwelir hyn yn y flaenoriaeth a roddir i blant a phobl ifanc agored i niwed, y cymorth i oedolion a diogelu. Bu cymorth corfforaethol

cadarn ar gyfer gweithredu prosiectau yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Cadarnhawyd cyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol yn gyfarwyddwr corfforaethol ym mis Gorffennaf 2013 ac mae wedi creu dwy swydd pennaeth gwasanaeth newydd, a phenodi unigolion i'r swyddi hyn, sef Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Lles a Phennaeth yr Adran Plant a Chynorthwyo Teuluoedd.

Mae wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i'r cyfarwyddwr corfforaethol wrth iddi gyflawni ei chyfrifoldebau corfforaethol a sefydlu'r tîm arwain uwch o fewn y gwasanaeth cymdeithasol. Mae'r tîm arwain newydd wedi codi proffil a dylanwad gofal cymdeithasol ar lefel gorfforaethol. Ceir arwyddion cynnar y bydd y trefniadau newydd yn arwain at welliannau o ran y cymorth a'r arweinyddiaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'n parhau i fod yn bwysig bod y cyngor yn creu set addas o brotocolau sy'n diffinio trefniadau cyfatebol a pherthnasoedd rhwng deiliaid swyddi allweddol ar draws y cyngor. Dylai'r deiliaid swyddi allweddol weithio trwy'r cynigion hyn a dylent gael eu derbyn a'u cymeradwyo yn ffurfiol gan y cyngor. Ceir perygl na fydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cael sylw priodol gan y cyfarwyddwr corfforaethol os bydd portffolio ei chyfrifoldebau yn rhy fawr.
Mae'r cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhianta corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhianta corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyn darparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Meysydd o gynnydd**

- Proffil y gwasanaethau cymdeithasol o fewn y cyngor a'r cymorth ar eu cyfer.

**Meysydd i'w gwella**

- Cymorth rhianta corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor a phartneriaid.

**ATODIAD '2'**

## Crynodeb o gamau ymateb 2014-15 Cyngor Gwynedd i'r meysdd gwella a adnabuwyd gan AGGCC

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Llunio Gwasanaethau** | i. Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn gwasanaethau i oedolion. | **Morwena Edwards** | • Gweithredu yn unol ag egwyddorion y "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag anghenion cymhleth" a arwyddwyd yn Mawrth 2014 gan 6 awdurdod lleol y Gogledd ac BIPBC.<br><br>• Sefydlu Fforwm Sirol Gwynedd.<br><br>• Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm pob 6 wythnos.<br><br>• Adolygu trefniadau a chylch gorwchyl Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn.<br><br>• Penodi Swydd (secondiad) Rheolwr Integreiddio a Thrawsffurfio Gwasanaethau ar y cyd gyda BIPBC.<br><br>• Gweithredu cynlluniau 2014-15 Cronfa Canolraddol Gwynedd (ICF) yn cynnwys prosiectau:<br>1. Cynllun Gwella Cyfathrebu<br>2. 7 diwrnod gwaith amlddisgyblaethol<br>3. Mynediad amserol i offer a man addasiadau<br>- Addasiadau Stoc Tai<br>- Man addasiadau i gartefi pobl hyn<br>- Offer Arbenigol gwlau proffolio a matresi | Parhaus<br><br><br><br><br><br>Wedi ei sefydlu<br><br>Parhaus<br><br><br>Mawrth 2015<br><br>Eisoes wedi'i gyflawni<br><br><br>Mawrth 2015 |

**ATODIAD '2'**

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Llunio Gwasanaethau** | i. Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn gwasanaethau i oedolion. (Parhad) | **Morwena Edwards** | 4. Ffordd Gwynedd Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br>5. Adolygiad llawn ar gefnogaeth i ofalwyr<br>6. DementiaGO<br>7. Gwella gwybodaeth ac ymgyrch "aros yn iach, aros adref"<br>- Cofrestr tai hygyrch<br>- Cynllun Symud Ymlaen (Canllaw)<br>- Canolfannau Byw'n Dda (Age Cymru Gwynedd a Môn)<br>- Cynllun Atal Godymu<br>- Cynllun gwasanaeth cefnogi galluogi (peilot Arfon yn unig) (Groes Goch)<br>- Caffi Strôc yn Nwyfor a Meirionnydd (Cymdeithas Strôc)<br>- Caffi Parkinson ym Mangor (Parkinson's Uk)<br>- Grwpiau galw mewn Dementia gyfeillgar (Groesffordd Gogledd Cymru)<br>8. Fferyllwyr<br>9. Cynyddu Gwlau Ysbaid, Gallupgi a Canolraddol | |
| | ii. Cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). | **Marian Parry Hughes** | • Cyfarfod wedi ei gynnal cychwyn Haf 2014 rhwng y Cyngor ag Uwch Reolwyr BIPBC i drafod y maes yma.<br>• Trafodaethau pellach i'w cynnal. | Haf 2014<br>Mawrth 2015 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Llunio Gwasanaethau** | iii. Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth. | **Marian Parry Hughes** | • Yr Adran Plant a Theuluoedd wedi sefydlu paneli cynllunio gofal parhaol, panel adnoddau i edrych ar geisiadau o'r newydd a Phanel Comisiynu lleolidau statudol.<br>• Bydd angen crynhoi'r wybodaeth a ddaw am anghenion gofal o'r strwythurau hyn i fwydo i strategaethau gofal y gwasanaeth. | 2014-15<br>Parhaus |
| | | | | |
| **2. Cael gafael ar Gymorth** | i. Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant. | **Marian Parry Hughes** | • Un swydd gweithiwr cymdeithasol wedi ei ychwanegu at sefydliad y Tîm Derbyn cyfeiriadau.<br>• Trefniant mewn lle i uwch weithiwr fod yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod.<br>• Gwaith gwella'r trefniadau, megis adroddiadau rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau. | Eisoes wedi'i gyflawni<br>Parhaus<br>Parhaus |
| | ii. Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio. | **Marian Parry Hughes** | • Yr Adran Plant a Theuluoedd yn monitro hwn yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus.<br>• Systemau'r Adran Adran Plant a Theuluoedd bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol, sydd wedi arwain at welliant. | Parhaus<br>Parhaus |
| | iii. Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth. | **Marian Parry Hughes** | • Creu consortia rhanbarthol (Gogledd Cymru) er mwyn sicrhau cytundeb darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol o Ebrill 2015 ymlaen. | Mehefin 2014 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **2. Cael gafael ar Gymorth** | iii. Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth. (Parhad.) | **Marian Parry Hughes** | • Proses tendro am wasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol.<br>• Penodi darparwr gwasanaeth Adfocatiaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.<br>• Darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol yn weithredol.<br>• Adolygiad o'r camau hyrwyddo ymwybyddiaeth a chynnydd mewn defnydd. | Ionawr 2015<br>Ionawr 2015<br>Ebrill 2015<br>Mehefin 2015 |
| | | | | |
| **3. Y gwasanaethau a ddarparwyd** | i. Cysondeb wrth ymateb i gwynion | **Gwenan Parry** | • Datblygu / adolygu Strategaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer y gwasanaethau fydd yn cynnwys sylw i'r prosesau cwynion a sylwadau.<br>• Staff yr Uned Gofal Cwsmer i fynychu hyfforddiant arbenigiol cwynion a diogelu data er mwyn datblygu sgiliau'r staff a gwybodaeth yr uned.<br>• Gweithredu yn unol â threfn a rheolaethau cwynion gofal cymdeithasol Llywiodraeth Cymru 2013 (statudol ar y 1af o Fehefin 2014) yn sgil canllaw newydd - *Gwneud Pethau'n Iawn.*<br>• Yn sgil y drefn a rheolaethau cenedlaethol newydd, diwygio canllawiau a pholisi cwynion yr Adran.<br>• Cyhoeddi taflenni gwybodaeth yn sgil y diwygiadau i ganllawiau a pholisi. | Mawrth 2015<br>Ebrill 2014<br>Parhaus<br>Awst 2014<br>Chwefror 2015 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **3. Y gwasanaethau a ddarparwyd** | i. Cysondeb wrth ymateb i gwynion. (Parhad.) | **Gwenan Parry** | • Cylch hyfforddiant yn cael ei cynnig i'r staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Mawrth 2015 |
| | iia. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Llety) | **Marian Parry Hughes** | • Gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol.<br>• Cynyddu'r amrediad lleoliadau sydd ar gael er mwyn bodloni plant a phobl ifan sy'n derbyn gofal sydd gydg anghenion cymhleth. | Mawrth 2015<br>Mawrth 2015 |
| | iib. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Iechyd) | **Marian Parry Hughes** | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'r sefyllfa'n agos.<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol.<br>• Y maes yma yn cael ei adrodd arno yn rheolaidd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. | Parhaus<br>Parhaus<br>Parhaus |
| | | | | |
| **4. Yr effaith ar fywydau pobl** | i. Gwerthuso effaith y strwythurau diogelu corfforaethol. | **Morwena Edwards** | • Polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cymeradwyo gan y Panel Strategol Diogelu.<br>• Trefn adrodd mesur effaith yn ei le ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu, y Cabinet a'r Tîm Rheoli.<br>• Awdit blynyddol yn cael ei gynnal sy'n mesur ansawdd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth staff o sut i weithredu ar adeg o bryder. | Blynyddol<br>Parhaus yn chwarterol<br>Parhaus yn flynyddol. |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **4. Yr effaith ar fywydau pobl** | i. Gwerthuso effaith y strwythurau diogelu corfforaethol. (Parhad.) | **Morwena Edwards** | • Sicrhau awdit annibynnol o ansawdd a gweithrediad y polisi a'r gweithdrefnau drwy samplo gweithdrefnau a lefel ymwybyddiaeth staff o fewn y Cyngor.<br>• Gweithredu ar argymhellion yr awdit. | Rhagfyr 2014<br>Parhaus (yn dilyn eu derbyn) |
| | ii. Amseroldeb cynhadleddau amddiffyn plant. | **Marian Parry Hughes** | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos.<br>• Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn rhesymau gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ar gyfer pob adolygiad sy'n hwyr a gweithredu fel bo'n briodol. | Parhaus<br>Parhaus |
| | | | | |
| **5. Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol** | i. Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau. | **Gwenan Parry** | • Addasu gweithrefnau Gwynedd o ran DoLS.<br>• Penodi Cydlynydd DoLS i Wynedd.<br>• Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>• Llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gyda oblygiadau DoLS.<br>• Llunio a chyflwyno bid ariannol fel am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu chyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd a'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor. | Ebrill 2014<br>Ebrill 2014<br>Mawrth 2015<br>Rhagfyr 2014<br>Medi 2014 |

| Gweithgaredd | Meysydd i'w gwella | Uwch Swyddog Arweiniol | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| **5. Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol** | ii. Sicrhau ansawdd. | **Gwenan Parry** | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data.<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol.<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth.<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth.<br>. | Mawrth 2014<br>Parhaus<br>Parhaus<br>Mawrth 2015 |
| | | | | |
| **6. Darparu cyfeiriad** | i. Cymorth rhiantu corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a phartneriaid. | **Morwena Edwards** | • Datblygu Strategaeth.<br>• Gweithredu'r strategaeth.<br>• Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei gyflwyno i'r Cabinet. | 2014-15<br>Parhaus yn dilyn ei fabwysiadu<br>Gorffennaf 2014 |

RHIF EITEM – 6

| |
|---|
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| Dydd Iau, 11 Rhagfyr 2014 |
| Cynghorydd Peter Read<br>Cadeirydd Fforwm Craffu |

1 Cefndir

1.1. Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor yn rhagweld bwlch ariannol o tua £50m. yng nghyllidebau'r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf.

1.2. Mae Adrannau'r Cyngor wedi cyflwyno cynigion effeithlonrwydd/rheoli'r galw yn unol â'r targedau a osodwyd iddynt gan y Cabinet ar 1af Ebrill 2014.

1.3. Rhoddwyd cyfle i bob un o Aelodau'r Cyngor roi ystyriaeth i'r arbedion mewn gweithdai a gynhaliwyd ar 8fed a'r 13eg o Hydref.

1.4. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r cynigion gan Weithgor o Aelodau'r Fforwm Craffu mewn 6 cyfarfod a gynhaliwyd rhwng 14eg o Hydref a 3ydd o Dachwedd.

1.5. Cyflwynais Adroddiad y Gweithgor i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 13 Tachwedd.

2 Cynigion gerbron

2.1 Er mwyn sicrhau bod ystyriaeth fanwl yn cael ei roi i arbedion y bwriedir eu gweithredu o 1 Ebrill 2015 ac a fedrai gael effaith uniongyrchol ar bobl fregus, penderfynais gyfeirio 3 o'r cynigion i sylw'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau:

A Addasu Cytundebau Darparwyr (OED3.2) (Gweler Atodiadau A1)

B Dad-gomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd (P6) (Gweler Atodiadau B1 a B2)

C Dad-gomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched Bangor (P7) (Gweler Atodiadau C1)

2.2 Gofynnir i chi ystyried y cynnwys, holi cwestiynau a gwneud argymhellion i'r Cabinet.

3 Camau Nesaf

3.1 Bydd y Cabinet yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac argymhellion y Pwyllgor yma gan wneud penderfyniad ar 16 Rhagfyr.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Cynigion arbedion effeithlonrwydd yn ymwneud â ffioedd darparwyr allanol** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd R. H. Wyn Williams** |

**1. Pwrpas**

1.1 Fel rhan o'i chynigion i gyflawni targedau arbedion effeithlonrwydd rhwng 2015/16 a 2017/18, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (yr Adran) wedi awgrymu'n wedi cynnwys argymhelliad cychwynnol y dylai ffioedd darparwyr barhau'n gyson â lefelau 2014/15 am dair blynedd pellach. Byddai hyn yn dod ag arbedion i gyllidebau'r Cyngor o £942K (£314K y flwyddyn am bob un o'r tair blynedd).

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi dadansoddiad manylach o'r ffigwr hwn i'r Pwyllgor, a'i effaith ar y darparwyr perthnasol.

1.3 Yn ogystal, mae'r adroddiad yn cyflwyno manylion lefelau'r arbedion y gallai'r Pwyllgor, ym marn yr Adran, eu hargymell i'r aelodau Cabinet. Wedi ymgymryd ag adolygiad manylach o'r cynnig cyntaf, teimlir y dylid ailymweld â'r targed gwreiddiol o £942k

**2. Cyd-destun**

2.1 Fel y nodir uchod, y cynnig gwreiddiol oedd arbed £314K y flwyddyn. Wedi ailgyfrifo ar sail y wybodaeth ddiweddaraf, mae'r ffigwr gwaelodlin bellach yn £380K, sy'n cynrychioli 2.85% o gyfanswm y gyllideb berthnasol o £10.8m. Dyma'r swm sydd wedi'i glustnodi i'w wario ar ddarpariaeth allanol o'r holl wasanaethau gofal, ac eithrio gofal preswyl a nyrsio, gan y sector preifat a'r trydydd sector. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau cefnogi pobl neu grantiau i fudiadau trydydd sector.

2.2 Y gwasanaethau dan sylw (gwariant fel % o £10.8m) yw:

- Taliadau Uniongyrchol (9%)
- Gofal Cartref (35%)
- Gofal Dydd a Gwasanaethau Cefnogol (15%)
- Gofal Ysbaid (3%)
- Byw â Chefnogaeth (38%)

2.3 Mae tua 85% o wariant y £10.8m yn mynd ar brynu gwasanaethau gan 11 cwmni, gyda'r 15% arall yn cael ei wario ar wasanaethau a grantiau sy'n ymwneud â nifer fawr o gontractau ar raddfa fach.

2.4 Mae argymell lefelau ffioedd y tu hwnt i 2015/16 yn dipyn o her, am sawl

rheswm. Mae hyn yn cynnwys ansicrwydd ynghylch dyfodol ein darparwr mewnol, effaith cynigion arbedion a gwasanaethau eraill (e.e. cynigion i gynyddu annibyniaeth, adolygu pecynnau gofal a chefnogi pobl mewn gwahanol ffyrdd a all arwain at newid neu ostyngiad yn yr hyn sy'n cael ei brynu gan gyflenwyr o bosib) ac effaith gostyngiadau posib mewn ffynonellau ariannu eraill megis y Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF) a'r Grant Cefnogi Pobl (SPG).

2.5 Mae'n hanfodol bod swyddogion ac aelodau'n trafod gosod ffioedd o fewn y cyd-destun cyfreithiol cymhleth, gan roi ystyriaeth ddyledus i gyfraith achos ddiweddar. I grynhoi, rhaid i'r Cyngor:

- Ystyried buddion defnyddwyr ac effaith unrhyw gyfradd is o ffioedd arnynt hwy
- Ystyried unrhyw gyfarwyddyd perthnasol gan y llywodraeth
- Cymryd camau rhesymol i ddod yn gyfarwydd ag amodau perthnasol y farchnad / busnes
- Sicrhau bod y gofal yn cael ei ariannu'n ddigonol a bod y ffioedd yn caniatáu i wasanaethau fod yn gynaliadwy
- Ystyried ei sefyllfa ariannol ei hun a pha mor fforddiadwy yw ffioedd, heb ddiystyru gwir gost darparu gwasanaethau, yn cynnwys elfen o enillion ar gyfalaf ( os yn berthnasol).

## 3. Argymhellion yn ôl math o wasanaeth

3.1 Ar ôl dadansoddi'r ffioedd o fewn y cyd-destun a amlinellir uchod, ac wrth gymharu â'r ffioedd sydd wedi'u gosod gan awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, rydym yn argymell y dylid addasu'r targed arbedion yng nghyswllt gosod ffioedd fel y disgrifir yn y paragraffau a ganlyn ac sydd wedi'i grynhoi yn adran 4 yr adroddiad hwn.

3.2 Mae ein cyfradd **Taliad Uniongyrchol** yng Ngwynedd wedi'i adnabod ers tro yn llawer uwch (dros £1 yr awr yn uwch) nag awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Er mwyn dod â'r gyfradd yn agosach at y lleill, awgrymir na ddylid ychwanegu chwyddiant at y gyfradd dros y tair blwyddyn ariannol nesaf. Byddai hyn yn dod â £28K y flwyddyn, gan roi cyfanswm o **£84k** erbyn diwedd 2017/18.

3.3 Mae'n weddol anodd cymharu ffioedd gogledd Cymru ar gyfer **Gofal Cartref**, oherwydd mai dim ond dau awdurdod (Gwynedd a Sir Ddinbych) sydd â chyfraddau gwahanol ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig. Fodd bynnag, mae'n dod yn amlwg bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar £1 neu fwy yn llai yr awr mewn rhannau penodol o Ogledd Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau cynaladwyedd y farchnad, yn enwedig ym Meirionnydd, ble gwyddwn fod y galw bron â gorbwyso'r cyflenwad ar brydiau. Wedi ystyried amrywiol ffactorau perthnasol, rydym yn awgrymu y dylai'r Cyngor gynllunio ar sail cadw lefelau ffioedd 2014/15 ar gyfer 2015/16, fyddai'n arwain at arbediad o **£107K**, ond y dylid adolygu'r ffioedd y tu hwnt i'r adeg honno yn y dyfodol.

3.4 Rydym wedi darganfod fod y fethodoleg ar gyfer cyfrifo costau **Gofal Dydd** a

**Gwasanaethau Cefnogol** yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau, felly nid yw hi'n bosib cymharu'n ffioedd ni gydag eraill yn fanwl gywir. Mae mwyafrif helaeth y gwariant yn y categori hwn yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd ag anawsterau dysgu. Mae adolygiad manwl o'r gwasanaethau hyn ar waith, sy'n cynnwys targed arbedion effeithlonrwydd, i'w gwireddu o 2016/17 ymlaen. Felly, cynigir y dylai'r ffioedd aros ar lefelau 2014/15 am flwyddyn arall cyn cael eu craffu ymhellach. Byddai hyn yn dod ag arbediad yn 2015/16 o **£47K**.

3.5 Mae'r gwariant perthnasol ar **Ofal Ysbaid** yn ymwneud ag un darparwr. Mae'r darparwr hwn yn ymwybodol ein bod yn ystyried ffyrdd eraill a mwy cost effeithiol o fodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn wedi'i awgrymu fel targed effeithlonrwydd ar gyfer 2017/18. Yn y ddwy flynedd cyn hynny, argymhellir cynnal lefelau ffioedd cyfredol, gan roi arbediad o £9K y flwyddyn, sef cyfanswm o **£18K**.

3.6 Fel sydd eisoes wedi'i amlygu, mae 38% o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario ar wasanaethau **Byw â Chefnogaeth**. Wrth gymharu ag awdurdodau eraill gogledd Cymru, gwelir bod ffioedd Gwynedd yn debyg iawn i'r awdurdodau sy'n talu fwyaf. Fodd bynnag, rhaid bod yn wyliadwrus gyda hyn am sawl rheswm. Rydym yn adolygu'r holl wasanaeth ar hyn o bryd; hwn yw'r gwasanaeth fyddai'n wynebu'r effaith fwyaf yn sgil gostyngiadau i'r ILF a'r SPG ac mae ansicrwydd yn parhau ynghylch effaith Dyfarniad Whittlestone, a fydd yn cael effaith sylweddol ar gostau cyflogaeth i rai darparwyr. Yr argymhelliad yw na ddylid rhewi ffioedd y tu hwnt i 2015/16, yn y lle cyntaf, a fyddai'n caniatáu i ni ddadansoddi a deall yn well yr effaith ar y farchnad ac ar y defnyddwyr gwasanaeth. Felly, mae'r arbediad wedi'i gyfyngu i **£117K**.

## 4. Crynodeb o'r Argymhellion

4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adran 3 yr adroddiad hwn.

| **Math o wasanaeth** | **2015/16 £000** | **2016/17 £000** | **2017/18 £000** | **Cyfanswm £000** |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol | 28 | 28 | 28 | 84 |
| Gofal Cartref | 107 | - | - | 107 |
| Gofal Dydd a Gwasanaethau Cefnogol | 47 | - | - | 47 |
| Gofal Ysbaid | 9 | 9 | - | 18 |
| Byw â Chefnogaeth | 117 | - | - | 117 |
| **Cyfanswm** | 308 | 37 | 28 | **373** |

4.2 Wedi ymgymryd â'r dadansoddiad pellach a amlinellir yn yr adroddiad hwn, rydym yn argymell y dylid adolygu'r ffigwr o £942K a gyflwynwyd yn wreiddiol er ystyriaeth a'i ailosod ar **£373K**. Hefyd, rydym yn argymell y dylid ailystyried yr holl ffioedd yn flynyddol, gan ystyried y cyd-destun perthnasol a statws y

farchnad ar y pryd. I sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion angenrheidiol ar y pwynt gweithredu.

**Atodiad B1** CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **P6** Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched De Gwynedd |
| **Adran** | Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Beth yw'r cynnig?**

Yn hanesyddol mae Gwasanaeth Plant Gwynedd wedi cyfrannu arian drwy gytundeb lefel gwasanaeth i Cymorth i Ferched De Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd. Yn wreiddiol roedd y cyfraniad y sylweddol uwch na'r hyn sydd yn cael ei ddyrannu yn gyfredol a chytunwyd i gwtogi ar yr arian rhyw 5 mlynedd yn ôl. Ers hynny mae'r arian sydd yn cael ei gyfrannu yn talu am weithiwr plant rhan amser sydd yn rhoi gwasanaeth yn y gymuned ac yn y lloches i blant unigol ac yn gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol.

Erbyn hyn, yn sgîl yr hinsawdd ariannol, mae'r gwasanaeth o'r farn y dylid diddymu'r cyfraniad yma o arian craidd y gwasanaeth plant i Cymorth i Ferched.

Mae'n debygol y bydd barn fod yr argymhelliad yma yn cael ei weld fel torri gwasanaeth, ond hyd yn oed heb y cyfraniad yma ni fyddai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Adran tuag at blant sydd yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref yn newid. Mae'r cyfrifoldeb i asesu anghenion, ymchwilio materion diogelu a darparu gwasanaethau i'r teulu yn aros gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae Cymorth i Ferched De Gwynedd yn derbyn arian sylweddol drwy ffynhonellau eraill ac yn hanesyddol mae Gwynedd, yn wahanol i awdurdodau eraill, wedi bod yn rhoi cyfraniad o arian craidd gwasanaeth trwy gytundeb i'r mudiad. Mae'r gwasanaeth o'r farn na fydd unrhyw effaith ar gyfrifoldeb statudol y Cyngor drwy ddiddymu'r cytundeb. Mae wedi bod yn anodd derbyn gwybodaeth ynglyn a chanlyniadau i blant unigol drwy'r gwasanaeth ac er fod cyswllt uniongyrchol gyda plant a phobl ifanc sydd unai yn byw neu wedi byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, ychydig iawn yw'r dystiolaeth fod yr ymyrraeth yn gwwella ansawdd bywyd unigolion. Nid yw diddymu'r gwasanaeth yn newid dim ar gyfrifoldebau partneriaid i adnabod a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.

Yn sgil yr angen i asesu pob cyllideb am werth am arian, mae'r gwasanaeth o'r farn fod dadgomisiynu'r gwasanaeth yma yn opsiwn sydda risg isel ynghlwm â fo.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | Amlinellol *nes bod penderfyniad cabinet ym Mis Gorffennaf 2014.* |
| **Swm i'w arbed** | £33,810 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**

Mawrth 2015

**Effaith ar Bobl Gwynedd**

Ychydig o effaith o risg isel

| |
|---|
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi** |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb** |
| **Effaith ar Staff**<br>Ni rhagwelir unrhyw effaith ar staff Gwasanaeth plant a cefnogi teuluoedd. |
| **Effaith Gofodol**<br><br>Dim. |

Atodiad B2

Sylwadau Gwyneth Williams, Rheolydd Gorwel, Trais yn y Cartref De Gwynedd

Sut yr effeithir ar blant gan gamdriniaeth neu drais yn y cartref?

1. Mae'r mwyafrif o blant yn dyst i'r trais sy'n cymryd lle, ac yn 90% o'r achosion, maen nhw yn yr un ystafell neu'r ystafell drws nesaf.
2. Gallant fod yn 'dystion' i drais yn y cartref mewn sawl ffordd.
3. Gallant gael eu dal yng nghanol digwyddiad mewn ymgais i ddod â'r trais i ben.
4. Gallant fod yn yr ystafell drws nesaf a chlywed y camdrin neu weld anafiadau ar y fam yn dilyn y trais.
5. Gallant gael eu gorfodi i aros mewn un ystafell neu eu rhwystro rhag chwarae
6. Gallant gael eu gorfodi i dystio trais rhywiol neu gallant gael eu gorfodi i gamdrin person yn eiriol.
7. Mae pob plentyn sy'n cael ei orfodi i brofi camdrin neu drais yn y cartref yn cael eu camdrin yn emosiynol.

Ydi'r effaith yr un fath ar bob plentyn?

8. Gall ymateb plant i'r trawma o dystio trais yn y cartref amrywio gan ddibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys oed, hil, rhyw a lefel o ddatblygiad.
9. Unigolion yw plant a gallant ymateb i dystio camdriniaeth mewn ffyrdd gwahanol.
10. Mae'n hanfodol cynnal asesiad llawn o sefyllfa plentyn.

Beth mae arian Cyngor Gwynedd yn eich galluogi i wneud?

11. Yr unig wasanaeth sydd yn cyflogi swyddogion arbenigol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd yn cael eu heffeithio gan drais yn y cartref yng Ngwynedd
12. Gwrando ar lais y plentyn/person ifanc
13. Cynnal sesiynau cefnogi un i un a gwaith grŵp (os yn berthnasol)
14. Datblygu eu sgiliau i ddeall eu sefyllfa, a sut i gadw eu hunain yn saff
15. Adeiladu hyder
16. Cyfle i gwrdd â phlant a phobl ifanc eraill sydd hefyd yn yr un sefyllfa.

Beth arall mae'r arian yn eich galluogi i wneud?,

17. Mae derbyn yr arian craidd wedi ein galluogi i ddenu arian ychwanegol e.e. grant gan Lloyds TSB yn ein Siop Un Stop Trais yn y Cartref yn Nolgellau.
18. Heb yr arian craidd yma ni fydd cyfle i ddenu neu gynnal arian ychwanegol i'r gwasanaeth.

Faint sy'n defnyddio'r gwasanaeth?

19. Mae 82 o blant a phobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth yn y chwe mis o'r 1af Ebrill 2014 hyd at 30 Medi 2014.
20. Ein pryder yw at bwy fydd yr achosion yma'n cael eu cyfeirio pe bai'r gwasanaeth yn dod i ben.

**<u>Atodiad C1</u>** **CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014 – 2017**

| | |
|---|---|
| **Teitl y syniad** | **P7** Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor |
| **Adran** | Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Beth yw'r cynnig?**
Yn hanesyddol mae Gwasanaeth Plant Gwynedd wedi cyfrannu arian drwy gytundeb lefel gwasanaeth i Cymorth i Ferched Bangor ers nifer fawr o flynyddoedd. Yn wreiddiol roedd y cyfraniad y sylweddol uwch na'r hyn sydd yn cael ei ddyrannu yn gyfredol a chytunwyd i gwtogi ar yr arian rhyw 5 mlynedd yn ôl. Ers hynny mae'r arian sydd yn cael ei gyfrannu yn talu am weithiwr plant rhan amser sydd yn rhoi gwasanaeth yn y gymuned i blant unigol ac yn gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol.

Ar hyn o bryd mae'r swydd yn wag ym Mangor.

Erbyn hyn, yn sgîl yr hinsawdd ariannol, mae'r gwasanaeth o'r farn y dylid diddymu'r cyfraniad yma o arian craidd y gwasanaeth plant i Cymorth i Ferched.

Mae'n debygol y bydd barn fod yr argymhelliad yma yn cael ei weld fel torri gwasanaeth, ond hyd yn oed heb y cyfraniad yma ni fyddai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Adran tuag at blant sydd yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref yn newid. Mae'r cyfrifoldeb i asesu anghenion, ymchwilio materion diogelu a darparu gwasanaethau i'r teulu yn aros gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae Cymorth i Ferched Bangor yn derbyn arian sylweddol drwy ffynhonellau eraill ac yn hanesyddol mae Gwynedd, yn wahanol i awdurdodau eraill, wedi bod yn rhoi cyfraniad o arian craidd gwasanaeth trwy gytundeb i'r mudiad. Mae'r gwasanaeth o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar gyfrifoldebau statudol y Cyngor drwy ddiddymu'r cytundeb. Mae wedi bod yn anodd derbyn gwybodaeth ynglyn a chanlyniadau i blant unigol drwy'r gwasanaeth yma ac er fod cyswllt uniongyrchol gyda phlant a phobl a ifanc sydd unai yn byw neu wedi byw mewn sefyllfa trais yn y cartref, ychydig iawn yw'r dystiolaeth fod yr ymyrraeth yn gwella ansawdd bywyd unigolion. Nid yw diddymu'r gwasanaeth yma yn newid dim ar gyfrifoldebau partneriaid i adnabod a chyfeirio pryderon amddiffyn plant.

Yn sgil yr angen i asesu pob cyllideb am werth am arian, mae'r gwasanaeth o'r farn fod dadgomisiynu'r gwasanaeth yma yn opsiwn sydda risg isel ynghlwm â fo.

| | |
|---|---|
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?** | Amlinellol *nes bod penderfyniad cabinet ym Mis Gorffennaf 2014.* |
| **Swm i'w arbed** | £20,060 |

**Ar gychwyn pa chwartrer o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**
Mawrth 2015

| |
|---|
| **Effaith ar Bobl Gwynedd**<br>Ychydig o effaith o risg isel |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi** |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb** |
| **Effaith ar Staff**<br>Ni rhagwelir unrhyw effaith ar staff Gwasanaeth plant a cefnogi teuluoedd. |
| **Effaith Gofodol**<br><br>Dim. |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **11 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adroddiad ar gynnydd y Prosiect Hyrwyddo Ansawdd yn yr Ysgolion Uwchradd ers Mehefin 2014** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **AWDUR** | **Nicola Hughes, Swyddog Prosiect Ansawdd Addysg** |

**Cefndir**

Cyhoeddwyd adroddiad gan y Pwyllgor Craffu ar Ansawdd Addysg ym Medi 2013 yn dilyn proses o ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol . Nododd yr adroddiad nifer o feysydd ac agweddau penodol oedd angen sylw er mwyn codi safonau perfformiad bobl ifainc, a hynny'n benodol ar ddiwedd CA4. Mae'r Prosiect Hyrwyddo Ansawdd wedi bod yn weithredol ers Ionawr 2014, gyda'r Swyddog Prosiect yn arwain y gwaith yn llawn amser ers Medi 2014.

Sefydlwyd Bwrdd Rheoli Prosiect a lluniwyd Cynllun Gweithredu ( *gweler Atodiad 1)* mewn ymateb i gynnwys adroddiad y Pwyllgor Craffu ac Argymhellion Ôl Arolwg ESTYN.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed ar y prosiect ers mis Mehefin 2014.

**1.Datblygu Arweinyddiaeth**

1.1 Mae Ysgol y Moelwyn , Ysgol Botwnnog ac Ysgol Dyffryn Ogwen wedi cynnal diwrnodau datblygu arweinyddiaeth gan rhannu arferion da gydag arweinwyr o ysgolion eraill y Sir. Roedd y dair ysgol yn cyflwyno agweddau o'u gwaith cafodd ganmoliaeth uchel gan arolygwyr ESTYN; Defnydd o ddata a thracio cynnydd, Saesneg, Adborth a Marcio, Hunan-asesu ac asesu cyfoedion, Cynhwysiad, Llywodraethu effeithiol, Cynradd-Uwchradd, Mathemateg ac addysgu a dysgu. Rhoddwyd pwyslais ar 'daith' yr ysgolion wrth ddatblygu'r meysydd yma a'r effaith ar ddeilliannau. Cafwyd cefnogaeth dda i'r dyddiau ac adborth cadarnhaol iawn. Mae'r ysgolion eraill wedi rhoi agweddau penodol ar waith yn dilyn y dyddiau yma. Hefyd, mae'r dyddiau wedi esgor ar hyfforddiant staff cyfan mewn rhai o'r ysgolion eraill.

1.2 Derbyniwyd dau uwch reolwr uwchradd i ddilyn hyfforddiant CPCP i'w paratoi ar gyfer ymgeisio ar gyfer swyddi penaethiaid.

1.3 Mae cynllun peilot Arweinyddiaeth Strategol wedi cychwyn yn nalgylch y Moelwyn. Lluniwyd cynllun datblygu ar gyfer y peilot sy'n cynnwys y nod o ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws y dalgylch.

1.4 Comisiynwyd GwE gan yr adran Addysg i ddatblygu arbenigedd ymhlith Tiwtoriaid Proffesiynol y sir, er mwyn sicrhau yr hyrwyddir datblygiad arweinwyr ar bob lefel o fewn ysgolion uwchradd ac i yrru'r gwaith cydweithio Ysgol i Ysgol.

1.5 Ymwelwyd ag Ysgol Bryngwyn, Llanelli er mwyn casglu arferion da ym maes arweinyddiaeth ac i weld sut oedd dwy ysgol uwchradd wedi ffederaleiddio'n llwyddiannus gan arwain at berfformiad gwell yng nghanlyniadau Haf 2014 yn y ddwy ysgol. Prif ganfyddiadau'r ymweliad yng nghyd-destun arweinyddiaeth 'rhagorol' oedd:-

- Cael datganiad o fwriad sy'n glir ac yn uno holl gymuned yr ysgol; 'Rhoi o'n gorau, i fod y gorau'
- Sicrhau bod aelodau'r UDRh yn gwneud cymhwyster CPCP.
- Ceisio penodi'n ddoeth i dim arwain – cael y cydbwysedd rhwng syniadau newydd ac adnabyddiaeth o'r ysgol.
- Gweithdrefnau Hunan-arfarnu a Rheoli Perfformiad miniog.
- Cynyddu atebolrwydd mewn cyfundrefn cydweithredol a chynhaliol – her dwy ffordd wedi ei selio ar onestrwydd a pharch proffesiynol.
- Y pennaeth a'r dirprwy yn weledol ac yn delio gyda disgyblion yn ddyddiol.
- Cynllunio manwl a thrio pethau newydd – sefydlu diwylliant 'rhowch gynnig arni'.
- Creu hinsawdd – 'beth sydd orau i'r dysgwyr'.
- Pawb yn arweinwyr – daw'r hyfforddiant gorau oddi fewn i'r ysgol.
- Recriwtio – ail hysbysebu nes cael ymgeisydd cymwys.
- Aelod cyswllt TRh yn mentora/'coacho' penaethiaid adran

1.6 Trefnwyd hyfforddiant i benaethiaid cynradd ym maes arweinyddiaeth (sgiliau rhyngbersonol / cyfathrebu). Mae'r rheoli pobl yn effeithiol yn sgil hanfodol ar gyfer rheolwyr. Cafwyd ymateb da iawn i'r hyfforddiant. Ar hyn o bryd, trefnir hyfforddiant mewn meysydd allweddol i ddatblygu arweinyddiaeth gan Uned Hyfforddi'r Cyngor. Nid yw rheolwyr ysgol yn cael elwa o'r rhaglen gynhwysfawr yma. Byddai ymestyn y ddarpariaeth i'w cynnwys yn gam ymlaen o ran datblygu arweinyddiaeth ymhellach ar draws yr awdurdod.

**2. Mathemateg**

2.1 Lluniwyd a rhannwyd pecyn 'Arferion Da mewn Mathemateg' â phob ysgol. Roedd yn crynhoi arferion llwyddiannus rhai ysgolion ar draws y Gogledd, yn cynnwys adroddiad ar arferion effeithiol 11 ysgol ar draws Cymru yn y maes, yn amlinellu Strategaeth Mathemateg CA4 ,ac yn crynhoi canfyddiadau ESTYN.

2.2 Trefnwyd a chynhaliwyd dau gyfarfod i gydlynwyr Rhifedd y Sir. Cychwynnwyd ar y gwaith o baratoi adnoddau Rhifedd (gweithredol ac ymresymu) i hyrwyddo'r maes yn drawsgwricwlaidd. Trwy hyn bydd banc o adnoddau safonol yn cael ei gynhyrchu er mwyn hyrwyddo cyflwyniad rhifedd o ansawdd ymhob ysgol.

2.3 Cynhaliwyd diwrnod datblygiad proffesiynol ar ymresymu rhifyddol i gynrychiolwyr o holl ysgolion y Sir.

2.4 Cyflwynwyd papur yn cynnig datrysiad i sefyllfa Fathemateg y Sir. Cynigiwyd model o benodi Swyddog Mathemateg /Rhifedd i'r Adran Addysg yn fuan yn nhymor yr Hydref. Byddai'r person yma wedyn ar gael i weithio gydag ysgolion y Sir er mwyn parhau â'r broses o godi safonau pwnc. Oherwydd yr angen i wneud arbedion a thoriadau cyllidol , nid oedd yn bosib gwireddu'r cynllun. Mae angen cynllunio model amgenach.

2.5 Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o hyfforddeion Mathemateg sy'n dilyn cwrs TAR uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor (8 allan o17 i gyd). Serch hyn, bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r Brifysgol i drafod y posibilrwydd o ail hyfforddi athrawon gydag arbenigedd mewn meysydd eraill, i addysgu mathemateg, er mwyn ymateb i brinder yn y maes.

**3 Sicrhau bod gweithdrefnau addas i dracio cyflawniad dysgwyr**

3.1 Ymchwiliwyd i batrwm gwaith AuALl eraill ym maes data a thracio ac adroddwyd i'r Panel Cyflawni ar y sefyllfa leol mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill. Er bod, nifer o awdurdodau eraill ag unedau data o fewn eu hadrannau addysg (neu ar y cyd gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol), eu barn yn gyffredinol oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith yma yn symud i ofal y Consortia Rhanbarthol. Ni fyddai'n ddoeth felly i sefydlu gweithdrefnau o'r newydd i ymateb i'r angen yma o fewn yr Adran Addysg.

3.2 Ar hyn o bryd, mae Uned ddata CYNNAL yn gwneud rhai dadansoddiadau data ar gyfer yr Adran Addysg. GwE fydd yn cynhyrchu dadansoddiadau cymharol o ddata yn y prif ddangosyddion.

3.3 Mae GwE wedi penodi Rheolwr Data er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata i wella ysgolion a dirprwyo adnoddau. Rôl y rheolwr data fydd cryfhau'r broses o rhannu a choladu data ar lefel rhanbarthol a datblygu system dracio fydd yn sicrhau argaeledd data perfformiad yn ystod blwyddyn ysgol. Bydd pecyn data rhanbarthol ar gael yn fuan a'r system dracio yn barod erbyn Chwefror 2015. (Cynllun Busnes GwE). Bydd y pecyn yn hwyluso gwaith yr Adran Addysg i gadw golwg ar berfformiad ysgolion ar adegau penodol o'r flwyddyn. Yn y cyfnod interim, mae GwE yn casglu gwybodaeth yn ystod eu hymweliadau tymhorol, am berfformiad dysgwyr Blwyddyn 11 yn y prif ddangosyddion.

3.4 Mae Uwch-Ymgynghorydd Her GwE am drefnu cyfarfod buan i gynrychiolwyr o ysgolion er mwyn i'r ysgolion fabwysiadu egwyddorion cytûn o ran gosod targedau, amlder asesu, tracio cynnydd a threfnu ymyrraeth.

**4. Codi a chyfleu disgwyliadau'r holl rhanddeiliaid**

4.1 Adroddwyd i benaethiaid a'r Grŵp Cynhwysiad (yn dilyn gwaith ymchwil ac ymweliadau) ar yr arferion gorau er mwyn ymgyrraedd at y rhieni a'r dysgwyr sydd yn eithrio'u hunain o addysg. Roedd yr adroddiad yn rhoi argymhellion ar sut i hyrwyddo ymglymiad teuluol yn fwy effeithiol.

4.2 Rhannodd Ysgol y Moelwyn ei gweledigaeth am gael disgwyliadau uchel o'u dysgwyr a'u hysbrydoli i fod a'r hunan-gred y gallent lwyddo.

4.3 Nodweddir ysgolion mewn ardaloedd di-freintiedig ,sydd wedi llwyddo i godi safonau gan y rhinweddau canlynol:-

- Y pwyslais ar ddatblygu sgiliau dysgwyr ar draws y cwricwlwm.
- Lleihau amrywiadau yn ansawdd yr addysgu.
- Datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i'r bobl ifainc. Partneriaeth gadarn gyda Coleg Addysg Bellach – mwy o lefydd ar gael i ddysgwyr o bob ysgol ar gyrsiau. Y coleg hefyd yn cynnal Clybiau Sadwrn , Clybiau Adolygu a Chlybiau Gwyddoniaeth.
- Disgwyl fod dysgwyr yn dilyn cyrsiau Lefel 2 (newid pwyslais – cynt cyrsiau Lefel 1 i bawb ac ystyriaeth i gyrsiau Lefel 2).
- Cynnal nifer o glybiau boreol ac ôl ysgol, yn arbennig mewn pynciau fel Mathemateg a Saesneg.
- Cynnig cefnogaeth fugeiliol eang i ddysgwyr bregus.

5. **Cryfhau rôl yr Awdurdod wrth godi safonau mewn ysgolion uwchradd**

5.1 Cynhyrchwyd dogfen yn amlinellu cyfrifoldebau'r Awdurdod a GwE o ran codi safonau perfformiad dysgwyr, o fewn y Model Cenedlaethol. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ddulliau fwy cadarn o sicrhau atebolrwydd gan GwE, trwy ddatblygu rôl y Grŵp Ansawdd.

5.2 Mae'r Grŵp Ansawdd yn cyfarfod pob pythefnos ac yn canolbwyntio ar drafod perfformiad ysgolion. Cafodd rhaglen y Grŵp Ansawdd ei rhesymoli er mwyn cael trafodaethau mwy ystyrlon am ysgolion penodol. Bydd Ymgynghorwyr Her yn mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau ac ymateb i gwestiynau am ysgolion penodol.

5.3. Caiff arferion da eu rhannu yng nghyfarfodydd y grŵp Penaethiaid ac yn y Grŵp Cynhwysiad. Un agwedd gadarnhaol iawn sydd wedi datblygu yn sgil y prosiect yw parodrwydd ysgolion i rannu eu arferion gorau a'r awydd sydd ganddynt i ddysgu oddi wrth ei gilydd wrth geisio codi safonau

5.5 Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Broceriaeth GwE i drafod y cydweithio ysgol i ysgol o fewn yr Awdurdod. Trefnwyd i'r Swyddog Broceriaeth fynychu cyfarfod o diwtoriaid proffesiynol Gwynedd ar Ionawr 21.

**6. Datblygu ymhellach rôl allweddol Llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol**

6.1 Yn sgil y Model Cenedlaethol Rhanbarthol, mae'r maes yma yn symud i gyfrifoldeb GwE.

6.2 Cyflwynwyd gwybodaeth i benaethiaid am batrwm gwaith Cyrff Llywodraethu effeithiol gan un o swyddogion yr adran addysg. Atgoffwyd y penaethiaid o ddyletswyddau statudol Llywodraethwyr ac fe'u gwnaed yn ymwybodol o feini prawf y wobr efydd ar gyfer Cyrff Llywodraethu.

6.3 Parheir i gynnal rhaglen flynyddol o hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr.

6.4 Mae rhai penaethiaid wedi hyfforddi Llywodraethwyr ym maes data perfformiad.

6.5 Rhannodd Ysgol Dyffryn Ogwen wybodaeth am arferion effeithiol Llywodraethwyr yr ysgol – agwedd o waith yr ysgol cafodd ganmoliaeth uchel gan ESTYN. Roedd yr arferion da yn cynnwys presenoldeb y Llywodraeth yn Noson Agored yr ysgol a chyfarfodydd rhwng y Llywodraethwyr cyswllt a phenaethiaid adran. Nododd tri pennaeth a fynychodd yr hyfforddiant eu bod am ddatblygu gweithdrefnau tebyg yn eu hysgolion hwy.

6.6 Mewn un ysgol yn y De, penodir llywodraethwyr ychwanegol i fod yn aelodau o is-baneli'r Llywodraethwyr. Nid ydynt yn mynychu cyfarfodydd y Corff Llawn . Mae'r ysgol o'r farn bod hyn yn hyfforddiant da iddynt ac yn eu paratoi pe cyfyd bwlch ar y Corff Llawn.

7. **Cynyddu cyfranogiad dysgwyr a dylanwad llais y dysgwr**

7.1 Ymwelwyd â'r ysgolion uwchradd i gasglu barn dysgwyr am nodweddion 'Ysgol Gwynedd'.

7.2 Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant ar 'Gyfranogiad' ar Dachwedd 12fed. Trefnwyd y diwrnod mewn cydweithrediad â Chydlynydd Ysgolion Iach Gwynedd. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn i'r diwrnod a rhannwyd yr holl ddeunyddiau a baratowyd gyda'r ysgolion.

7.3 Lluniwyd Strategaeth Gyfranogiad enghreifftiol a chafodd ei rhannu gyda'r Cydlynwyr Cyfranogiad. Mae ysgolion unai wedi mabwysiadu'r strategaeth neu ei haddasu er mwyn ei bod yn fwy perthnasol i'w sefydliad hwy.

7.4 Ymchwiliwyd i'r sefyllfa o fewn yr Awdurdod yng nghyd-destun hyrwyddo cyfranogiad ac ymgynghorwyd gyda gweithlu Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc. **Nid oes gan Wynedd berson yn arwain ar gyfranogiad.** Mewn nifer o awdurdodau mae Strategaeth Gyfranogiad yn cael ei gyrru gan swyddog penodol.

7.5 Fe drafodwyd effeithiolrwydd y gynhaliaeth i ddysgwyr yn ystod CA4 drwy gynnal grwpiau ffocws gyda myfyrwyr blwyddyn 12. Lluniwyd adroddiadau unigol ar gyfer pob ysgol ac adroddiad crynodol ar lefel yr awdurdod. Cynigir cefnogaeth eang iawn i ddysgwyr ar

draws yr ystod gallu. Amlygwyd agweddau penodol oedd angen ymateb iddynt – cynnig arweiniad mewn strategaethau adolygu yn fuan ym mlwyddyn 10, cynnal arholiadau mewnol blwyddyn 10 cyn yr arholiadau allanol, cydlynu'r gefnogaeth ychwanegol er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng pynciau a chynnal sesiynau adolygu â ffocws penodol. Yn sgil y canfyddiadau, mae ysgolion wedi datblygu ymhellach y gefnogaeth ar gyfer dysgwyr CA4.

7.6 Yn dilyn cyfarfod o Fwrdd Rheoli'r Prosiect, cytunwyd i gynnal sesiynau hyfforddi i gynghorau ysgolion unigol yn ystod rhan gyntaf o dymor y Gwanwyn os fyddai'r ysgolion yn dymuno manteisio ar yr hyfforddiant. Roedd y Cydlynwyr yn awyddus i gynnal diwrnod yn Nhymor yr Haf i'r cynghorau disgyblion a gwneud hyn yn drefn flynyddol.

7.7 Roedd ysgolion Meirion Dwyfor yn teimlo'n rhwystredig yn yr hyn oedd yn bosib i ddysgwyr hŷn yr ysgol ei wneud i hyrwyddo cyfranogiad ymhlith y dysgwyr iau. O ganlyniad, cynhaliwyd cyfarfod gyda aelod o dîm rheoli Coleg Meirion Dwyfor er mwyn sefydlu trefn o lysgenhadon yn dychwelyd i'w mam ysgol er mwyn hyrwyddo cyfranogiad. Bwriedir treialu'r drefn rhwng y Coleg ac un neu ddwy ysgol uwchradd yn ystod Tymor y Pasg. Nid yn unig bydd y drefn hon yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr iau gymryd rhan mewn gweithgareddau, ond hefyd bydd yn datblygu sgiliau myfyrwyr y Coleg ac yn cryfhau unrhyw geisiadau am lefydd mewn prifysgolion.

**8. Rhoi arweiniad i ysgolion er mwyn iddynt gefnogi dysgwyr bregus yn fwy effeithiol**

8.1 Crynhowyd tystiolaeth o waith ymchwil a'i gyflwyno i benaethiaid ac i aelodau'r grŵp cynhwysiad.

8.2 Lluniwyd Strategaeth Cefnogi Dysgwyr Bregus a'i rhannu gyda'r holl ysgolion. O ganlyniad, mae ysgolion wedi ei addasu ar gyfer eu sefyllfa unigol hwy a nodi targedau priodol ar gyfer gwelliant mewn agweddau megis perfformiad dysgwyr bregus ar ddiwedd CA4, presenoldeb ac ymddygiad.

8.3 Rhannwyd y diweddariadau o Fframwaith Arolygu ESTYN a'r arweiniad atodol ar arolygu'r maes yma. Roedd hyn yn pwysleisio y sylw dyledus a rhoddir yn genedlaethol i sicrhau y gefnogaeth a'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol i grwpiau bregus o ddysgwyr. Nodwyd hefyd arferion da ysgolion oedd yn llwyddo i gau'r bwlch rhwng perfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr.

8.4. Cydweithiwyd yn agos gyda Swyddog Prosiect P4 wrth iddi ddatblygu System Adnabod Cynnar fydd yn sicrhau nid yn unig fod gan ysgolion yr adnabyddiaeth o ddysgwyr bregus , ond y ddarpariaeth briodol ar eu cyfer. Mynychwyd cyfarfodydd o Fwrdd Rheoli P4 a thrafodwyd cynigion ar gyfer y ddarpariaeth y dylid ei gynnig o fewn cynllun Aspire, sydd â'r nôd o sicrhau na fydd unigolion yn yr awdurdod na fyddant mewn addysg, hyfforddiant neu waith (NEETs).

**Camau Gweithredu Pellach**

Yn y cyfnod rhwng Rhagfyr a Mawrth, rhoddir sylw i'r agweddau o'r cynllun gweithredu nad ydynt wedi'u cyflawni'n llawn hyd yn hyn – datblygu ymhellach y cysylltiadau cynradd uwchradd (bydd hyn yn cynnwys monitro llwyddiant cynllun peilot dalgylch y Moelwyn),a chasglu a rhannu'r arferion gorau sydd ar waith mewn ysgolion uwchradd tu allan i'r awdurdod. Hefyd, ymatebir i awgrymiadau'r Bwrdd Rheoli – cynnal hyfforddiant i rheolwyr sydd yn arwain ar addysgu a dysgu a cheisio cryfhau'r cyswllt rhwng yr Awdurdod a cholegau a'r Brifysgol (yn enwedig ym maes Mathemateg).

Rhennir bwletin yn crynhoi gwaith y Prosiect gyda'r ysgolion ym mis Rhagfyr a Chwefror.

Bwriedir crynhoi canfyddiadau'r prosiect a llunio dogfen yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar yr hyn sy'n nodweddu 'Ysgol Gwynedd' erbyn diwedd tymor y Pasg.

# Cynllun Gweithredu Prosiect Hyrwyddo Ansawdd

## [mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Craffu ar ansawdd addysg ym Medi 2013]

| **Nod : Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4** |
| --- |
| ***Gweithredu :***<br><br>• **Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymrwymiad yr ysgolion uwchradd i waith y prosiect**<br>• **Datblygu arweinyddiaeth o fewn ysgolion**<br>• **Gwella ddarpariaeth a safonau Mathemateg**<br>• **Sicrhau bod gweithdrefnau addas i dracio cyflawniad dysgwyr**<br>• **Codi a chyfleu disgwyliadau'r holl rhanddeiliaid**<br>• **Lleihau'r pegynnu o ran ansawdd o fewn a rhwng ysgolion**<br>• **Cryfhau rôl yr Awdurdod wrth godi safonau mewn ysgolion uwchradd a hyrwyddo cydweithio ysgol i ysgol**<br>• **Datblygu ymhellach rôl allweddol Llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol**<br>• **Cynyddu cyfranogiad dysgwyr a dylanwad llais y dysgwr**<br>• **Rhoi arweiniad i ysgolion er mwyn iddynt gefnogi dysgwyr bregus yn fwy effeithiol**<br>• **Datblygu'r cyswllt cynradd-uwchradd**<br>• **Llunio dogfen yn amlinellu y disgwyliadiau o ran 'Ysgol Gwynedd', ysgol rhagorol ymhob agwedd o'i gwaith** |
| ***Deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc:***<br><br>• **62% neu fwy o ddisgyblion yn cyrraedd y safon Trothwy Lefel 2+ (5 gradd TGAU (A*- C) yn cynnwys Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg) yng Nghyfnod Allweddol 4.**<br>• **64% neu fwy o ddisgyblion yn cyrraedd safon Lefel 2 (gradd A*- C) mewn Mathemateg.**<br>• **Lleihad yn y bwlch rhwng perfformiad ysgolion ar TL2+**<br>• **Cynnal y % o ddysgwyr sy'n llwyddo i gyrraedd TL1 – 97% +**<br>• **Lleihau'r bwlch rhwng dysgwyr PYD a dim PYD ar TL2+ (<32%)**<br>• **Cau'r bwlch rhwng sgor perfformiad PMG a disgyblion nad ydynt mewn gofal**<br>• **Llai o Ysgolion Uwchradd yng nghategori 'mewn dilyniant' Estyn.**<br>• **Llai o ysgolion yng nghategori oren/coch**<br>• **Dim un ysgol/adran yn perfformio yn chwartel isaf meincnodau PYD am gyfnod treigl dwy flynedd [2013/2014]**<br>• **Perfformiad yr Awdurdod yn uwch neu'n cyfateb i'r meincnod cenedlaethol yn y TL2+** |

| Camau Gweithredu | | Cyfrifoldeb | Swyddog Monitro | Amserlen gweithredu | | Cerrig Milltir | Deilliannau'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc ac oedolion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cychwyn | Diwedd | | |
| 1 | **Codi ymwybyddiaeth a sicrhau ymrwymiad yr ysgolion uwchradd i waith y prosiect**<br>• Cyflwyno amcanion y prosiect i benaethiaid uwchradd Gwynedd | **NH** | **DRJ** | Rhag 2013 | | | **Dealltwriaeth glir ymysg penaethiaid uwchradd o amcanion y prosiect. Y penaethiaid yn perchnogi'r amcanion ac yn gweithredu ar sail y wybodaeth/hyfforddiant/ cefnogaeth i godi safonau cyflawniad dysgwyr.** |
| | • Ymweld a phob ysgol uwchradd i gasglu gwybodaeth ac i gael barn penaethiaid ar gyfeiriad y prosiect | | | Ion 2014 | Ebrill 2014 | Ffurflenni casglu gwybodaeth ar gyfer yr holl ysgolion. | |
| | • Sefydlu Bwrdd Rheoli Prosiect i lywio a monitro cynnydd y prosiect | | | Mai 2014 | Mai 2015 | Bwrdd Rheoli yn cyfarfod:-<br>Mehefin 2014<br>Hydref 2014<br>Rhag 2014<br>Chwef 2015<br>Mai 2015 | |
| | • Adrodd i benaethiaid ar gynnydd y prosiect ymhob cyfarfod GCSU | | | Chwefror 2014 | Mehefin 2015 | Dogfennau/ cyflwyniadau wedi'u rhannu | |
| | • Llunio Cynllun Gweithredu a'i rannu gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol | | | Mai 2014 | Meh 2014 | Cynllun gweithredu yn | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | hysbys | |

**ADOLYGU CYNNYDD**

Rhanwyd amcanion y prosiect gyda'r penaethiaid. Ymwelwyd a'r holl ysgolion uwchradd. Yn dilyn hyn, sefydlwyd y Bwrdd Rheoli a chyflwynwyd y cynllun gweithredu drafft i aelodau'r bwrdd mewn dau gyfarfod ar wahan. Diwygiwyd y cynllun drafft yn sgil sylwadau aelodau'r Bwrdd Rheoli.

Adroddir i benaethiaid ar gynnydd y prosiect yng nghyfarfodydd y GCSU.

**ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

AJ yn cynrychioli GwE ar Fwrdd Rheoli'r prosiect yn dilyn ei benodiad fel Uwch Ymgynghorydd Her.

Bydd angen cwblhau'r prosiect erbyn diwedd Tymor y Pasg.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | **Datblygu arweinyddiaeth o fewn yr ysgolion uwchradd**<br>• Cyflwyno model 'Datblygu Arweinyddiaeth ar y Cyd' i benaethiaid Cynradd ac Uwchradd fel bo'r llwybr datblygiad a rôl rhanddeiliaid allweddol yn gwbl glir. | **GaJ** | **DRJ** | Chwefror 2014 | | Siart llif | **Gwell dealltwriaeth gan Arweinwyr o'r agweddau sydd angen sylw i wella perfformiad.Penaethiaid/ timau rheoli yn gweithredu ar sail anghenion datblygol ysgolion unigol.** |
| | • Adrodd i benaethiaid ar arferion da ym maes arweinyddiaeth ysgol yng nghyfarfodydd y GCSU (yn dilyn gwaith ymchwil ac ymweliadau) | **NH** | **OO** | Chwefror 2014 | Mehefin 2015 | Dogfennau/ cyflwyniadau | |
| | • Cefnogaeth ym maes arweinyddiaeth gan GwE i'r 5 ysgol a enwyd yn CGOA yr awdurdod (ac 1 ysgol arall) trwy sefydlu Rhwydwaith Arweinyddiaeth *(gw CGOA am fanylion)* | **EVJ** | **DRJ** | Medi 2013 | Mehefin 2014 | Adroddiadau GwE | **Arweinwyr yn cael mynediad i rwydweithiau proffesiynol ac arferion da.** |
| | • Cynnal hyfforddiant 3 diwrnod ar gyfer Arweinwyr Canol. Cynlluniau | | | | | | **Cysondeb yn y modd y mae ysgolion yn ymateb i** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gweithredu ar waith gan Rheolwyr Canol o fewn yr ysgolion targed. | **AJ** | **DRJ** | Mehefin 2014 | | Rhaglen Hyfforddiant Mehefin 3,4 | **ofynion yr Awdurdod.** |
| | • Creu pecyn hyfforddi ar gyfer arweinwyr canol at ddefnydd ysgolion. Ysgolion yn gwneud defnydd o'r pecyn i hyfforddi arweinwyr canol. | **MR** | | Tach 2013 | Mehefin 2015 | Pecyn hyfforddi | **Gwelliannau ym mherfformiad prif ddangosyddion ar lefel ysgol ac Awdurdod.**<br><br>**Cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n cael barn Rhagorol neu Dda yn ystod ymweliad 3.** |
| | • Codi ymwybyddiaeth penaethiaid a thiwtoriad proffesiynol o ddatblygiadau Cenedlaethol ym maes datblygu arweinyddiaeth | **ALl, NH** | **DRJ**<br>**OO** | Chwefror 2014 | Mehefin 2015 | Cofnodion | |
| | • Adnabod potensial ymhlith staff ysgol ( i fod yn arweinwyr y dyfodol) a sicrhau cyfleoedd DPP priodol ar eu cyfer | **Penaethiaid, TP** | | Parhaol | | Arweiniad ar gyfer TP Cynlluniau Datblygu Staff | **Llai o swyddi gweigion penaethiaid ar draws yr awdurdod / Mwy o ymgeiswyr am swyddi penaethiaid** |
| | • Hyrwyddo a chefnogi ceisiadau CPCP athrawon | **GaJ** | **OO** | Blynyddol | | Cynnydd mewn ceisiadau CPCP llwyddiannus | |
| | • Cynnal hyfforddiant ym maes Rheolaeth ar gyfer penaethiaid cynradd | **CC** | **GaJ** | Medi 2014 | Mawrth 2015 | Penaethiaid wedi derbyn hyfforddiant mewn meysydd allweddol | **Model o gydweithio dalgylchol sy'n arwain at gynnydd mewn safonau lles a chyflawniad dysgwyr** |
| | • Peilota 'Arweinyddiaeth Strategol' yn nalgylch Y Moelwyn. | | **OO** | Medi 2014 | Gorffennaf | Cynllun wedi ei beilota | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GaJ | | | 2015 | | |
| | • Tair ysgol yn rhannu arfer dda (mewn meysydd allweddol) gydag arweinwyr ysgolion eraill | NH | DRJ/OO | Gorff 2014 | Rhag 2014 | 3 diwrnod DPP wedi'u cynnal. Wedi arwain at weithredu mewn ysgolion eraill. | |

| ADOLYGU CYNNYDD | ADDASIADAU I'R CYNLLUN |
|---|---|
| Cyflwynwyd model datblygu arweinyddiaeth ar y cyd i benaethiaid ym mis Chwefror. Rhennir arferion da yng nghyfarfodydd penaethiaid. Mae GwE wedi gweithio gyda arweinwyr 5 ysgol uwchradd er mwyn gwella safon arweinyddiaeth yn yr ysgol.Gwelwyd gwelliant yng nghanlyniadau'r prif ddangosyddion yn y mwyafrof o'r ysgolion.<br><br>Ysgol y Moelwyn , Ysgol Botwnnog ac Ysgol Dyffryn Ogwen wedi rhannu arferion da. Cefnogaeth dda ac adborth gadarnhaol iawn. Ysgolion eraill wedi rhoi agweddau penodol ar waith yn dilyn y dyddiau yma. Dyddiau wedi esgor ar hyfforddiant staff cyfan mewn rhai o'r ysgolion eraill.<br><br>Trefnwyd hyfforddiant i benaethiaid cynradd ym maes arweinyddiaeth (sgiliau rhyngbersonol / cyfathrebu). Ymateb da iawn i'r hyfforddiant.<br><br>Cynllun peilot Arweinyddiaeth Strategol wedi cychwyn | Ni fydd pecyn hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Canol yn cael ei ddatblygu'n lleol. Yn hytrach, trefnir hyfforddiant i aelodau o UDRh ysgolion er mwyn eu datblygu i hyfforddi (coach) , rheolwyr canol o fewn eu hysgolion.Cynhelir y diwrnod hyfforddi cyntaf mewn cyfres o 6 ar Ionawr 15fed.<br><br>Mae'r awdurdod wedi comisiynu GwE i ddatblygu arbenigedd ymhlith Tiwtoriaid Proffesiynol er mwyn sicrhau yr hyrwyddir datblygiad arweinwyr ar bob lefel o fewn ysgol ac i yrru'r gwaith cydweithio Ysgol i Ysgol.<br><br>Ar gais aelodau o dimau rheoli ,trefnwyd cyfarfod i Arweinwyr Ysgolion a chyfrifoldeb am ddatblygu cwricwlwm ac amserlennu (yn sgil y newidiadau cwricwlwm CA4 o Fedi 2015). Cynhelir y cyfarfod ym mis Ionawr 2015 |

**DEILLIANNAU MEINTIOL :**

Cynnydd ym mhrif ddangosyddion CA4 :-

Tl2+ 57.1% →61% , Tl 2 82%→87%, Tl2 Mathemateg 61% →65%, Tl 1 97% → 97.4%, DPC 56.4% →60.4%

Llai o ysgolion yng nghategori dilyniant ESTYN (2 →1)

Llai o ysgolion yng nghategori oren a coch ; coch o 4 i 2 ac oren o 6 i 3.

Ni lwyddwyd i gau'r bwlch rhwng perfformiad ysgolion ar Tl2+

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3** | **Gwella ddarpariaeth a safonau Mathemateg**<br>• Adrodd i benaethiaid ar arferion da ym maes Mathemateg ysgol yng nghyfarfodydd y GCSU (yn dilyn gwaith ymchwil ac ymweliadau) | **NH** | **DRJ/OO** | Mai 2014 | Meh 2015 | Dogfennau/ cyflwyniadau | **Safonau addysgu Mathemateg yn uchel**<br>**64% o ddysgwyr yn llwyddo i gyrraedd L2 mewn Mathemateg** |
| | • Cyfarfod â darlithydd Mathemateg TAR i drafod hyfforddi a phroblemau recriwtio / gwneud ymholiadau i'r adran Addysg | **NH/ALL** | **OO** | Mai 2014 | | Adborth o'r cyfarfod.<br>Cydweithio gyda'r Brifysgol i hyfforddi staff. | **Perfformiad yr AALl yn well na chyfartaledd Cymru (Safle 5 neu well)** |
| | • Adnabod cydlynydd a threfnu cyfarfodydd tymhorol ar gyfer Cydlynwyr Rhifedd Uwchradd er mwyn hyrwyddo strategaeth Rhifedd Sirol | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Meh 2015 | Rhannu arferion da ar draws y sir. Llunio strategaeth rhifedd Sirol | **Strategaeth rhifedd Sirol? ar waith**<br>**Cwricwlwm diwygiedig CA4 yn cael eu gyflwyno'n llwyddiannus ym Medi** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Dadansoddi canlyniadau Mathemateg ar draws y Sir – adnabod arferion da a strategaethau llwyddiannus a'u rhannu. Atgoffa ysgolion o Gynllun Mathemateg CA4. | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Tach 2014 | Arferion da wedi'u rhannu | **2015.**<br><br>**Ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi Mathemateg mewn ysgolion y Sir.** |
| | • Cynnal diwrnod DPP â sylw i wersi Rhagorol sy'n datblygu rhifedd dysgwyr | **Is-grwp HMS** | **OO** | Hydref 2014 | | Cydweithio o fewn/rhwng ysgolion i ddatblygu tasgau cyfoethog | |
| | • Sicrhau fod adrannau Mathemateg yng Ngwynedd yn ymwybodol o ddatblygiadau rhanbarthol ym maes Mathemateg ac yn cael hyfforddiant i baratoi ar gyfer cyflwyno TGAU Rhifedd a ThGAu Mathemateg newydd o Fedi 2015 / Sefydlu 'Ysgol Arweiniol' Mathemateg | **AS/NH** | **OO** | Medi 2014 | Meh 2015 | Cynlluniau gwaith/ adnoddau wedi'u paratoi a'u rhannu | **Mwy o ysgolion yn cynnig lle i Athrawon Mathemateg dan hyfforddiant** |
| | • Trefnu hyfforddiant Sirol ar gyfer athrawon Mathemateg | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Rhag 2014 | DPP o ansawdd. Uwchsgilio athrawon Mathemateg | |
| | • Ymateb i broblemau recriwtio Mathemateg – ysgolion (6ed Dosbarth)/Gyrfa Cymru). Cyflwyno | **NH** | **OO** | Gorff 2014 | Rhag 2014 | Papur wedi ei gyflwyno a'i | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | papur yn cynnig awgrymiadau / datrysiad. | | | | drafod yn y Tim Rheoli addysg | |

| **ADOLYGIAD CYNNYDD** | **ADDASIADAU I'R CYNLLUN** |
|---|---|
| Perfformiad dysgwyr Haf 2014 yn uwch ym mhob dangosydd.Cynnydd yng nghanlyniadau Lefel 2 Mathemateg ac yng nghanlyniadau TL2+<br><br>**R**hannwyd pecyn 'Arferion Da mewn Mathemateg' i bob ysgol yn crynhoi arferion llwyddiannus rhai ysgolion, cynnwys adroddiad ar arferion effeithiol 11 ysgol, amlinellu Strategaeth Mathemateg CA4 ,ac yn crynhoi canfyddiau ESTYN.<br><br>Trefnwyd a chynhaliwyd dau gyfarfod i gydlynwyr Rhifedd y Sir, dan arweiniad Nerys Jones. Cychwynnwyd ar y gwaith o baratoi adnoddau Rhfedd (gweithredol ac ymresymu) i hyrwyddo'r maes yn drawsgwricwlaidd mewn cydweithrediad a Chydlynwyr Rhifedd Mon.<br><br>Cyflwynwyd papur yn cynnig datrysiad i sefyllfa Fathemateg y Sir.<br><br>Cynhaliwyd diwrnod DPP ar rhifedd mewn dwy ganolfan i gynrychiolwyr o holl ysgolion y Sir yn Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Eifionydd. Trefnwyd cyfle i ysgolion gydweithio yn y prynhawn.<br><br>CBAC wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer cwrs TGAU Mathemateg a Rhifedd. | Disgwylir y bydd Ysgol Eirias yn arwain hyfforddiant ym maes Mathemateg TGAU ar draws y rhanbarth (Chwefror 2015)<br><br>Cais gan GwE i ysgwyddo cyfrifoldeb a chostau (ar y cyd ag Ynys Mon) ar gyfer y sesiynau Rhifedd (a Llythrennedd).<br><br>AJ a NH i ymchwilio i ddatrysiadau i broblemau recriwtio mewn meysydd fel Mathemateg (a Saesneg). NH i gynnal trafodaethau gyda CPC Bangor am ail hyfforddi athrawon mewn ym maes Saesneg a Mathemateg. AJ i drefnu bod pennaeth ysgol hyfforddi yn Birmingham yn dod i gyfarfod nesaf o Benaethiaid y Gogledd. AJ hefyd i ystyried cynllun TeachFirst yng nghyd-destun un ysgol uwchradd.<br><br>Yn ymchwilio i sefyllfa recriwtio yn yr ysgolion uwchradd (cais Cyng GT) |

| **DEILLIANNAU :** |
|---|
| Perfformiad dysgwyr mewn mathemateg TGAU yn uwch yn 2014 – 65% (61% yn 2013) |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Sicrhau bod gweithdrefnau addas i dracio cyflawniad dysgwyr**<br><br>• Cael cytundeb Sirol ar egwyddorion Gosod Targedau , Asesu a Thracio | **NH** | **OO** | Ebrill 2014 | | Papur wedi'u rhannu | **Cysondeb ar draws y Sir am y broses osod targedau, amlder asesu, asesiad o gynnydd yn erbyn targedau ac ymyrraeth.**<br><br>**Dysgwyr yn cael y gefnogaeth briodol i wireddu potensial**<br><br>**Y bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a PMG a'u cyfoedion yn lleihau**<br><br>**Perfformiad dysgwyr Gwynedd yn y prif ddangosyddion yn y chwarteli uchaf.** |
| | • Datblygu trefn fel bo ysgolion yn adrodd ar gyrhaeddiad dysgwyr yn erbyn eu targedau i'r AALl yn fwy rheolaidd. | **GwE** | **OO**<br><br>**GaJ** | Medi 2014 | Gorff 2015 | Yr AALl yn gallu monitro perfformiad ysgol yn erbyn targedau | |
| | • Ymweld ag AALl eraill sydd a gweithdrefnau 'rhagorol' ar lefel AALl ar gyfer defnyddio data a thracio cynnydd | **NH** | **OO** | Meh 2014 | Chwef 2015 | Arferion da wedi'u rhannu | |
| | • Cynnal sesiynau rhannu arfer dda ym maes Gosod Targedau, Asesu, Tracio ac Ymyrraeth (YUB, YB, YYM) | **YUB, YB, YYM** | **OO** | Mai 2014 | Gorff 2014 | Arferion da wedi'u rhannu | |
| | • Sefydlu trefn fwy effeithiol o dracio cynnydd CA2/CA3 | **NH, GaJ** | **OO** | Gorff 2014 | Rhag 2014 | | |
| | • Hyrwyddo tracio cynnydd a lles plant bregus (cyswllt â P4). Cynnwys sylw i ddysgwyr anweledig. | **SW** | **OO** | Medi 2014 | | Data manylach ar gael i ysgolion er mwyn iddynt drefnu ymyrraeth | |
| | • Hyrwyddo'r defnydd o FFT live newydd – sicrhau system cyfrwng Cymraeg. | **Cynnal** | | Medi 2014 | Ebrill 2015 | | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">ADOLYGU CYNNYDD<br><br>Tair ysgol wedi rhannu arferion da ym maes gosod Targedau , Asesu, Tracio ac Ymyrraeth.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol yn Ysgol y Moelwyn i drafod papur yn crynhoi egwyddorion  Gosod targedau, asesu, tracio cynnydd ac ymyrraeth.<br><br>Wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion rhai o AaALl mewn consortia eraill am y defnydd a wneir o ddata o fewn yr AALl.<br><br>Wedi cyfarfod SW er mwyn trafod meysydd i'w cynnwys o fewn SAC y Fframwaith Ymgysylltu. Ysgolion yn treialu'r system hon.<br><br>Ysgolion am adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau yn dymhorol.</td><td colspan="3">ADDASIADAU I'R CYNLLUN<br><br>Bwriad o sefydlu cytundeb rhanbarthol ym maes  Gosod Targedau , Asesu, Tracio  ac Ymyrraeth.<br><br>GwE yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr agwedd yma. AJ am drefnu cyfarfod buan i gynrychiolwyr o ysgolion er mwyn i ysgolion fabwysiadu egwyddorion cytun.<br><br>Uned ddata rhanbarthol am gael ei sefydlu.<br><br>Wedi ymchwilio i batrwm gwaith AuALl eraill  ym maes data ac wedi adrodd i Banel Cyflawni ar y sefyllfa leol mewn cymhariaeth ac awdurdodau eraill.<br><br>Fe wahoddir ysgolion cynradd ac uwchradd i dreialu trefn o adrodd canolog. Bydd swyddogion o Sir Gaerfyrddin yn cynnal prynhawn codi ymwybyddiaeth ar Rhagfyr 9fed.</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Codi a chyfleu disgwyliadau'r holl rhanddeiliaid<br><br>• Llunio taflen wybodaeth i ddysgwyr a'u rhieni am ddewislen CA4 a'r prif-ddangosyddion (linc gyda'r bartneiaeth ddysgu)</td><td>BHP / EM</td><td>OO</td><td>Gorff 2014</td><td>Prospectws Ardal</td><td>Rolau'r holl rhandeiliaid yn glir ac wedi'u perchnogi ganddynt</td></tr>
<tr><td></td><td>• Adrodd i benaethiaid /Grwp Cynhwysiad ar arferion da (yn dilyn gwaith ymchwil ac ymweliadau) ac ar</td><td>NH/HWO/ Staff ysgolion</td><td></td><td>Ion 2014    Chwef 2015</td><td>Cofnodion cyfarfodydd , Dogfennau</td><td>Disgwyliadau uchel yn cael eu gosod gan yr holl rhannddeiliaid</td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | yr arferion gorau er mwyn ymgyrraedd at y rhieni a'r dysgwyr sydd yn eithrio'u hunain o addysg .<br>• Rhoi ystyriaeth fanylach i ddewisiadau Bl 9 a'r nifer a'r math o byncliau mae rhai unigolion yn dilyn. | **Ysgolion Unigol** | | Hyd 2014 Chwef 2015 | Cynlluniau GAD<br><br>Cofnodion o bynciau dewisol dysgwyr | **Targedau perfformiad ysgolion yn eu gosod yn y chwarteli uchaf**<br><br>**Ysgolion yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr bregus – cau'r bwlch rhwng perfformiad grwpiau o ddysgwyr.** |
| | • Ysgol y Moelwyn yn rhannu ei gweledigaeth am gael disgwyliadau uchel o'u dysgwyr a'u hysbrydoli i fod a'r hunan-gred y gallant lwyddo | **DL**<br><br>**Staff Y Moelwyn** | | Gorff 14 | Arweinwyr ysgolion uwchradd yn rhoi yr un egwyddorion ar waith yn eu sefydliadau hwy. | |

**ADOLYGU CYNNYDD**

Ysgolion yn rhoi gwybodaeth fanwl i rhieni am ddewislen CA4 – dogfennaeth a nosweithiau rhieni.

Cyflwyno strategaeth oedd yn cyfeirio at Hyrwyddo Ymglymiad Teuluol i'r Grwp Cynhwysiad.

Ysgol y Moelwyn wedi cynnal diwrnod llwyddiannus – adborth cadarnhaol iawn.

Wedi cyflwyno papur i ysgolion yn cyfeirio at arfer dda o ran rhoi cyngor gyrfaol i ddysgwyr wrth iddynt ddewis pynciau ym mlwyddyn 9.

**ADDASIADAU**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | **Lleihau'r pegynnu o ran ansawdd o fewn a rhwng ysgolion**<br>• Eglurder yn rol yr AALl a GwE | **DRJ / EVJ** | **ITJ** | Erbyn Medi 2014 | | Dogfen grynodol wedi'i llunio | **Y bwlch rhwng perfformiad ysgolion yn y prif ddangosyddion a'r bwlch rhwng perffomiad pynciau o fewn ysgolion yn llai.**<br><br>**Cysondeb mewn perfformiad pynciau o fewn ysgolion unigol (gweddillebau /residuals adrannau penodol)** |
| | • Datblygu rol y Grwp Ansawdd i fod yn monitro safonau mewn ysgolion yn fwy gofalus | **OO** | **GT** | Mehefin 2014 | | Cofnodion Grŵp Ansawdd | |
| | • Cynnwys 'pegynnu' o fewn ysgolion fel pwynt trafod yn Ymw 1. Ysgolion yn adrodd ar hyn ac yn creu cynllun gweithredu. | **OO/EVJ** | **OO** | Hyd 2014 | Rhag 2014 | Adroddiadau Ym 1 : Dilyniant Ym 2 | |
| | • Casglu arferion da o ardaloled a gwledydd eraill. | **NJH** | **OO** | Medi 2014 | Chwef 2015 | Arferion wedi'u dogfennu a'u rhannu | |

**ADOLYGU CYNNYDD**

Wedi cynhyrch dogfen yn amlinellu cyfrifoldebau'r Awdurdod a GwE o fewn y Model Cenedlaethol. Y ddogfen yn cyfeirio at ddulliau fwy cadarn o sicrhau atebolrwydd gan GwE. Y trafodaethau yma rhwng yr Awdurdod a GwE yn parhau. Penaethiaid Uwchradd yn derbyn adroddiad gan UwchYmgynghorwyr Her GwE ymhob cyfarfod.

Y Grwp Ansawdd yn cyfarfod pob pythefnos ac yn canolbwyntio ar drafod ysgolion. Rhaglen y Grwp Ansawdd yn cael eu rhesymoli er mwyn cael trafodaethau mwy ystyrlon am ysgolion penodol. Ymgynghorwyr Her yn

**ADDASIADAU**

Ni roddwyd sylw penodol i begynnu o fewn ysgolion yn Ym1 – gan fod y mater yma'n codi'n naturiol yn ystod y drafodaeth ar ganlyniadau'r Haf.

Am roi sylw i weithdrefnau 'Addysgu a Dysgu' o fewn ysgolion.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiad ac ymateb i gwestiynau am ysgolion penodol.<br><br>Yn ymweld ag ysgolion llwyddiannus mewn gwahanol ardaloedd o Gymru ac ymchwilio dros y We. | | | | | | | |
| 7 | **Cryfhau rôl yr Awdurdod wrth godi safonau mewn ysgolion uwchradd**<br><br>• Trefn glir ar gyfer cefnogi a rhannu arfer da wedi'i sefydlu. | **NH** | **DRJ** | Mai 2014 | Ebrill 2015 | Amlinelliad o'r drefn | **Cynydd yn y nifer o ysgolion 'gwyrdd / melyn'** |
| | • Eitem ar ansawdd addysg, yn cynnwys rhannu arfer da, ar agenda pob cyfarfod o'r penaethiaid uwchradd. | **NH** | **OO** | Ion 2014 | Ebrill 2015 | Cofnodion GCSU | **Llai o ysgolion uwchradd mewn category dilyniant ESTYN** |
| | • Tair ysgol yn rhannu arfer dda (mewn meysydd allweddol) gydag arweinwyr ysgolion eraill. Pob ysgol yn cael y cyfle i rannu ei arferion gorau mewn fforymau gwahanol. | **NH** | **DRJ/OO** | Gorff 2014 | Ebrill 2015 | 3 diwrnod DPP wedi'u cynnal. Wedi arwain at weithredu mewn ysgolion eraill. | |
| | • Cadarnhau rol broceriaeth GwE a chytundeb lefel gwasanaeth y Cyngor er mwyn cefnogi ysgolion i sicrhau gwelliant | **OO/HFE** | **ITJ** | Medi 2014 | Rhag 2014 | Rôl Swyddog Broceriaeth wedi amlinellu | |
| | • Cydweithio gyda Swyddog Broceriaeth GwE a gosod patrwm gwaith o gydweithio Ysgol I Ysgol yn ei le. | **NH/RhH** | **OO** | | | Patrwm o gydweithio o fewn a rhwng | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Medi 2014 | Ebrill 2015 | ysgolion wedi ei sefydlu | |
| | • Amlinellu disgwyliadau'r AALl ar gyfer ei hysgolion mewn dogfen ' Ysgol Gwynedd' a'i lansio. | **NH** | **OO** | Ion 2014 | Mai 2014 | Dogfen wedi'i llunio | |

| **ADOLYGU CYNNYDD** | **ADDASIADAU** |
|---|---|
| Arferion da yn cael eu rhannu yn y grwp Penaethiaid ac yn y Grwp Cynhwysiad.<br><br>Tair ysgol eisoes wedi cynnal Diwrnod Rhannu Arfer Dda.<br><br>Wedi cynnal cyfarfod gyda Rh H, Swyddog Broceriaeth GwE – wedi amlinellu'r gwaith sydd yn digwydd o fewn yr Awdurdod. Trefnwyd i Rhys Hughes fynychu cyfarfod o diwtoriaid proffesiynol Gwynedd ar Ionawr 21 er mwyn parhau a'r drefn o ddiwrnod DPP Sirol. Bydd rhaglen y diwrnod yma'n fwy hyblyg er mwyn caniatau i ysgolion /adrannau/athrawon gyfarfod i gydweithio mewn meysydd penodol. | Rol flaenllaw gan GwE i hyrwyddo'r gwaith ysgol i ysgol.<br><br>Am gynhyrchu bwletin i ysgolion uwchradd yn rhaeadru gwybodaeth am waith y prosiect. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **8** | **Datblygu ymhellach rôl allweddol Llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol**<br><br>• Angen sicrhau dealltwriaeth penaethiaid o batrwm gwaith Cyrff Llywodraethu effeithiol – cyflwyniad mewn cyfarfod penaethiaid ac YDO yn rhannu arfer dda.<br>• Angen sicrhau dealltwriaeth glir ymysg | **GwE/OMB/ NH** | **OO** | Medi 2014 | Hydref 2014 | Llawlyfr Llywodraethwyr Gwynedd/ Rhestr wirio | **Patrwm gwaith effeithiol gan Gyrff Llywodaethu'r holl ysgolion Uwchradd.**<br><br>**Cynnydd yn y nifer o Gyrff Llywodraethu sy'n ennill** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | llywodraethwyr o rôl yr Awdurdod | | | | | y Wobr Efydd |
| | • Annog Cyrff Llywodraethu i geisio am Wobr Ansawdd Llywodraethwyr (Efydd/Arian) | **OMB** | **OO**<br>OMB | Medi 2014 | Cofnodion GCSU | |
| | • Penaethiaid yn hyfforddi cyrff Llywodraethwyr (maes data) | **Ysgolion** | | Medi 2014 Rhag 2014 | Pecyn hyfforddi | |

**ADOLYGU CYNNYDD**

OMB wedi cyflwyno gwybodaeth i benaethiaid am batrwm gwaith Cyrff Llywodraethu effeithiol. Atgoffa’r penaethiaid o ddyletswyddau statudol Lywodraethwyr. Codi ymwybyddiaeth o wobr efydd ar gyfer Cyrff llywodraethu.

Cyrsiau mandadol wedi cychwyn.

Cyfarfod o’r Gymdeithas Llywodraethwyr wedi’i gynnal.

GwE wedi cynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr.

Rhai penaethiaid wedi hyfforddi Llywodraethwyr ar ddata perfformiad.

**ADDASIADAU**

Y maes yma yn symud drosodd i gyfrifoldeb GwE.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | **Cynyddu cyfranogiad dysgwyr a dylanwad llais y dysgwr**<br>• Ymgynghori gyda Judith Roberts (Cynllun Ysgolion Iach) Hyrwyddo rol cynghorau disgyblion o | **NH** | **RJ** | Medi 2014 | Amlinelliad o batrwm gwaith | **Pob ysgol â strategaeth cyfranogiad**<br>**Ysgolion yn ysgolion** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | fewn yr ysgolion. Cynnwys eitem rheolaidd ar gyfranogiad ar agenda y grwp cynhwysiad. | | | | | cyngor ysgol effeithiol | cynhwysol<br><br>**Cynghorau ysgol yn gweithredu'n effeithiol o fewn yr ysgolion.** |
| | • Cynnal grwpiau ffocws dysgwyr i gasglu eu barn am nodweddion 'Ysgol Gwynedd' | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Hyd 2014 | Barn y dysgwyr yn bwydo fewn i'r prosiect | **Holiaduron dysgwyr yn gadarnhaol iawn.** |
| | • Hyfforddiant i Gynghorau Ysgol /Swyddogion Cynghorau Ysgol / Disgybl Lywodraethwyr. | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Hyd 2014 | Sesiynau rhanbarthol o fewn y Sir wedi'u cynnal | **Ysgolion yn ymateb i ganfyddiadau'r holiaduron** |
| | • Cynnwys dysgwyr fel rhan annatod o'r prosiect Hyrwyddo Ansawdd. | **NH** | **OO** | Medi 2014 | Mai 2015 | Ffilm i lansio'r ddogfen | |
| | • Rhannu holiaduron disgyblion.Rhaeadru barn dysgwyr yn ol i'w hysgolion. | **BER** | **OO** | Medi 2014 | Rhag 2014 | Dadansoddiad o'r holiaduron | |
| | • Sicrhau fod un aelod o'r Llywodraethwyr a chyswllt gyda'r Cyngor Ysgol. | **NH/ OMB** | **OMB** | Medi 2014 | Rhag 2014 | Manylion Llywodraethwr Cyswllt wedi'i gasglu | |
| | • YyM yn rhannu arfer dda<br>• Rhoi arweiniad i ysgolion i lunio Strategaeth Cyfranogiad | **NH**<br><br>**NH/IO** | **OO**<br><br>**OO** | Gorff 2014<br><br>Medi 2014 | Rhag 2014 | Strategaeth Cyfranogiad Drafft wedi'i lunio a'i rhannu | |

| ADOLYGU CYNNYDD | ADDASIADAU I'R CYNLLUN |
|---|---|
| Diwrnod hyfforddiant ar 'Gyfranogiad' yn wedi ei gynnal ar Dachwedd 12fed. Wedi trefnu'r diwrnod drwy ymgynghori a JR. Adborth cadarnhaol iawn i'r diwrnod. Holl ddeunyddiau a baratowyd yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion.<br><br>Wedi ymweld a'r ysgolion uwchradd i drafod cyfranogiad gyda'r aelod o'r staff sy'n gyfrifol am y maes. Yr aelod o'r staff yn casglu barn dysgwyr am nodweddion 'Ysgol Gwynedd'.<br><br>Ysgol y Moelwyn wedi rhannu arfer dda.<br><br>Ymchwiliwyd i'r sefyllfa o fewn yr Awdurdod yng nghyd-destun hyrwyddo cyfranogiad ac ymgynghori gyda Ll J , Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc. Nid oes gan Wynedd berson yn arwain ar gyfranogiad. Nid yw 'Gwynedd Ni' yn weithredol. Mewn nifer o awdurdodau mae Strategaeth Gyfranogiad yn cael ei gyrru gan swyddog penodol.<br><br>Holiaduron yn cael eu rhannu gyda ysgolion penodol (cylch 3/4 mlynedd). | Penderfynwyd gynnal diwrnod o hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n gyfrifol am Gyfranogiad, fel eu bod hwythau yn hyfforddi'r dysgwyr o fewn yr ysgol (yn drefn fwy cynialadwy).<br><br>Lluniwyd Strategaeth Gyfranogiad enghreifftiol a chafodd ei rhannu ar Dachwedd 12fed mewn cyfarfod i Gydlynwyr Cyfranogiad.<br><br>Fe drafodwyd y gynhaliaeth i ddysgwyr yn ystod CA4 drwy gynnal grwpiau ffocws gyda myfyrwyr bl 12. Llunir adroddiad unigol ar gyfer pob ysgol ac adroddiad crynodol ar lefel yr awdurdod.<br><br>Yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Llywio, cytunwyd i gynnal sesiynau hyfforddi i gynghorau ysgolion unigol yn ystod rhan gyntaf o dymor y Gwanwyn os yw'r ysgolion yn dymuno manteisio ar yr hyfforddiant. Roedd y Cydlynwyr yn awyddus i gynnal diwrnod yn Nhymor yr Haf i'r cynghorau disgyblion a gwneud hyn yn drefn flynyddol.<br><br>Roedd ysgolion M/D yn teimlo'n rhwystredig yn yr hyn oedd yn bosib i ddysgwyr hŷn yr ysgol ei wneud i hyrwyddo cyfranogiad ymhlith y dysgwyr iau. Cynhaliwyd cyfarfod gyda un o dim rheoli Coleg Meirion Dwyfor er mwyn hybu perthynas rhwng eu myfyrwyr hwy a'r ysgolion uwchradd. Cytunwyd i beilota cynllun hyrwyddo cyfranogiad rhwng y Coleg ac un neu ddwy ysgol uwchradd. (Tymor y Pasg). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **10** | **Rhoi arweiniad i ysgolion er mwyn iddynt gefnogi dysgwyr bregus yn fwy effeithiol**<br><br>• Rhannu gwybodaeth am yr arferion gorau wrth gefnogi dysgwyr bregus , | **NH** | **OO** | Maw 2014 | Dogfen yn rhoi arweniad wedi'i | **% Presenoldeb ysgolion Uwchradd yn codi**<br><br>**Dysgwyr yn cael y** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | canfyddiadau ymchwil Ymddiriedolaeth Sutton a defnydd priodol o Grant Amddifadedd<br>• Monitro cynlluniau grant yr ysgolion a'u effaith ar ddeilliannau<br><br>• Cynnal hyffordiant ar lefel sirol ar gefnogi dysgwyr bregus.<br><br>• Datblygu a gwneud gwell defnydd o system dracio lles a chyrhaeddiad dysgwyr.<br><br>Prosiect P4. | **HW**<br><br>**HW/NH**<br><br>**SW** | **GaJ** | Ebrill 2014<br><br>Chwefror 2015<br><br>Prosiect P4 | Chwef 2015 | rhannu<br><br>Cynlluniau/<br>Adroddiad arfanu | **gefnogaeth briodol i wireddu potensial**<br><br>**Y bwlch rhwng perfformiad dysgwyr PYD a PMG a'u cyfoedion yn lleihau**<br><br>**Perfformiad dysgwyr Gwynedd yn y prif ddangosyddion yn y chwarteli uchaf.** |

| | |
|---|---|
| **ADOLYGU CYNNYDD**<br><br>Tystiolaeth o waith ymchwil wedi ei grynhoi a'i gyflwyno i benaethiaid ac i aelodau o'r grwp cynhwysiad. | **ADDASIADAU I'R CYNLLUN**<br><br>Lluniwyd Strategaeth Cefnogi Dysgwyr Bregus. Rhanwyd y diweddariadau o Fframwaith Arolygu ESTYN a'r arweiniad atodol ar arolygu'r maes yma. Nodwyd hefyd arferion da ysgolion oedd yn llwyddo i gau'r bwlch rhwng perfformiad grwpiau penodol o ddysgwyr. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **11** | **Datblygu'r cyswllt cynradd-uwchradd**<br><br>• Ail ymweld â'r cynlluniau pontio a sicrhau bod ysgolion yn cwrdd a'r | **GaJ/NH** | **OO** | Ebrill 2014 | Meh2015 | Cynlluniau pontio yn cwrdd a'r gofynion | **Cynllunio strategol bwriadus ar lefel** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gofynion statudol.<br><br>• Datblygu'r cydweithio rhwng y Cynradd a'r Uwchradd er mwyn hwyluso trosglwyddiad a pharhad mewn datblygiad dysgwyr o un cyfnod allweddol i'r nesaf. | **GaJ/NH** | OO | Medi 2014 | Meh2015 | statudol. Cynlluniau datblygu CA2/CA3 o ansawdd<br><br>Prosiectau cwricwlaidd sy'n hyrwyddo llythrennedd a rhifedd wedi'u datblygu | **dalgylchol.**<br><br>**Dysgwyr yn trosglwyddo'n hyderus o'r cynradd i'r uwchradd** |
| **ADOLYGU CYNNYDD**<br><br>Ysgol Dyffryn Ogwen wedi adrodd am eu trefniadau pontio i weddill ysgolion y Sir. | | | | **ADDASIADAU I'R CYNLLUN**<br><br>Fel rhan o'u cynllun busnes, mae GwE yn mynd i rhoi sylw i gymedroli cynradd uwchradd.Gwynedd wedi comisiynu GwE i wirio cynlluniau pontio.<br><br>Cynnal ymweliad ag ysgol y Moelwyn i weld y cynllunio dalgylchol a'i berthnasedd i weddill y Sir.(i'w gyflawni) | | | |
| **12** | **Llunio dogfen yn amlinellu y disgwyliadiau o ran 'Ysgol Gwynedd', ysgol rhagorol ymhob agwedd o'i gwaith** | **NH** | **DRJ/OO** | Ion 2014 | Ebrill 2015 | Dogfen wedi ei gwblhau | |
| **ADOLYGU CYNNYDD**<br><br>Cytunwyd ar fformat y ddogfen i'w chynhyrchu gan y Bwrdd Rheoli a chytunwyd cynnwys astudiaethau achos yn rhan ohonni. | | | | **ADDASIADAU I'R CYNLLUN** | | | |

| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad ar weithredu y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] gydag ysgolion Gwynedd |
|---|---|
| **Awdur** | Elfyn V. Jones [Uwch Ymgynghorydd Her Hwb Gwynedd/Mon] |
| **Dyddiad cyflwyno'r adroddiad** | 11 Rhagfyr 2014 |
| **Swyddog Cyswllt** | Owen Owens |
| **Aelod Cabinet Dros Addysg** | Gareth Thomas |

**Pwrpas yr Adroddiad**

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth i ganiatáu aelodau etholedig i graffu ar waith y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] gydag ysgolion Gwynedd ac i bwyso a mesur effaith y gweithredu hwnnw ar ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth.

**Materion ar gyfer craffu**

Mae'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu.Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn ymwybodol bod Fframwaith Estyn, gofynion Swyddfa Archwilio Cymru a disgwyliadau Llywodraeth Cymru parthed dulliau llywodraethu a rheoli gwaith y consortia rhanbarthol, yn gosod disgwyliad arnynt, fel rhan o brosesau hunan arfarnu a sicrhau ansawdd, i allu ateb y math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut mae'r awdurdod yn monitro ac yn herio gwaith y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE]?
- Sut mae'r awdurdod yn gwybod os ydyw yn cael gwerth am arian pan yn comisiynu gwasanaeth gan GwE?
- Sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod gwaith GwE wedi'i alinio gyda chynlluniau a bwriadau lleol a bod yr agweddau allweddol sydd angen sylw yn cael eu targedu'n effeithiol?
- Pa wahaniaeth y mae cefnogaeth GwE wedi'i wneud i ddeilliannau, safonau cyflawniad ac ansawdd arweinyddiaeth yng Ngwynedd
- Ym mha agweddau/ysgolion/cyfnodau allweddol y gwelir y gwahaniaethau amlycaf ?
- Pa agweddau sydd angen eu blaenoriaethu ymhellach er mwyn sicrhau gwelliannau pellach?

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor graffu ar gynnwys yr adroddiad er mwyn gallu ateb y math o gwestiynau a nodir uchod.

**Gwybodaeth gefndirol**

Cafodd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion [GwE] ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru [Mon; Gwynedd; Conwy; Dinbych; Wrecsam; Flint] i fod yn atebol i'r cynghorau ac i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â gwella ysgolion [ac yn benodol felly, i fonitro, herio a darparu gwasanaethau cefnogol]. Amlygir natur ac ystod y disgwyliadau mewn *Cytundeb Lefel Gwasanaeth* a lluniwyd y model darparu ar sail nifer o ddyddiau penodol ar gyfer :

- cynnal ymweliadau monitro tymhorol
- cefnogi ysgolion categori risg [oren/coch]
- cefnogi cyn ac ol-arolwg

Yn 2014, trwy gyfrwng y Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol, cyflwynwyd disgwyliadau cenedlaethol pellach ac ehangach ar waith y consortia gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o gynllunio i ymateb i'r gofynion hynny yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Caiff y gwasanaeth rhanbarthol ei gyd-gyllido gan y 6 Awdurdod [seiliedig ar fformiwla gytunedig]. Yn 2014-15, bydd y cyfraniadau hynny fel â ganlyn :

| Cyngor | £ | % |
|---|---|---|
| Mon | £364,146 | 10.23% |
| Gwynedd | £640,614 | 17.99% |
| Conwy | £555,908 | 15.61% |
| Dinbych | £539,137 | 15.14% |
| Fflint | £796,986 | 22.38% |
| Wrecsam | £664,019 | 18.65% |
| Cyfanswm | £3,560,810 | |

Canran o'r gyllideb gomisiynu glustnodwyd i'r Awdurdodau gwahanol yn 2013 a 2014 *[*nid yw'n cynnwys ymrwymiadau Hydref 2014 ymlaen] :*

| Cyngor | £ | % |
|---|---|---|
| Mon | £35,559.09 | 12.32% |
| Gwynedd | £63,505.49 | 22.00% |
| Conwy | £72,379.63 | 25.07% |
| Dinbych | £21,729.13 | 7.53% |
| Fflint | £27,925.20 | 9.67% |
| Wrecsam | £67,562.69 | 23.41% |
| Cyfanswm | £288,661.23 | |

Mae tim sy'n cyfateb i 30 Ymgynghorydd Her llawn amser yn gweithio ar draws y rhanbarth gyda 10 o'r rheiny yn gweithio'n benodol yn Hwb Gwynedd/Mon.

| Personel | Ysgolion Cyswllt [Gwynedd yn unig] |
|---|---|
| Elfyn V Jones [Uwch Ymgynghorydd Her] | |
| Dr Alwyn Jones | Uwchradd Berwyn; Uwchradd Brynrefail; Uwchradd Moelwyn; Uwchradd Syr Hugh Owen; Uwchradd Ardudwy |
| Ioan Gruffydd | Bro Tryweryn; Bro Tegid; Nebo; Bethel ; Dolbadarn; Penisarwaun; Borth y Gest; Felinwnda; Rhostryfan; Garnedd |
| Luned Francis | Faenol; Ein Harglwyddes |
| Ieuan Jones | Foelgron; Pendalar; Hafod Lon; Llwybrau Ni; Uwchradd Friars; Uwchradd Eifionydd |
| Bethan James | Craig y Deryn; Dyffryn Dulas; Pennal; Dinas Mawddwy; Llanelltyd; Friog; Llanfachreth; Bro Hedd Wyn; Rhiwlas; Crud y Werin; Garndolbenmaen; Dyffryn Ardudwy; Talsarnau |
| Stella Gruffydd | Gorlan; Bodfeurig; Tregarth; Llanllechid; Abercaseg; Manod<br>Babanod Morfa Nefyn; Nefyn; Chwilog; Beddgelert |
| Osian Hughes | Bro Lleu; Glanadda; Babanod Coedmawr; Dolgellau; Bro Cynfal; Edmwnd Prys; Maenofferen; Beuno Sant; Llanaelhaearn ; Sarn Bach; Abersoch; Llanystumdwy; Uwchradd Glan y Mor |
| Derek Evans | Bronyfoel; Groeslon; Carmel; Glancegin; Ganllwyd; Ffridd y Llyn; Tanygrisiau; Cefn Coch; Abererch; Eifl; Tudweiliog |
| Sylvie Gartau | Brynaerau; Baladeulyn; Talysarn; Llandygai; Cae Top; Gelli; Hendre; Llanbedr; Llandwrog; Penybryn, Tywyn; Brithdir; Ieuan Gwynedd; Santes Helen; Tan y Castell |
| Sharon Vaughan | Maesincla; Felinheli; Garreg; Bro Plenydd; Llanrug; Uwchradd Botwnnog; Uwchradd Gader; Uwchradd Dyffryn Nantlle; Uwchradd Dyffryn Ogwen; Uwchradd Tryfan |
| Gwneir defnydd hefyd, trwy gyfrwng secondiadau rhan amser a dros dro, o nifer o benaethiaid profiadol a llwyddiannus yr is-ranbarth i gyfoethogi'r tim craidd. Ar gyfer gweithredu yng Ngwynedd yn 2014-15, mae'r rheiny yn cynnwys : | |
| Iona Hughes | Eifion Wyn; Pont y Gof |
| Meri Jones | Penybryn, Bethesda; Waunfawr; Traeth; Llanllyfni; Llanbedrog; Clogau; Rhosgadfan |
| Nia Puw | Llandegfan |
| Carys E. Jones | Llangybi; Cwm y Glo; O.M.Edwards |
| Catrin Ff. Roberts | Edern; Pentreuchaf; Treferthyr |
| Tristan Roberts | Gwaun Gynfi |
| Meinir Hughes | Hirael; Bontnewydd; Cymerau |

**Blaenoriaethau Strategol Rhanbarthol 2013-2014**

1. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4
2. Codi safonau cyflawniad dysgwyr sydd â hawl PYD
3. Codi safonau cyflawniad dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol
4. Cynyddu niferoedd a safonau cyflawniad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf
5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16-oed sy'n ennill o leiaf 5 gradd A*/A erbyn diwedd CA4

Meysydd ffocws ychwanegol ar gyfer 2014-15 :

1. Sefydlu ac hyrwyddo model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cydweithio Ysgol>Ysgol
2. Gwella ansawdd arweinyddiaeth a dysgu/addysgu
3. Cefnogi ysgolion i rymuso gweithdrefnau ar gyfer asesu, safoni a chymedroli asesiadau athrawon

**Deilliannau diwedd Cyfnod Allweddol [CS>CA4]**

Cyflwynir dadansoddiad o berfformiad ysgolion Gwynedd yn erbyn yr amryfal ddangosyddion yn yr adroddiad blynyddol. Nodir isod y prif benawdau yn unig mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill y rhanbarth:

| Awdurdod | Cyfnod Sylfaen : Dangosydd Cyfnod Sylfaen | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 84.1 | 85.9 | 84.6 | +0.5 | -1.3 |
| Gwynedd | 83.0 | 82.4 | 85.2 | +2.2 | +2.8 |
| Conwy | 79.9 | 80.4 | 83.6 | +3.7 | +3.2 |
| Dinbych | 81.7 | 84.9 | 85.3 | +3.6 | +0.4 |
| Fflint | 79.7 | 84.4 | 84.7 | +5.0 | +0.3 |
| Wrecsam | 83.3 | 83.5 | 82.9 | -0.4 | -0.6 |
| GwE | 81.7 | 83.5 | 84.3 | +2.6 | +0.8 |
| Cymru | 80.5 | 83.0 | 85.2 | +4.7 | +2.2 |

| Awdurdod | Cyfnod Sylfaen : Dangosydd Cyfnod Sylfaen Perfformiad Dysgwyr PYD | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 71.5 | 67.2 | -4.3 |
| Gwynedd | 70.5 | 71.1 | +0.6 |
| Conwy | 68.0 | 71.0 | +3.0 |
| Dinbych | 74.9 | 74.4 | -0.5 |
| Fflint | 68.6 | 70.2 | +1.6 |
| Wrecsam | 67.2 | 69.0 | +1.8 |
| GwE | 69.8 | 70.6 | +0.8 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 2 : Dangosydd Pwnc Craidd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 84.7 | 88.0 | 87.8 | +3.1 | -0.3 |
| Gwynedd | 86.2 | 86.6 | 86.0 | -0.2 | -0.6 |
| Conwy | 82.6 | 83.1 | 84.1 | +1.5 | +1.0 |
| Dinbych | 83.5 | 86.0 | 86.2 | +2.7 | +0.2 |
| Fflint | 81.3 | 85.0 | 86.2 | +4.9 | +1.2 |
| Wrecsam | 84.5 | 85.4 | 84.3 | -0.2 | -1.1 |
| GwE | 83.6 | 85.5 | 85.6 | +2.0 | +0.1 |
| Cymru | 82.6 | 84.3 | 86.1 | +3.5 | +1.8 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 2 : Dangosydd Pwnc Craidd Perfformiad Dysgwyr PYD | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 79.5 | 79.2 | -0.3 |
| Gwynedd | 71.4 | 76.4 | +5.0 |
| Conwy | 68.6 | 66.3 | -2.3 |
| Dinbych | 76.8 | 72.3 | -4.5 |
| Fflint | 71.7 | 70.9 | -0.8 |
| Wrecsam | 68.4 | 65.8 | -2.6 |
| GwE | 72.4 | 70.8 | -2.6 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 3 : Dangosydd Dangosydd Pwnc Craidd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 77.9 | 81.5 | 83.5 | +5.6 | +2.0 |
| Gwynedd | 83.0 | 85.4 | 89.1 | +6.1 | +3.7 |
| Conwy | 75.7 | 78.5 | 83.7 | +8.0 | +5.2 |
| Dinbych | 71.9 | 75.0 | 83.2 | +11.3 | +8.2 |
| Fflint | 76.0 | 80.0 | 84.3 | +8.3 | +4.3 |
| Wrecsam | 70.0 | 72.2 | 78.4 | +8.4 | +6.2 |
| GwE | 75.7 | 78.7 | 83.7 | +8.0 | +5.0 |
| Cymru | 72.5 | 77.0 | 81.0 | +8.5 | +4.0 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 3 : Dangosydd Pwnc Craidd Perfformiad Dysgwyr PYD | | |
|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 60.9 | 70.2 | +0.3 |
| Gwynedd | 65.6 | 74.5 | +8.9 |
| Conwy | 55.6 | 70.5 | +14.9 |
| Dinbych | 48.2 | 67.2 | +19.0 |
| Fflint | 58.0 | 66.3 | +8.3 |
| Wrecsam | 45.2 | 50.7 | +5.5 |
| GwE | 54.3 | 65.7 | +11.4 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : TL2+ | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 52.3 | 54.2 | 53.0 | +0.7 | -1.2 |
| Gwynedd | 55.0 | 58.0 | 61.3 | +6.3 | +3.3 |
| Conwy | 49.3 | 56.0 | 54.7 | +5.4 | -1.3 |
| Dinbych | 54.7 | 53.4 | 55.6 | +0.9 | +2.2 |
| Fflint | 59.6 | 62.2 | 61.5 | +1.9 | -0.7 |
| Wrecsam | 45.3 | 48.4 | 51.3 | +6.0 | +2.9 |
| GwE | 53.2 | 56.0 | 57.0 | +3.8 | +1.0 |
| Cymru | 51.1 | 52.7 | 55.0 | +3.9 | +2.3 |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : TL2+ Perfformiad Dysgwyr PYD 2014 | |
|---|---|---|
| | Nifer/% PYD yn llwyddo i gael TL2+ | Nifer/% PYD Dim AAA yn llwyddo i gael TL2+ |
| Ysgol 1 | 2/5 [40.0%] | 2/4 [50.0%] |
| Ysgol 2 | 4/8 [50.0%] | 4/6 [66.6%] |
| Ysgol 3 | 8/12 [66.6%] | 8/12 [66.6%] |
| Ysgol 4 | 4/10 [40.0%] | 4/8 [50.0%] |
| Ysgol 5 | 0/5 [0.0%] | 0/0 [0.0%] |
| Ysgol 6 | 0/2 [0.0%] | 0/0 [0%] |
| Ysgol 7 | 2/11 [18.1%] | 2/3 [66.6%] |
| Ysgol 8 | 2/3 [66.6%] | 2/2 [100%] |
| Ysgol 9 | 0/3 [0.0%] | 0/0 [0.0%] |
| Ysgol 10 | 2/4 [50.0%] | 2/3 [66.6%] |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol 11 | 15/41 [36.5%] | 13/26 [50.0%] |
| Ysgol 12 | 3/10 [30.0%] | 3/5 [60.0%] |
| Ysgol 13 | 1/26 [3.8%] | 1/16 [6.2%] |
| Ysgol 14 | 5/10 [50.0%] | 4/8 [50.0%] |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Cymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 62.4 | 66.4 | 72.0 | +9.6 | +5.6 |
| Gwynedd | 76.8 | 72.9 | 73.2 | -3.6 | +0.3 |
| Conwy | 80.3 | 71.2 | 79.1 | -1.2 | +7.9 |
| Dinbych | 69.7 | 69.7 | 73.0 | +3.3 | +3.3 |
| Fflint | 61.8 | 71.3 | 59.7 | -2.1 | -11.6 |
| Wrecsam | 63.2 | 80.0 | 69.0 | +5.8 | -11.0 |
| GwE | 71.3 | 70.9 | 72.7 | +1.4 | +1.8 |
| Cymru | 73.8 | 73.6 | | | |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Saesneg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 57.2 | 61.5 | 65.0 | +7.8 | +3.5 |
| Gwynedd | 64.1 | 66.6 | 69.8 | +5.7 | +3.2 |
| Conwy | 60.7 | 64.1 | 66.2 | +5.5 | +2.1 |
| Dinbych | 64.2 | 64.4 | 66.5 | +2.3 | +2.1 |
| Fflint | 69.2 | 72.7 | 73.4 | +4.2 | +0.7 |
| Wrecsam | 55.3 | 58.4 | 61.8 | +6.5 | +3.4 |
| GwE | 62.6 | 65.4 | 67.8 | +5.2 | +2.4 |
| Cymru | 62.2 | 62.9 | | | |

| Awdurdod | Cyfnod Allweddol 4 : Mathemateg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | +/- 2012>2014 | +/- 2013>2014 |
| Mon | 61.0 | 62.2 | 60.0 | -1.0 | -2.2 |
| Gwynedd | 58.7 | 62.2 | 65.3 | +6.6 | +3.1 |
| Conwy | 57.5 | 66.4 | 61.5 | +4.0 | -4.9 |
| Dinbych | 63.7 | 61.5 | 62.8 | -0.9 | +1.3 |
| Fflint | 69.4 | 68.5 | 68.2 | -1.2 | -0.3 |
| Wrecsam | 52.4 | 57.7 | 57.7 | +5.3 | 0.0 |
| GwE | 61.0 | 63.5 | 63.2 | +2.2 | -0.3 |
| Cymru | 58.4 | 60.3 | | | |

**Amrywiaeth *Perfformiad v Targed* CA4**

| Ysgolion 2014 | TL2+ | | Cymraeg | | Saesneg | | Mathemateg | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed | Perfformiad | Targed | Perfformiad | Targed | Perfformiad | Targed | Perfformiad |
| Ysgol 1 | 82.6 | 60.0 [-23.0] | 87.7 | 78.0 | 84.6 | 77.0 | 82.6 | 62.0 |
| Ysgol2 | 70.3 | 70.4 | 84.3 | 88.2 | 81.4 | 81.5 | 75.9 | 72.0 |
| Ysgol 3 | 73.1 | 58.1 [-15.0] | 81.7 | 73.1 | 79.5 | 68.8 | 75.2 | 59.1 |
| Ysgol 4 | 74.6 | 68.7 | 91.7 | 80.2 | 85.8 | 67.0 | 75.3 | 74.0 |
| Ysgol 5 | 74.2 | 55.7 [-18.5] | 82.8 | 80.0 | 80.0 | 67.0 | 78.5 | 55.7 |
| Ysgol 6 | 61.2 | 64.5 | 74.1 | 73.8 | 70.9 | 64.5 | 61.2 | 71.0 |
| Ysgol 7 | 63.9 | 70.1 | 72.0 | 76.0 | 69.7 | 74.7 | 63.9 | 72.4 |
| Ysgol 8 | 68.1 | 60.2 [-7.9] | 74.0 | 59.3 | 74.5 | 63.2 | 75.0 | 65.2 |
| Ysgol 9 | 68.4 | 68.5 | 66.6 | 68.0 | 82.1 | 77.0 | 69.8 | 71.2 |
| Ysgol 10 | 64.1 | 65.1 | 74.5 | 80.4 | 67.9 | 68.9 | 68.8 | 70.8 |
| Ysgol 11 | 76.5 | 48.8 [-27.7] | 86.4 | 67.9 | 83.9 | 55.0 | 81.4 | 51.3 |
| Ysgol 12 | 63.1 | 49.0 [-14.5] | 70.2 | 67.0 | 70.3 | 57.0 | 63.1 | 52.7 |
| Ysgol 13 | 69.5 | 65.2 | 75.0 | 72.5 | 73.9 | 79.3 | 69.5 | 67.4 |
| Ysgol 14 | 73.4 | 76.2 | 62.2 | 66.7 | 82.8 | 83.0 | 76.5 | 86.0 |

**Effaith gweithredu mewn ysgolion gafodd gynhaliaeth/ymyrraeth ddwys yn ystod 2013-14 [+/-]**

| Ysgolion 2014 | TL2+ | | | Cymraeg | | | Saesneg | | | Mathemateg | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | +/- | 2013 | 2014 | +/- | 2013 | 2014 | +/- | 2013 | 2014 | +/- |
| Ysgol 1 | 62.3 | 60.0 | -2.3 | 67.2 | 78.0 | 10.8 | 76.8 | 77.0 | 0.2 | 69.5 | 62.0 | -7.5 |
| Ysgol 2 | 57.8 | 70.4 | 12.6 | 77.9 | 88.2 | 10.3 | 71.8 | 81.5 | 9.7 | 60.9 | 72.2 | 11.3 |
| Ysgol 3 | 63.5 | 68.7 | 5.2 | 74.8 | 80.2 | 5.4 | 64.8 | 67.0 | 2.2 | 70.9 | 74.0 | 3.1 |
| Ysgol 4 | 62.3 | 55.7 | -6.6 | 77.6 | 80.0 | 2.1 | 67.0 | 67.0 | 0 | 63.5 | 55.7 | -7.8 |
| Ysgol 5 | 58.2 | 68.5 | 10.3 | 61.6 | 68.0 | 6.4 | 65.6 | 77.0 | 11.4 | 68.6 | 71.2 | 2.6 |
| Ysgol 6 | 49.3 | 49.0 | -0.3 | 59.4 | 67.0 | 7.6 | 51.3 | 57.0 | 5.7 | 50.6 | 52.7 | 2.1 |
| Ysgol 7 | 66.0 | 76.2 | 10.2 | 51.2 | 66.7 | 15.5 | 76.7 | 83.0 | 6.3 | 73.2 | 86.0 | 12.5 |

**Data Arolygiadau Haf 2013-Hydref 2014 [cyfnod gweithredu GwE]**

| Arolygiadau ysgolion Gwynedd [cyfanswm 27 arolygiad] | Proffil Arolygiadau | Canlyniad gweithredu dilynol GwE |
|---|---|---|
| Blwyddyn Addysgol 2013 [Haf] :<br>*5 ysgol gynradd* | Dim dilyniant mewn unrhyw ysgol | D/B |
| Blwyddyn Addysgol 2013>2014 [Hydref/Gwanwyn/Haf] :<br>*15 ysgol gynradd; 4 uwchradd ac 1 ysgol arbennig* | 2 *Gwelliant Sylweddol*; 6 *Monitro Estyn*; 3 *Monitro Awdurdod*; 9 ysgol heb unrhyw ddilyniant [astudiaeth o arfer dda mewn un ohonynt] | Mae Estyn wedi ail ymweld gyda 2 o'r ysgolion [un categori *Monitro Estyn* ac un *Gwelliant Sylweddol*] ac wedi eu tynnu allan o gategori yn dilyn gwelliannau. |
| Blwyddyn Addysgol 2014>2015 [Hydref] :<br>*2 ysgol gynradd* | 1 *Monitro Estyn*; 1 ysgol dim dilyniant | D/B |

Proffil cyfredol Gwynedd [holl ysgolion] :

- Nifer/% ysgolion Monitro Awdurdod : 3 [2.6%]
- Nifer/% ysgolion Monitro Estyn : 6 [5.3%]
- Nifer/% ysgolion Gwelliant Sylweddol : 2 [1.7%]
- Nifer/% ysgolion Mesurau Arbennig : 0 [0.0%]

Proffil barnau [o'r ysgolion arolygwyd yn y cyfnod]:

- Nifer/% ble dyfarnwyd Da neu well ar draws y 3 Cwestiwn Allweddol : 19 [70.3%]
- Nifer/% ble dyfarnwyd CA1 yn Dda neu well : 20 [74.0%]
- Nifer/% ble dyfarnwyd CA2 yn Dda neu well : 21 [77.7%]
- Nifer/% ble dyfarnwyd CA3 yn Dda neu well : 20 [74.0%]
- Nifer/% ysgolion ble dyfarwnyd *Anfoddhaol* ar gyfer un o'r Cwestiynau Allweddol/Barn Gyffredinol : 1 [3.7%]
- Nifer/% ysgolion ble dyfarwnyd *Rhagorol* ar gyfer Cwestiwn Allweddol/Barn Gyffredinol : 4 [14.8%]

**Categoreiddio Ysgolion Gwynedd 2013-14 a 2014-15**

***Proffil Categori Cytundeb Partneriaeth Awdurdod>Ysgolion Gwynedd [2013-2014]***

| | Gwyrdd<br>Dim angen monitro llawer | % | Melyn :<br>Monitro Ysgafn | % | Oren<br>Monitro Penodol | % | Coch<br>Monitro Sylweddol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 17 | 17.2% | 51 | 51.5% | 24 | 24.2% | 7 | 7.0% |
| Uwchradd | 2 | 14.3% | 3 | 21.4% | 6 | 42.9% | 3 | 21.4% |
| Pawb | 19 | 16.8% | 54 | 47.8% | 30 | 26.5% | 10 | 8.8% |

***Proffil Categori Cytundeb Partneriaeth Awdurdod>Ysgolion Gwynedd [2014-2015]***

| | Gwyrdd<br>Dim angen monitro llawer | % | Melyn :<br>Monitro Ysgafn | % | Oren<br>Monitro Penodol | % | Coch<br>Monitro Sylweddol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 10 | 10.1% | 63 | 63.6% | 25 | 25.2% | 1 | 1.0% |
| Uwchradd | 0 | 0.0% | 9 | 64.3% | 3 | 21.4% | 2 | 14.2% |
| Pawb | 10 | 8.8% | 72 | 63.7% | 28 | 24.8% | 3 | 2.6% |

**Ymweliadau Monitro Tymhorol 2013-2014**

***Proffil barnau yn dilyn cynnal ymweliadau monitro Hydref/Haf 2013-14***

| Ymweliad Monitro | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|
| Tymor Hydref : Safonau | 7.1% | 61.1% | 30.0% | 1.8% |
| Tymor yr Haf : Arweinyddiaeth | 20.3% | 48.7% | 29.2% | 1.8% |

***Ymateb ysgolion Gwynedd i gwestiynau holiadur rhanddeiliaid [ymateb ysgolion y rhanbarth mewn italig]***

| YMWELIAD MONITRO TYMOR YR HYDREF | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Dim sylw** |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | 58.5% *[58.6%]* | 39.1% *[36.3%]* | 0 *[3.2%]* | 2.4% *[1.9%]* | 0 |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | 41.5% *[46.5%]* | 51.2% *[48.4%]* | 0 *[5.1%]* | 7.3% *[0]* | 0 |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | 68.3% *[57.3%]* | 29.3% *[36.3%]* | 0 *[4.5%]* | 2.4 *[1.9%]* | 0 |
| Lefel yr her yn briodol | 51.3% *[52.2%]* | 46.3% *[41.4%]* | 0 *[5.1%]* | 2.4 *[1.3%]* | 0 |

| YMWELIAD MONITRO TYMOR Y GWANWYN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Dim sylw** |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | *69.1% [64.9%]* | *30.9% [31.4%]* | *0 [2.9%]* | 0 | *0 [0.8%]* |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | *61.9% [56.2%]* | *35.7% [38.7%]* | *2.4% [4.4%]* | 0 | *0 [0.7%]* |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | *66.7% [62.0%]* | *33.3% [32.8%]* | *0 [4.4%]* | 0 | *0 [0.7%]* |
| Lefel yr her yn briodol | *57.2% [59.8%]* | *42.8% [38.0%]* | *0 [0.7%]* | *0 [0.7%]* | *0 [0.7%]* |
| **YMWELIAD MONITRO TYMOR YR HAF** | | | | | |
| | **Cytuno'n Gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Dim sylw** |
| Proses o fudd i'r Pennaeth a'r ysgol. | 56.3% *[62.7%]* | 40.6% *[35.7%]* | 0 *[1.6%]* | 3.1% *[0]* | 0 |
| Cyfarwyddiadau a'r gofynion cyn yr ymweliad yn glir | 46.9% *[55.5%]* | 46.9% *[42.9%]* | 0 *[1.6%]* | 6.2% *[0]* | 0 |
| Trafodaeth a'r argymhellion dilynol o fudd i symud yr ysgol yn ei blaen | 68.7% *[59.5%]* | 28.2% *[37.3%]* | 3.1% *[2.4%]* | 0 *[0.8%]* | 0 |
| Lefel yr her yn briodol | 53.2% *[52.8%]* | 43.7% *[44.8%]* | 3.1% *[0.8%]* | 0 *[1.6%]* | 0 |

**Enghreifftiau penodol o weithredu GwE gydag ysgolion categori oren/coch 2013>2014 :**

| Amlinelliad o agweddau gweithredu/cefnogaeth ac effaith | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd<br>Categori Risg : Coch | Yn dilyn gosod yr ysgol yng nghategori statudol Estyn, roedd arweiniad, cynhaliaeth a her yr Ymgynghorydd Her yn allweddol i sicrhau fod Cynllun Gweithredu Ol-Arolwg grymus a miniog yn cael ei roi yn ei le a bod gweithredu cyflym a chadarn yn digwydd yn erbyn yr amryfal gamau. Cynhaliawyd nifer o sesiynau uwch sgilio i arweinwyr ar draws yr ysgol er mwyn gwella agweddau o arweinyddiaeth [hunan arfarnu, cynllunio gwelliant a sefydlu gweithdrefnau craffu ac atebolrwydd. Bu i'r Ymgynghorydd Her sicrhau cefnogaeth arbenigol ddwys hefyd i'r Corff Llywodraethol. Rhoddwyd sylw i gryfhau strwythur arweinyddiaeth yr ysgol a bellach mae'r cyfrifoldebau wedi eu rhannu'n briodol rhwng arweinwyr yr ysgol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Rheoli ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac mae eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'r Llywodraethwyr, o dan arweiniad y Pennaeth, yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel arweinwyr strategol. Mae'r ysgol wedi cymryd camau breision i sefydlu prosesau priodol ar gyfer hunan arfarnu ac yn gwneud defnydd da o ystod briodol o ffynonellau tystiolaeth. Mae'r ysgol bellach yn gallu adnabod y meysydd sydd angen gwella yn llawer mwy effeithiol ac o'r herwydd mae'r cynllunio ar gyfer gwelliant yn llawer cadarnach. Mae gan yr ysgol system olrhain cynnydd effeithiol, sy'n cael ei defnyddio'n briodol er mwyn nodi'r disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o asesiadau athrawon a chanlyniadau profion safonol i fesur cynnydd y disgyblion. Rhoddwyd arweiniad a chynhaliaeth hefyd i'r ysgol i'w cynorthwyo i ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Bellach, mae sylw dyledus i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn y cynlluniau gwaith ysgol gyfan. O ganlyniad, mae'r cynlluniau yn sicrhau dilyniant briodol yn y medrau ar draws yr ysgol. Mae athrawon hefyd yn cydgynllunio'n ofalus ac mae sylw manwl yn cael ei roi i ddatblygu'r medrau yn y cynlluniau tymor byr. Mae'r cynllunio'n fanwl ac yn ymateb i anghenion disgyblion o bob gallu. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ac fe'i tynnwyd allan o gategori. |
| Ysgol Uwchradd<br>Categori Risg : Coch | Gosodwyd yr ysgol yng nghategori statudol Estyn. Ers sefydlu GwE, mae'r ysgol wedi derbyn rhaglen o gefnogaeth ddwys sy'n cyfateb i oddeutu 10 diwrnod y tymor. Mae hyn wedi cynnwys cyfres o sesiynau hyfforddiant penodol ar gyfer datblygu rôl yr uwch arweinwyr, arweinwyr canol a'r Corff Llywodraethol ynghyd â lefel uchel o gefnogaeth a her. Mae'r system tracio ac olrhain cynnydd yr ysgol wedi'i grymuso'n sylweddol ac mae bellach yn cael ei defnyddio yn llawer iawn mwy effeithiol gan yr UDRh ac Arweinwyr Canol i adnabod tanberfformio yn gynharach ac i sicrhau fod rhaglenni ymyrraeth priodol mewn lle. Mae'r drefn bellach yn cael ei hadnabod fel arfer dda yn lleol ac mae'r ysgol wedi cynnal sesiynau rhannu arfer dda gyda Phenaethiaid ag aelodau UDRh Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn. Yn 2014, gwelwyd cynnydd ymhob un o'r prif ddangosyddion a'r pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 gyda'r TL2+ [68.7%] wedi cynyddu 7% ers 2012 a pherfformiad disgyblion PYD yn dda iawn [66.6%]. Mae cynnydd sylweddol yn ansawdd y gwaith sydd i'w weld yn llyfrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm gydag enghreifftiau ardderchog o waith ysgrifennu estynedig i'w weld mewn yn y mwyafrif o bynciau. Mae tystiolaeth o graffu ar lyfrau yn dangos fod safon gwaith rhifedd yn dda gydag enghreifftiau da iawn mewn Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth a Thechnoleg ynghyd ag enghreifftiau da mewn pynciau eraill megis Hanes. Bellach, mae ansawdd y marcio a'r adborth yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae rôl y Corff Llywodraethol wedi ei rymuso'n sylweddol ac maent bellach yn gweithredu'n effeithiol fel cyfaill beirniadol gyda'r disgybl lywodraethwyr hefyd yn llwyr ymgymryd â'u rôl. Mae trefn atebolrwydd ar gyfer Arweinwyr Canol yn systematig a thrylwyr. Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer gwelliant ar lefel adrannol wedi gwella'n sylweddol ac mae gan bron y cyfan o'r Arweinwyr Canol ddealltwriaeth glir a chywir o'r meysydd i'w gwella sy'n seiliedig ar eu hunan arfarniadau. O ganlyniad, mae'r cyswllt rhwng hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi'i gryfhau yn sylweddol. Caiff hyn, bellach, effaith amlwg ar welliannau mewn meysydd allweddol megis safonau cyflawniad a pherfformiad mewn arholiadau allanol, y dysgu a'r addysgu, ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd yr adborth a roddir i ddisgyblion a rhieni. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn ac wedi'i thynnu allan o gategori Estyn. |

**Categoreiddio Cenedlaethol 2014-2015**

Mae tri cam i'r broses o gategoreiddio ysgolion :

- Cam 1 : ysgol yn cael ei hasesu gan Lywodraeth Cymru ar sail ystod o fesurau perfformiad a'i gosod mewn un o 4 categori dyfarniad [1 yn uchaf a 4 yn isaf]. Caiff hyn ei wirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr/Ionawr bob blwyddyn.
- Cam 2 : GwE a'r Awdurdod yn dod i farn ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r dysgu ac addysgu yn yr ysgol ac yn ei gosod mewn un o 4 categori [A yn ychaf a D yn isaf]. Bydd y broses o ddod i ddyfarniad ar allu'r ysgol i wella yn dechrau gyda hunan arfarniad yr ysgol ond bydd rhaid i'r Ymgynghorwyr Her gael eu bodloni a gweld tystiolaeth, fod pob arweinydd ysgol yn defnyddio data ar berfformiad mewn modd cadarn fel rhan o broses effeithiol o reoli a gwella [llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon, arweinwyr canol ac arweinwyr pwnc]. Rhaid bod yna dystiolaeth o ddefnydd effeithiol o ddata cywir ar lefel disgybl, dosbarth, grŵp, cohort, pwnc ac ysgol. Bydd Ymgynghorwyr Her yn ystyried perfformiad pob dysgwr a grŵp o ddysgwyr yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.
- Cam 3 : GwE a'r Awdurdod yn cytuno ar gategori lliw trosfwaol yr ysgol [Gwyrdd/Melyn/Melyngoch/Coch] fydd yn arwain at raglen o gefnogaeth, her ac ymyrraeth fydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr ysgol. Bydd broceru'r gefnogaeth yn un o swyddogaethau allweddol GwE.

**Proffil Categoreiddio Cenedlaethol Cynradd 2014-2015 [Cam 1 – Data]**

| | Nifer ysgolion Categori 1 | % C1 | Nifer ysgolion Categori 2 | % C2 | Nifer ysgolion Categori 3 | % C3 | Nifer ysgolion Categori 4 | % C4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mon | 11 | 22.92% | 16 | 33.33% | 14 | 29.17% | 7 | 14.58% |
| Gwynedd | 14 | 14.43% | 32 | 32.99% | 35 | 36.08% | 16 | 16.49% |
| Conwy | 6 | 10.17% | 21 | 35.59% | 25 | 42.37% | 7 | 11.86% |
| Dinbych | 4 | 8.33% | 16 | 33.33% | 24 | 50.00% | 4 | 8.33% |
| Fflint | 10 | 14.71% | 21 | 30.88% | 25 | 36.76% | 12 | 17.65% |
| Wrecsam | 6 | 10.17% | 19 | 32.20% | 27 | 45.76% | 7 | 11.86% |
| **GwE** | **51** | **13.46%** | **125** | **32.98%** | **150** | **39.58%** | **53** | **13.98%** |
| **Cymru** | **186** | **13.77%** | **487** | **36.05%** | **503** | **37.23%** | **175** | **12.95%** |

| | Nifer ysgolion Categori 1 a 2 | % C1 a 2 | Nifer ysgolion Categori 3 a 4 | % C3 a 4 |
|---|---|---|---|---|
| Mon | 27 | 56.25% | 21 | 43.75% |
| Gwynedd | 46 | 47.42% | 51 | 52.58% |
| Conwy | 27 | 45.76% | 32 | 54.24% |
| Dinbych | 20 | 41.67% | 28 | 58.33% |
| Fflint | 31 | 45.59% | 37 | 54.41% |
| Wrecsam | 25 | 42.37% | 34 | 57.63% |
| **GwE** | **176** | **46.44%** | **203** | **53.56%** |
| **Cymru** | **673** | **49.81%** | **678** | **50.19%** |

**Proffil Categoreiddio Cenedlaethol Uwchradd 2014-2015 [Cam 1 Data *: i'w gadarnhau gan LlC ar 12/12/14 ac i gynnwys data 2012/13/14*]**

| | Nifer ysgolion Categori 1 | % C1 | Nifer ysgolion Categori 2 | % C2 | Nifer ysgolion Categori 3 | % C3 | Nifer ysgolion Categori 4 | % C4 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mon | | | | | | | | |
| Gwynedd | | | | | | | | |
| Conwy | | | | | | | | |
| Dinbych | | | | | | | | |
| Fflint | | | | | | | | |
| Wrecsam | | | | | | | | |
| **GwE** | | | | | | | | |
| **Cymru** | | | | | | | | |

| | Nifer ysgolion Categori 1 a 2 | % C1 a 2 | Nifer ysgolion Categori 3 a 4 | % C3 a 4 |
|---|---|---|---|---|
| Mon | | | | |
| Gwynedd | | | | |
| Conwy | | | | |
| Dinbych | | | | |
| Fflint | | | | |
| Wrecsam | | | | |
| **GwE** | | | | |
| **Cymru** | | | | |

***Y meysydd ffocws a'r gofynion ar gyfer ymweliadau monitro tymhorol 2014-15:***

*Ymweliad Tymor yr Hydref 2014* : ymweliad sydd yn arfarnu perfformiad a deilliannau diwedd cyfnod allweddol ynghyd ag ansawdd yr ysgol o'i pherffomiad. Byddwn hefyd yn cynnal trafodaeth ar briodoldeb a her targedau'r blynyddoedd nesaf. Eleni, rhoddir ffocws penodol ar wirio addasrwydd a phriodoldeb y Cynllun Datblygu Ysgol. Golyga hynny edrych ar y cyswllt rhyngddo â deilliannau 2014 a chanfyddiadau'r hunan arfarnu. Wrth arfarnu'r CDY byddwn yn ystyried addasrwydd y blaenoriaethau, manylder y cynllunio wrth adnabod yr union gamau i'w cymryd [a'r tebygolrwydd y bydd y gweithredu yn arwain at y gwelliannau ddeisyfir], y trefniadau monitro fydd yn weithredol a hefyd miniogrwydd ac addasrwydd y deilliannau sydd wedi'u pennu. Ymhob ymweliad monitro eleni, rhoddir sylw i'r modd y mae'r ysgol wedi ymrwymo i gydweithio fel rhan o'r model *Ysgol>Ysgol*. Yn ystod ymweliad monitro Tymor yr Hydref, byddwn yn casglu gwybodaeth am gynlluniau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, ac yn monitro cynnydd ac effaith y gweithredu hwnnw wedyn yn ystod ymweliadau Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf. Ar derfyn yr ymweliad, cytunir ar agweddau penodol o'r CDY fydd yn cael eu monitro yn ystod ymweliad Tymor y Gwanwyn 2015 [ymarfer fydd yn cynnwys craffu ar waith dysgwyr i fonitro effaith eich gweithredu]. Mae hyn yn sicrhau mai gweithredu tuag at amcanion y CDY fydd prif ffocws gweithredu yr ysgol yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mai'r cynnydd tuag at y blaenoriaethau fydd prif ffocws y trafodaethau dilynol. Y dogfennau tystiolaeth y bydd disgwyl i'r ysgol eu cyflwyno ymlaen llaw i sylw'r Cynghorydd Her : Hunan arfarniad yr ysgol o berfformiad [1.1] **ym mha bynnag fformat/arddull ddefnyddir gan yr ysgol; Targedau 2015 a 2016; Cynllun Datblygu Ysgol a manylion am gynlluniau cydweithio *Ysgol>Ysgol*. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi comisiynu GwE i weithredu fel eu henwebeion ym mhroses Rheoli Perfformiad y Pennaeth ac felly bydd y drafodaeth yn gosod sylfaen ar gyfer y cyfarfod adolygu a gosod amcanion ffurfiol gyda'r Llywodraethwyr.

*Ymweliad Tymor y Gwanwyn 2015 :* rhoddir y prif ffocws ar arfarnu ansawdd y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r CDY ac ansawdd arfarniad yr ysgol o'i chynnydd [gan fanylu yn benodol ar yr agweddau y cytunwyd arnynt yn ystod ymweliad yr hydref]. Yn ystod yr ymweliad byddwn yn cynnal ymarfer craffu ar waith dysgwyr [union sampl a ffocws i'w gytuno arnynt ymlaen llaw gyda'r ysgol]. Byddwn hefyd yn defnyddio arfarniad yr ysgol i fonitro cynnydd yn erbyn y cydweithio *Ysgol>Ysgol*. Yn ystod ymweliad Gwanwyn 2015, ar gais Is-Grwp Rhanbarthol Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd, byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r ysgol ar safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Bwriad yr ymarfer ydy casglu gwybodaeth ac arferion da ar y sefyllfa ranbarthol. Y dogfennau tystiolaeth y bydd angen i'r ysgol eu cyflwyno ymlaen llaw i sylw'r Cynghorydd Her : hunan arfarniad yr ysgol o gynnydd yn erbyn y CDY; hunan arfarniad yr ysgol o ddangosyddion perfformiad 1.1.5 [Safonau yn yr Iaith Gymraeg] a 2.1.3 [Darpariaeth Gymraeg a'r Dimensiwn Cymreig]; gwybodaeth am gynnydd tuag at dargedau 2015 a 2016 ac rfarniad o gynnydd ac effaith cydweithio Ysgol>Ysgol

*Ymweliad Tymor yr Haf 2015 :* yn ystod ymweliad Tymor yr Haf, byddwn yn cynnal arfarniad terfynol o gynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau'r CDY, gan gynnwys barnu ansawdd hunan arfarniad yr ysgol ei hun o gynnydd. Byddwn hefyd yn dod i farn ar ansawdd ac effaith gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol ac ar effaith y gweithredu *Ysgol> Ysgol* ac yn cytuno ar yr agweddau a'r materion fydd angen sylw pellach fel rhan o CDY 2015-16. Y dogfennau tystiolaeth y bydd angen i'r ysgol eu cyflwyno wythnos ymlaen llaw i sylw'r Cynghorydd Her : hunan arfarniad yr ysgol yn erbyn y tri cwestiwn allweddol ac droddiadau o gynnydd ac effaith y CDY a'r cydweithio *Ysgol>Ysgol.*

**Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd i Ysgolion Gwynedd 2013-14**

***Perfformiad yn y profion cenedlaethol***

% dysgwyr efo sgoriau safonedig >85 yn ysgolion Gwynedd yn uwch na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd GwE ym mhob un o'r pedwar prawf. Hyn hefyd yn wir am sgoriau safonedig >115. Perfformiad dysgwyr Gwynedd oedd uchaf yn y rhanbarth yn y ddau brawf Rhifedd [Gweithdrefnol ac Ymresymu] ac yn y prawf Darllen Cymraeg [2il safle a 0.2% tu ôl i Ynys Môn yn y prawf Darllen Saesneg]

***Hyfforddiant Dyfal Donc***

Yn ystod y flwyddyn trefnwyd tri hyfforddiant dal-i-fyny llythrennedd a thri rhifedd yn Mhlas Menai ar gyfer ysgolion yr hwb. Mynychoedd 36 o ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yr hyfforddiant rhifedd a 32 yr hyfforddiant llythrennedd :

| Rhifedd | | Llythrennedd | |
|---|---|---|---|
| Maenofferen | Ffridd y Llyn | Abererch | Cae Top |
| Nefyn | Dyffryn Ardudwy | Tregarth | Garndolbenmaen |
| Penybryn | Cymerau | Dolbadarn | Craig y Deryn |
| Craig y Deryn | Nebo | Ein Harglwyddes | Pont y Gof |
| Glan Cegin | Llandygai | Bodfeurig | Gwaun Gynfi |
| O M Edwards | Llanystumdwy | Llanystumdwy | Ffridd y Llyn |
| Abererch | Treferthyr | Nefyn | Llanbedrog |
| Dolbadarn | Pentreuchaf | Pentreuchaf | Bethel |
| Faenol | Llanllechid | Bro Plennydd | Nebo |
| Tanygrisiau | Santes Helen | Llandygai | Glan Cegin |
| Felinheli | Llanaelhaearn | Tanygrisiau | Llanllyfni |
| Bontnewydd | Beddgelert | Hafod Lon | Brynrefail |
| Llanrug | Cae Top | Llwybrau Ni | Dyffryn Nantlle |
| Llanllyfni | Hafod Lon | Bryn Ffynnon | Eifionydd |
| Llandwrog | Tryfan | Glan y Mor | |
| Tudweiliog | Brynrefail | | |
| Gader | Glan y Mor | | |
| Botwnnog | | | |

Mae dau gwrs dal-i-fyny arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2014 gyda nifer o ysgolion yn dewis anfon aelodau ychwanegol o staff ar yr hyfforddiant, sy'n awgrymu eu bod wedi gweld gwerth ynddo.

***Cefnogaeth Partneriaid Cynorthwyol*** :

Darparwyd cefnogaeth i 39 o ysgolion gan bedwar aelod o'r tîm yn ystod y flwyddyn – llythrennedd cyfrwng Cymraeg gan Haf Llewelyn, llythrennedd cyfrwng Saesneg gan Nicola Romaine, Rhifedd CA2 gan Manon Esyllt Davies a Rhifedd CS gan Helen Jones. Mae 3 o'r 4 yn

athrawon sydd wedi eu secondio i GwE o ysgolion Gwynedd ac wedi eu hadnabod fel ymarferwyr rhagorol. Mewn 32 o'r ysgolion, un ymweliad fu gan y PC, neu bu'r PC yn darparu hyfforddiant neu sesiwn i glwstwr neu grŵp o ysgolion *e.e. hyfforddiant i glwstwr Cymerau ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu*. Yn y saith ysgol arall fe roddwyd cefnogaeth mwy dwys a hirdymor, oedd yn cynnwys cyd-gynllunio gyda athrawon dosbarth, PC yn modelu gwersi, addysgu ar y cyd ayyb. Yn yr achosion hyn cytunodd y PC a'r ysgol ar y camau gweithredu ar ddechrau'r cyfnod o gefnogaeth, ac roedd copiau o adroddiadau'r ymweliadau yn cael eu rhannu gyda'r Ymgynghorwyr Her, er mwyn iddynt hwy fedru monitro effaith y gweithredu. Ceir rhestr lawn o'r ysgolion a gefnogwyd isod.

| Ysgolion sydd wedi derbyn cefnogaeth |
|---|
| Santes Helen [cefnogaeth rhifedd 3 diwrnod] |
| Coedmawr [cefnogaeth rhifedd 4 diwrnod] |
| Glan Adda [cefnogaeth llythrennedd 4 diwrnod a rhifedd 7 diwrnod] |
| Dolbadarn [cefnogaeth rhifedd 11 diwrnod] |
| Beuno Sant [cefnogaeth llythrennedd 2 ddiwrnod a rhifedd 2 ddiwrnod] |
| Friog [cefnogaeth llythrennedd 3 diwrnod a rhifedd 1 diwrnod] |
| Groeslon [cefnogaeth llythrennedd 3 diwrnod a rhifedd 1 diwrnod] |

| Ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad neu hyfforddiant ar lefel clwstwr | |
|---|---|
| Sarn Bach | Beddgelert |
| Llanbedrog | Gelli |
| Eifl | Llangybi |
| Tanycastell | Ganllwyd |
| Bro Plenydd | Gorlan |
| Ieuan Gwynedd | Manod |
| Llanaelhaearn | Pentreuchaf |
| Cymerau | Brithdir |
| Abererch | Dolgellau |
| Bro Tryweryn | Y Garreg |
| Llanbedr | Bronyfoel |
| Brynaerau | Carmel |
| Nebo | Talysarn |
| Cwm y Glo | Penisarwaun |
| Bethel | Llanrug |
| Waunfawr | Chwilog |

**Gweithredu pellach eleni :**

Mae GwE wedi derbyn gwybodaeth gan y Rhaglen Gymorth Genedlaethol am anghenion cefnogaeth holl ysgolion Gwynedd ym maes llythrennedd a rhifedd. Y gofyn mwyaf oedd am gefnogaeth o ran asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhif [63% o ysgolion y sir wedi gofyn am hyn] a'r RhGG fydd yn darparu'r gefnogaeth hon. O ran dysgu ac addysgu, sef y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan PC GwE, y gofyn mwyaf oedd am gefnogaeth ym maes rhifedd. Mae hyfforddiant ar *Ymresymu Rhifyddol* wedi ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2014. Mae'r gofyn am gefnogaeth ym maes llythrennedd yn sylweddol is yng Ngwynedd [4.5% o Ysgolion].

Mae GwE hefyd wedi dadansoddi canlyniadau'r profion ac wedi adnabod yr ysgolion sy'n perfformio orau a gwanaf ym mhob ALl a byddwn yn targedu cefnogaeth y PC i'r ysgolion hynny ble mae'r perfformiad wanaf, ac yn gofalu bod cyfleoedd i'r rhai sy'n perfformio orau i rannu eu harferion effeithiol. Mae hyn eisoes wedi dechrau gydag ymweliadau gan un o'r PC i rai o ysgolion Gwynedd *e.e. Bro Lleu a Phenybryn*.

**Rhagflas o weithredu penodol sydd i ddigwydd yn ystod 2014-2015 :**

*Hyrwyddo cydweithio Ysgol>Ysgol*

i. rol amlycach i Ymgynghorywr Her GwE wrth hwyluso, hyrwyddo, herio a monitro'r gweithredu
ii. sicrhau cyllid i bob ysgol i hwyluso cydweithio gydag ysgolion eraill y teulu
iii. yn y sector cynradd, hyrwyddo cydweithio gydag ysgolion eraill y rhanbarthol trwy ganiatau mynediad i hyd at £10,000
iv. datblygu rhwydwaith o ysgolion/adrannau/unigolion '*arweiniol*' gan sicrhau bod cyllid ar gael i hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol*'
v. cydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnal 3 cynhadledd rhannu arfer dda [cynradd/uwchradd/arbennig]

*Datblygu arweinyddiaeth a phedagogiaeth*

i. cyflwyno prosbectws o raglenni datblygol ym maes arweinyddiaeth a phedagogiaeth fydd yn cael eu cyflwyno/brocera gan GwE o dymor y gwanwyn 2015 ymlaen [ffocws penodol yn y cam cyntaf i ddatblygu arweinyddiaeth ganol ac i symud dysgu da>rhagorol]
ii. datblygu rhwydwaith o o ysgolion/adrannol '*arweiniol*' ym maes arweinyddiaeth a hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol'*
iii. datblygu rhwydwaith o ymarferwyr '*arweiniol*' ym maes addysgeg a hwyluso cydweithio gyda phartneriaid '*datblygol*
iv. ym maes arweinyddiaeth, datblygu pecyn '*hunan-ddatblygu'* i uwch arweinwyr ei ddefnyddio i gynnal sesiynau hyfforddi a chefnogi yn fewnol yn yr ysgol
v. trefnu cynhadledd ar gyfer Penaethiaid Gweithredol *[Executive Heads]* i rannu arferion effeithiol
vi. hyrwyddo gwaith yr is-grwp strategol asesu/tracio/ymyrraeth effeithiol yn y sector uwchradd

*Hyrwyddo cydweithio ar gyfer grymuso gweithdrefnau safoni a chymedroli*

i. sefydlu ac hyfforddi tim rhanbarthol o ymarferwyr arweiniol [cynrychiolaeth cynradd ac uwchradd ar gyfer pob un o'r pynciau craidd] i gyflwyno rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth ym maes safoni a chymedroli
ii. datblygu portfolio rhanbarthol [wedi'i safoni] ar gyfer pob pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol
iii. blaenoriaethu asesu a safoni fel rhan o raglen hyfforddiant pedagogiaeth GwE yn nhymor y gwanwyn 2015